# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 9FED CHWEFROR, 2017**

**** Nodwch amser cychwyn y cyfarfod ****

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 2/2/17)

# PWYLLGOR ARCHWILIO

**AELODAETH (19)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
E. Selwyn Griffiths
Michael Sol Owen
John Wyn Williams
Gweno Glyn
Charles Wyn Jones
W. Tudor Owen
Gareth Wyn Griffith
Dilwyn Morgan
Gethin Glyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
John Brynmor Hughes
Angela Russell
Thomas G. Ellis
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Aeron M. Jones

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

## Aelod Lleyg (1)

John Pollard

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2016, fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB REFENIW 2016/17 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** 11 - 30

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**6. RHAGLEN GYFALAF 2016/17 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** 31 - 36

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**7. CYLLIDEB 2017/18 A STRATEGAETH ARIANNOL 2017/18 – 2019/20** 37 - 69

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**8. RHEOLAETH TRYSORLYS - DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2017/18** 70 - 96

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**9. ADOLYGIAD O'R DREFN CRAFFU** 97 - 106

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Arweinydd a Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol.

**10. TREFNIADAU RHEOLI RISG** 107 - 111

(i) Cyflwyno llythyr Swyddfa Archwilio Cymru

(ii) Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 21/11/16 - 27/1/17** 112 - 129

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** 130 - 136

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2016/17.

**13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2017/18** 137 - 143

Cyflwyno Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.

**14. HAFAN PWLLHELI** 144 - 145

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned.

# PWYLLGOR ARCHWILIO 1/12/16

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Gareth Wyn Griffith, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, John Pughe Roberts a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:** John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Sioned Gwenllian Thomas (Uwch Swyddog Polisi - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Iwan Evans (Swyddog Monitro – ar gyfer Eitem 10 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths, W. Tudor Owen, Gethin Glyn Williams a John Wyn Williams.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi 2016, fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Gosododd yr Uwch Swyddog Polisi y cyd-destun, gan dynnu sylw'r aelodau at yr ymatebion a dderbyniwyd i'r hyn a godwyd gan yr aelodau yng nghyfarfod 23 Mehefin 2016. Atgoffwyd yr aelodau mai rôl y Pwyllgor oedd bodloni eu hunain o'r cynnydd a oedd wedi digwydd. Tynnwyd sylw bod 29 allan o'r 69 argymhelliad wedi eu cwblhau.

Nodwyd ar hyn o bryd yr adroddir ar yr holl argymhellion a oedd yn nodi eu bod heb eu cwblhau o adroddiadau oedd yn mynd yn ôl cryn flynyddoedd. Holwyd am farn yr aelodau o ran cynnwys yr adroddiad diweddaraf yn unig o'r rhai a gyhoeddir yn flynyddol, er enghraifft Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, gan y tybir y byddai unrhyw beth a oedd heb ei gyfarch yn yr adroddiad blaenorol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf.

Nododd y Rheolwr Archwilio o safbwynt archwilio y dylid ystyried eu cadw ar y rhestr gan y gallai'r themâu newid dros y blynyddoedd ac os tynnir o'r rhestr efallai na fyddent yn derbyn y sylw priodol. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg os oes ail adrodd y gellir ystyried cynnwys croes gyfeiriad rhwng yr adroddiadau diweddar/hanesyddol.

Nododd aelodau eu dymuniad i barhau i gynnwys adroddiadau blynyddol hanesyddol yn y rhestr i'w gwirio.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau ar yr adroddiad a'r atodiadau a oedd yn nodi'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol dros y blynyddoedd diwethaf ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella, eu cynlluniau gweithredu â'r cynnydd hyd yn hyn.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Fe dderbynnir ymatebion i bwyntiau a godwyd yng nghyfarfod 23 Mehefin 2016 yn y cyfarfod yma, roedd hyn yn gyfnod rhy hir;
- **Tudalen 35 Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant** - bod y sylwadau yn gwrthddweud eu hunain gan gyfeirio at wellhad ond ar y llaw arall yn dweud nad oedd gwellhad. O ran diffyg cynrychiolaeth gan asiantaethau eraill yn y cynadleddau, dylid gallu parhau efo'r cynadleddau drwy fideo linc.
- **Tudalen 22 Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau** – y nodir ei fod wedi'i gwblhau ond yn ymwybodol bod nifer ar y rhestr aros felly cwestiynir os ceir y gwir ddarlun. Dylid cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) parhau i gynnwys adroddiadau blynyddol hanesyddol yn y rhestr i'w gwirio;**
**(iii) gofyn am ymateb gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yng nghyswllt amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant;**
**(iv) cyfeirio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er ystyriaeth.**

**4. CYLLIDEB REFENIW 2016/17 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2016. Tynnwyd sylw at y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

"Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Trosglwyddo (£135k) o gyllideb gorfforaethol i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyllido'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r newid yn ymwneud â chodi tâl am y chwe wythnos gyntaf o ofal preswyl a nyrsio.
- Caniatáu i'r Adran Rheoleiddio ddefnyddio (£200k) o'u tanwariant i gyllido cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio.
- Trosglwyddo (£300k) o'r Adran Rheoleiddio i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.
- Cynaeafu (£300k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, a (£290k) o danwariant Budd-daliadau, ynghyd â (£200k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill', a'i drosglwyddo fel a ganlyn:
  - defnyddio (£20k) o'r tanwariant fel cyfraniad ariannol i Bwll Nofio annibynnol Harlech er mwyn gwneud taliad pontio un tro ar gyfer y cyfnod hyd at 31 o Fawrth 2017, yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar y 4 o Hydref 2016.
  - defnyddio (£135k) i gyllido oblygiadau ariannol newid yn y Ddeddfwriaeth Gofal 2014 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
  - y gweddill o (£635k) i'w neilltuo i Gronfa Trawsffurfio"

Eglurodd y Pennaeth Cyllid y defnyddir yr arian a gynaeafwyd ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor. Diolchwyd i'r Adrannau a'r Aelodau Cabinet am eu rheolaeth gyllidebol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- O ran y gallai cau'r canolfannau croeso effeithio ar yr incwm a dderbynnir mewn meysydd parcio, ni ragwelir effaith sylweddol gan fod symudiad tuag at archebu llety ar-lein;
- O ran gorwariant y Gwasanaeth Morwrol o £108,000, roedd Hafan Pwllheli wedi ei fewnoli yn 2007 cyn y cwymp ariannol yn 2008 ac ni ellir amcan os byddai'r sefyllfa ariannol wedi bod yn well os fyddai'r Hafan wedi aros yn rheolaeth cwmni preifat gan fod llai o ofyn gyda mwy o gyflenwad. Y gellir gofyn i'r Adran Economi a Chymuned edrych ar yr opsiwn o allanoli'r Hafan, ond roedd y sefyllfa wedi cymhlethu ers adeg y trosglwyddiad, gyda rheolaeth yr Hafan a'r Harbwr wedi ei gyfuno, a dyfodiad Plas Heli;
- Mai ffioedd parcio oedd rhan fwyaf o'r incwm o dan y pennawd 'Gwasanaethau Parcio a Gorfodaeth Parcio' yn hytrach na dirwyon parcio. Yn dilyn cynyddu'r nifer o feysydd parcio y codir tal ynddynt, ynghŷd â'r a'r nifer uchel o ymwelwyr, roedd yr incwm wedi cynyddu;
- Yn dilyn penodiad parhaol y Pennaeth ac Uwch Reolwyr newydd, bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ail-ddylunio ei raglen arbedion. Sicrhawyd bod y sefyllfa tangyflawni yn derbyn sylw;
- Y rhagwelir tanwariant o dan y pennawd Gwasanaethau Ol-16 yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn dilyn lleihad ar hyn o bryd yn y galw am gynlluniau cefnogol Ol-16.

Cafwyd trafodaeth ar Hafan Pwllheli gan nodi y dylid gofyn i'r Adran Economi a Chymuned ddarparu gwybodaeth o ran y sefyllfa cyn mewnoli a'r sefyllfa bresennol o ran y sefyllfa ariannol, niferoedd defnyddwyr ac angorfeydd. Nododd y Rheolwr Archwilio y cynhelir archwiliad yn Hafan Pwllheli ac un elfen yr ystyrir oedd trefniadau talu ffioedd a'r anawsterau o ran sefydlu trefn taliadau debyd uniongyrchol a oedd yn debygol o gael effaith ar yr incwm.

Nododd aelod y dylid edrych ar y sefyllfa o ran trethu carafanau gan fod rhai meysydd carafanau ar agor gydol y flwyddyn a'u perchnogion yn defnyddio'r gwasanaethau ond ddim yn cyfrannu o ystyried bod y Cyngor yn edrych ar godi premiwm o 50% ar ail gartrefi. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr hawl gan y Cyngor i drethu eiddo oedd yn ail gartref ond yn achos carafanau roeddent yn cael eu cynnwys yn asesiad y safle carafanau yn ei gyfanrwydd o ran treth busnes. Ychwanegwyd yr ysgrifennwyd i ofyn am rym i'r Cyngor i godi treth wahanol ond dim ond grym o ran ail gartrefi a dderbyniwyd. Roedd y Cyngor yn gweithredu tu fewn i'r rheoliadau.

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau mai trefn genedlaethol oedd y drefn dreth busnes. Nododd aelod y dylid cynnal ymchwiliad craffu yng nghyswllt trefniadau trethu meysydd carafanau yn yr un modd a wnaed efo tai gwyliau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr Ymchwiliad Craffu Tai Gwyliau a Threthi wedi awgrymu unwaith bod y Cyngor yn defnyddio'r grym i godi premiwm ar ail gartrefi bod y Cyngor yn defnyddio cyfran o'r incwm treth i ddarparu tai fforddiadwy. Nodwyd y byddai hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy o dai fforddiadwy i bobl leol ac fe geisir eu hargyhoeddi efo agweddau eraill o'r agenda trethiannol gan ofyn am rym cynllunio i'r Cyngor yng nghyswllt tai domestig oedd yn mynd yn dai gwyliau yn hytrach na'r drefn fympwyol bresennol.

Mewn ymateb i bryderon yr aelodau o ran codi premiwm ar ail gartrefi, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod yr Ymchwiliad Craffu Tai Gwyliau a Threthi wedi gwyntyllu'r pryderon yn fanwl.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod carafanau a oedd wedi derbyn hawl cynllunio i'w defnyddio fel cartref yn cael eu trethu yn unol â threfniadau Treth y Cyngor ac fe ellir

codi premiwm, tra na ellir codi premiwm ar unrhyw garafan ble mae amod cynllunio yn rhwystro unigolion rhag byw yno am o leiaf 4 wythnos y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau;**

**(ii) gofyn i'r Adran Economi a Chymuned (gyda chefnogaeth yr Adran Gyllid) gyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor o ran Hafan Pwllheli cyn mewnoli a'r sefyllfa bresennol;**

**(iii) gofyn i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ystyried cynnal ymchwiliad craffu yng nghyswllt trefniadau trethu meysydd carafanau.**

## 5. RHAGLEN GYFALAF 2016/17 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2016. Nodwyd bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £34.493 miliwn yn 2016/17. Cadarnhawyd bod £2.442 miliwn o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2016/17 i 2017/18, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, eglurodd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn dilyn trosglwyddo'r stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn parhau i fod yn gyfrifol am bibellau dŵr y stadau tai.

Gofynnodd aelod am eglurhad o ran beth a olygir efo benthyca heb gefnogaeth. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod hyn yn golygu bod y Cyngor yn buddsoddi heb gefnogaeth arian grant.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.**

## 6. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 19/9/16 – 18/11/16

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 21 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau a 3 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

### Rheolaeth Gyllidebol – Ysgolion Cynradd, Ysgol Talsarnau

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio ei bod yn obeithiol y bydd gwelliant o ran rheolaeth gyllidebol pan ail-ymwelir â'r ysgol.

### Trothwyon Gwirio

Nododd y Rheolwr Archwilio na roddwyd categori barn ar yr archwiliad oherwydd roedd y drefn o gynnal gwiriadau annibynnol ychwanegol yn yr Uned Gyfrifeg Ganolog bellach wedi ei derfynu yn dilyn trafodaeth efo'r Uwch Reolwr Cyllid.

### Strwythur Codio

Nododd y Rheolwr Archwilio ni roddwyd categori barn ar yr archwiliad oherwydd nid oedd gweithrediad addas a fyddai'n arwain at lifliniad yn y codau cyfrif felly fe addysgir staff i ddefnyddio'r codau gwariant cywir i leihau'r enghreifftiau o gam-godio.

**Canolfannau Hamdden**

Nododd aelod ei fod yn braf gweld gwellhad a bod angen cyfleu diolchiadau i'r Adran Economi a Chymuned a'r canolfannau hamdden. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio ei bod yn falch o adrodd bod gwellhad. Cyfeiriodd at Reolwyr ar Ddyletswydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Silyn gan nodi eu bod yn mynd tu hwnt i sicrhau bod y ganolfan yn ddeniadol i bobl ei ddefnyddio.

**Ffioedd MOT**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed gosod peiriant talu efo cerdyn yn y gweithdai, nododd y Rheolwr Archwilio bod ffi prynu peiriant ynghyd â ffi misol, nid oedd diben buddsoddi mewn peiriant os oedd yr incwm a dderbynnir ddim yn sylweddol. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg ei fod yn fater i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda chefnogaeth yr Uned Incwm. Tynnodd sylw mai drwy drefn anfonebu y gweithredir efo cwmnïau.

Nododd aelod y dylid ystyried defnyddio system talu ar gyfrifiadur. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod gan y Cyngor system gyffelyb, a gellid ystyried ei gynnig i'r gweithdai, os yn ymarferol bosib.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 19 Medi 2016 hyd at 18 Tachwedd 2016 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;**

**(ii) cyfleu diolchiadau'r Pwyllgor i'r Adran Economi a Chymuned, Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor, Canolfan Hamdden Plas Silyn, Canolfan Hamdden Dwyfor a Chanolfan Hamdden Bro Dysynni am eu gwaith yn codi safon rheolaethau;**

**(iii) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliad oedd wedi derbyn categori barn 'C';**

**(iv) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

**7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2016/17.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol hyd at 18 Tachwedd 2016 wedi cwblhau 52.44% o'r cynllun, gyda 43 o'r 82 archwiliad yng nghynllun 2016/17 wedi eu rhyddhau yn derfynol.

Tynnwyd sylw at addasiadau i'r cynllun gan nodi bod un aelod o'r tîm wedi gadael cyflogaeth y Cyngor diwedd Hydref 2016 ac yn dilyn adolygiad penderfynwyd canslo'r archwiliad 'Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar'. Adroddwyd bod tebygolrwydd uchel y bydd canslo archwiliadau eraill yn anochel os parheir y sefyllfa yn enwedig gan fod aelod arall o'r tîm yn gadael cyflogaeth y Cyngor yn dechrau 2017.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y risg o ganlyniad i ganslo'r archwiliad 'Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar', nododd y Rheolwr Archwilio fe flaenoriaethir ar sail risg a gan fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych ar y mater yn ddiweddar fe benderfynwyd canslo'r archwiliad yma.

Mewn ymateb i sylwadau, nododd y Pennaeth y byddai'r swydd a oedd yn dod yn wag dechrau'r flwyddyn yn cael ei llenwi. Awgrymodd y dylai'r Rheolwr Archwilio ail-flaenioraethu'r materion yng nghynllun archwilio mewnol 2016/17 gan drafod efo'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Nododd aelod y dylid ystyried nodi gohirio yn hytrach na chanslo. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai nodi gohirio yn rhoi'r argraff yr edrychir ar y mater eto.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2016/17;**
**(ii) bod y Rheolwr Archwilio yn ail-flaenioraethu'r materion yng nghynllun archwilio mewnol 2016/17 gan drafod efo'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.**

**8. ADOLYGU'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yng nghyswllt adolygu'r cyfansoddiad. Adroddwyd y mabwysiadwyd Cyfansoddiad diwygiedig gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2014 a oedd yn seiliedig ar gyfansoddiad model a ddatblygwyd yn genedlaethol. Nodwyd bod newidiadau i'r Cyfansoddiad wedi eu hadrodd i'r Cyngor o bryd i'w gilydd ers ei fabwysiadu. Roedd o'r farn ei fod yn amserol cymryd trosolwg o'i weithrediad er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio i'r Cyngor ac adnabod ardaloedd ble roedd angen eglurdeb gwell neu addasu.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried ail sefydlu gweithgor i helpu efo'r gwaith o adolygu'r Cyfansoddiad gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd a oedd yn gyfrifol am lywodraethu, neu ofyn i'r Grŵp Adolygiad Craffu ymgymryd â'r gwaith.

Nododd aelod ei fod yn amserol i ail-edrych ar y Cyfansoddiad o ystyried y newidiadau technolegol o we-ddarlledu cyfarfodydd a phleidleisio'n electronaidd.

Adroddwyd y cyflwynir adroddiad gerbron y Cyngor ar 8 Rhagfyr 2016 yn adrodd ar ddiwygiadau i hawliau dirprwyedig swyddogion a oedd yn adlewyrchu newidiadau adrannol a deddfwriaethol ynghyd â gofyn i addasu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor yng nghyswllt addasu'r gyfundrefn derbyniadau cyfalaf yn dilyn gwaredu eiddo er mwyn creu trefn lle bo Adran yn gwneud cais i gadw cyfran o'r dderbynneb cyfalaf yn hytrach na chadw 20% o bob derbynneb cyfalaf yn awtomatig. Nodwyd gyda'r Cyngor yn wynebu toriadau enbyd yn y cyllid cyfalaf fydd ar gael i wireddu blaenoriaethau'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol, cymerir y cyfle i sicrhau yr uchafir y cyfalaf fydd ar gael i wireddu blaenoriaethau'r Cyngor yn dilyn gwerthu asedau.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi'r adroddiad;**
**(ii) penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, Cynghorwyr Gareth Wyn Griffith, Aeron M. Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen a John Pughe Roberts ynghyd â'r Dirprwy Arweinydd i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried canfyddiadau Adolygiad y Cyfansoddiad;**
**(iii) argymell y newid i'r Rheoliadau Ariannol i'r Cyngor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.15pm

___________________________
**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2016/17 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID A FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb yr ail chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr 2016.

**2.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn ystyried yr adolygiad cyllideb trydydd chwarter ac, am y tro, fe welir o Atodiad 1 fod darlun cyfan y Cyngor yn foddhaol.

**3.** Fodd bynnag, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i'w ystyried cyn i ni adrodd i'r Cabinet.

**4.** Bwriedir cyflwyno unrhyw sylwadau fydd gan y Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror.

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 Chwefror 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2016/17 –
Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2016)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2016) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Trosglwyddo (£115k) o'r Adran Rheoleiddio i falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

- Cynaeafu (£250k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, (£180k) o danwariant Budd-daliadau, (£600k) cyllideb wrth gefn, ynghyd â (£250k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill' i falansau cyffredinol y Cyngor, gyda £1,055k (£756k 2017/18, a £299k 2018/19) ohono ar gyfer ymrwymiadau yn y maes Addysg sydd eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet 13 Rhagfyr 2016.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad yma ar yr adolygiad chwarterol diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2016/17, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

## 2.1 Adran Rheoleiddio

Mae darlun incwm ffafriol ynghyd â gwireddu arbedion ymlaen llaw gan yr Adran Rheoleiddio eleni wedi arwain at danwariant uwchlaw (£100k), ac felly argymhellir trosglwyddo'r tanwariant sydd uwchlaw £100k i Falansau Cyffredinol y Cyngor.

## 2.2 Corfforaethol

Argymhellir i neilltuo tanwariant o'r sylfaen Treth y Cyngor, Budd-daliadau, cyllideb wrth gefn a phenawdau eraill o'r gyllideb Corfforaethol, i Falansau'r Cyngor, er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

## 2.3 Cyffredinol

Mae'r adolygiad trydydd chwarter o'r cyllidebau, yn gyffredinol, yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol, er disgwylir i'r Adran Plant gymryd camau i reoli'r gyllideb erbyn 31 Mawrth.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

## Cyllideb Refeniw 2016/17 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Trydydd Chwarter | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17 £ '000 | Symud i/o Gronfeydd £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Ail Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 50,207 | 88 | 0 | 0 | 88 | *168* |
| **Plant a Theuluoedd** | 13,941 | 222 | 0 | 0 | 222 | *168* |
| **Addysg** | 89,057 | 42 | 0 | 0 | 42 | *13* |
| **Economi a Chymuned** | 11,719 | 2 | 0 | 0 | 2 | *73* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 23,076 | 58 | 0 | 0 | 58 | *118* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 8,954 | (215) | 0 | 115 | (100) | *(23)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 1,163 | (47) | 0 | 0 | (47) | *70* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 711 | (55) | 0 | 0 | (55) | *(29)* |
| **Cyllid** | 765 | (56) | 0 | 0 | (56) | *(67)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 512 | (80) | 0 | 0 | (80) | *(88)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | * | (1,285) | 0 | 1,280 | (5) | *(190)* |
| **Cyfansymiau (net)** | 200,105 | (1,326) | 0 | 1,395 | 69 | *213* |

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 9,860 | 9,544 | (316) | 0 | (316) | (320) |
| Gofal Cartref | 6,329 | 6,301 | (28) | 0 | (28) | 2 |
| Eraill | 2,785 | 2,767 | (18) | 0 | (18) | (33) |
| | 18,974 | 18,612 | (362) | 0 | (362) | (351) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 479 | 429 | (50) | 0 | (50) | (60) |
| Gofal Cartref | 1,016 | 1,057 | 41 | 0 | 41 | 25 |
| Eraill | 711 | 648 | (63) | 0 | (63) | (52) |
| | 2,206 | 2,134 | (72) | 0 | (72) | (87) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 14,949 | 14,846 | (103) | 0 | (103) | (124) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,386 | 1,622 | 236 | 0 | 236 | 265 |
| Eraill | 2,064 | 2,016 | (48) | 0 | (48) | (105) |
| | 3,450 | 3,638 | 188 | 0 | 188 | 160 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolaeth | 424 | 390 | (34) | 0 | (34) | (12) |
| Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,432 | 2,427 | (5) | 0 | (5) | (9) |
| | 2,856 | 2,817 | (39) | 0 | (39) | (21) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **42,435** | **42,047** | **(388)** | **0** | **(388)** | **(423)** |

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 68 | 154 | 86 | 0 | 86 | 62 |
| Gofal Dydd | (20) | (17) | 3 | 0 | 3 | 23 |
| Gofal Cymunedol | 92 | 214 | 122 | 0 | 122 | 142 |
| Eraill | 25 | (2) | (27) | 0 | (27) | (37) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **165** | **349** | **184** | **0** | **184** | **190** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 4,403 | 4,416 | 13 | 0 | 13 | 28 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,204 | 3,483 | 279 | 0 | 279 | 373 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **7,607** | **7,899** | **292** | **0** | **292** | **401** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,207** | **50,295** | **88** | **0** | **88** | **168** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn -** tanwariant o (£362k) yn cael ei ragweld yn bennaf gan fod y tueddiad o leihad yn y niferoedd cleientiaid mewn lleoliadau preswyl a nyrsio yn parhau, gyda gostyngiad o 68 o breswylwyr ers dechrau'r flwyddyn ariannol, sef o 409 i 341 erbyn hyn.

**Gwasanaethau Anabledd Corff -** rhagwelir tanwariant o (£72k), gyda (£50k) ohono ar breswyl a nyrsio, y duedd o ostyngiad yn y nifer o achosion taliadau uniongyrchol yn parhau, ond cynnydd yn y galw am becynnau gofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu -** y tanwariant yn bennaf ar breswyl a nyrsio ac felly yn dilyn yr un tuedd â'r darlun a adroddir ar wasanaethau pobl hŷn ac anabledd corff uchod, tanwariant ar wasanaethau dydd ond gorwariant ar gynlluniau cefnogol a thaliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl -** y duedd yn parhau gyda gorwariant net o £188k o ganlyniad i achosion newydd costus preswyl a nyrsio, a chynnydd o £46k yn ystod y chwarter ar wariant ar ofal alcohol a chyffuriau. Tanwariant un-tro o £40k ar swyddi gwag yn cynorthwyo i leihau lefel y gorwariant.

**Gwasanaethau Darparu -** parhad yn y tueddiad gyda gorwariant o £184k, sydd yn bennaf ar ofal cymunedol, £92k ohono o ganlyniad i orwariant ar gostau teithio gyda'r gweddill ar staffio a gorbenion. Cynnydd yn y gorwariant ar ofal preswyl o ganlyniad i gostau staffio ychwanegol.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol -** bu cynnydd sylweddol yn ystod y chwarter o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2016/17 yr Adran, a bellach rhagwelir fod y tangyflawni net yn gostwng i £273k (£508k yn chwarter 2), ond fod nifer o gynlluniau arbedion yn parhau i lithro, neu eto i'w gwireddu yn 2016/17. Mae bwriad gan yr Adran i gymryd camau pellach i geisio sicrhau fod y darlun yn gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a hynny drwy ail-becynnu eu cynlluniau arbedion.

Atodiad 2

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 467 | 444 | (23) | 0 | (23) | (22) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,864 | 2,090 | 226 | 0 | 226 | 195 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,264 | 2,324 | 60 | 0 | 60 | 72 |
| Maethu Drwy Asiant | 970 | 995 | 25 | 0 | 25 | 62 |
| Maethu Mewnol | 1,640 | 1,750 | 110 | 0 | 110 | 56 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,448 | 1,547 | 99 | 0 | 99 | 80 |
| | 6,322 | 6,616 | 294 | 0 | 294 | 270 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 1,037 | 853 | (184) | 0 | (184) | (194) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,444 | 1,410 | (34) | 0 | (34) | (54) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 235 | 210 | (25) | 0 | (25) | (24) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 107 | 62 | (45) | 0 | (45) | (51) |
| Gwasanaethau Eraill | 2,465 | 2,478 | 13 | 0 | 13 | 48 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,941** | **14,163** | **222** | **0** | **222** | **168** |

## Plant a Theuluoedd

**Gwasanaethau Gweithredol** - cynnydd o £31k yn y gorwariant a ragwelir ers yr hyn a adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter, gyda gorwariant o £226k bellach yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar staffio a chostau uwch pecynnau gofal cymhleth. Mae'r maes yma yn destun bid ar gyfer 2017/18.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - rhagwelir gorwariant o £294k ar wasanaethau lleoliadau, sydd £24k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 2, gyda'r gorwariant ar faethu mewnol wedi dwblu i £110k yn dilyn derbyn achosion newydd yn ystod y chwarter. Mae rhan o'r cynnydd yn cael ei wrthbwyso â gostyngiad o £37k yn y gorwariant a ragwelir ar faethu drwy asiant a £12k ar leoliadau all-sirol, gan mai dim ond un achos newydd a welwyd yn ystod y chwarter, ac felly modd lleihau y ddarpariaeth berthnasol. Y gorwariant yn parhau ar lwfansau, a thâl ar gadw maethu mewnol sef y 'Cynllun Aros Ymlaen' yn gorwario £59k. Mae'r gwaith yn parhau i gwrdd â'r targedau arbedion cysylltiedig.

**Gwasanaethau Ôl-16** - tanwariant o (£184k) yn cael ei ragweld yn dilyn lleihad yn y galw am gynlluniau cefnogol Ôl-16.

**Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar** - ffioedd incwm ychwanegol ond cynnydd mewn costau ers yr ail chwarter.

Disgwylir i'r Adran yn cymryd camau i geisio rheoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae gwerth £58k o gronfeydd wrth gefn gan yr Adran i gyfrannu tuag at leihau y gorwariant a adroddir. Bydd hyn yn cael ystyriaeth bellach wrth gau y cyfrifon, ar ôl sefydlu y sefyllfa derfynol.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 72,236 | 72,236 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,303 | 4,310 | 7 | 0 | 7 | 37 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 551 | 553 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Integreiddio | 135 | 135 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| All Sirol | 992 | 992 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arlwyaeth a Glanhau | 350 | 247 | (103) | 0 | (103) | (121) |
| Addysg Meithrin | 587 | 577 | (10) | 0 | (10) | (21) |
| Grant Grant Gwella Addysg | 529 | 529 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth | 1,680 | 1,658 | (22) | 0 | (22) | (30) |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1,928 | 2,114 | 186 | 0 | 186 | 185 |
| Cefnogaeth i Ysgolion Sydd yn Tanberfformio | | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Bellach | 23 | 9 | (14) | 0 | (14) | (12) |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | 277 | 277 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,726 | 1,726 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 3,740 | 3,736 | (4) | 0 | (4) | (25) |
| **Cyfanswm Addysg** | **89,057** | **89,099** | **42** | **0** | **42** | **13** |

## Addysg

Rhagwelir sefyllfa gorwariant o £42k gan yr Adran Addysg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef dirywiad o £29k o'r gorwariant o £13k a adroddwyd yn yr ail chwarter, gyda lefel y tanwariant gan nifer o wasanaethau wedi lleihau erbyn y trydydd chwarter, ac nid yw'n ddigonol erbyn hyn i wrthbwyso'r gorwariant. Y prif feysydd sydd yn cyfrannu at y sefyllfa'r Adran yw:

**Arlwyaeth a Glanhau -** yn ôl y rhagolygon diweddaraf, tanwariant o (£103k) yn debygol yn bennaf o ganlyniad i wireddu arbedion arlwyaeth ysgolion 2017/18 yn gynnar, ond cyfuniad o gostau uwch a lleihad mewn incwm net wedi arwain at ragolygon tanwariant is erbyn hyn.

**Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol -** dim newid ers y sefyllfa a adroddwyd yn yr ail chwarter, gydag amgylchiadau yn ymwneud â un ganolfan benodol yn gyfrifol am y gorwariant o £186k a ragwelir ar y pennawd yma.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| Adran Economi a Chymuned | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 903 | 903 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cefnogaeth Busnes | 173 | 180 | 7 | 0 | 7 | 19 |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 607 | 607 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Cymunedol | 556 | 562 | 6 | 0 | 6 | 0 |
| Sgiliau a Mentergarwch | 11 | 6 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Tîm Prosiectau Strategol | 845 | 890 | 45 | 0 | 45 | 46 |
| Strategaeth a Datblygu | 261 | 261 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Archifau | 411 | 401 | (10) | 0 | (10) | (9) |
| Amgueddfeydd | 158 | 153 | (5) | 0 | (5) | (5) |
| Orielau | 77 | 77 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Neuaddau | 278 | 281 | 3 | 0 | 3 | 11 |
| Celfyddydau | 272 | 269 | (3) | 0 | (3) | (3) |
| Parciau Gwledig | 115 | 89 | (26) | 0 | (26) | (16) |
| Morwrol | 167 | 242 | 75 | 0 | 75 | 108 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,326 | 1,228 | (98) | 0 | (98) | (98) |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach - Canolfannau Hamdden | 3,392 | 3,417 | 25 | 0 | 25 | 40 |
| Datblygu Chwaraeon | 270 | 268 | (2) | 0 | (2) | 0 |
| Llyfrgelloedd | 1,897 | 1,887 | (10) | 0 | (10) | (20) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **11,719** | **11,721** | **2** | **0** | **2** | **73** |

## Economi a Chymuned

Y sefyllfa ariannol wedi gwella £71k o'r £73k gorwariant a adroddwyd yn yr ail chwarter, yn dilyn ymgais gan nifer o wasanaethau ar draws yr Adran i leihau costau, a denu mwy o incwm. Y meysydd gyda'r amrywiant mwyaf yw:

**Morwrol** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bydd gorwariant net yn lleihau i £75k, o'r £108k a adroddwyd yn yr ail chwarter. Y gorwariant yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg incwm yn Hafan Pwllheli a'r harbyrau, yn dilyn lleihad yn y galw am angorfeydd. Mae'r sefyllfa wedi gwella ers yr ail chwarter gyda gostyngiad yn y diffyg incwm sydd yn cael ei ragweld. Bu i'r Adran hefyd ymgeisio i leihau y bwlch yn yr incwm drwy leihau costau yn y safleoedd. Cafwyd cais gan y Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr 2016, i’r Adran Economi a Chymuned baratoi adroddiad cynhwysfawr ar sefyllfa Hafan Pwllheli, mae'r gwaith yma ar y gweill.

**Gwasanaeth Ieuenctid** - y tuedd o danwariant o (£98k) a adroddwyd yn yr ail chwarter yn parhau gan y Gwasanaeth Ieuenctid, (£78k) ohono ar ddwy swydd wag swyddogion datblygu, a (£20k) ar glybiau ieuenctid, wrth i'r Adran adnabod arbedion ar gyfer 2017/18 ac ymlaen yn y meysydd yma.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 9,132 | 9,155 | 23 | 0 | 23 | 31 |
| Gwasanaethau Peirianneg | 460 | 493 | 33 | 0 | 33 | 19 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,280 | 2,155 | (125) | 0 | (125) | (165) |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 1,636 | 1,641 | 5 | 0 | 5 | 47 |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | 3,752 | 3,808 | 56 | 0 | 56 | 92 |
| Gwastraff Masnachol | (20) | 99 | 119 | 0 | 119 | 125 |
| Eraill Gwastraff | 1,719 | 1,738 | 19 | 0 | 19 | 37 |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 9,367 | 9,441 | 74 | 0 | 74 | 136 |
| Amlosgfa a Mynwentydd | 125 | 89 | (36) | 0 | (36) | (57) |
| Eraill Bwrdeistrefol | 3,953 | 3,985 | 32 | 0 | 32 | 7 |
| | 13,445 | 13,515 | 70 | 0 | 70 | 86 |
| Unedau Darparu Bwrdeistrefol | 39 | (29) | (68) | 0 | (68) | (18) |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **23,076** | **23,134** | **58** | **0** | **58** | **118** |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

Y Rhagolygon diweddaraf yn awgrymu lleihad sylweddol yn lefel y gorwariant i £58k, symudiad o £60k o'r £118k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, gyda sefyllfa ariannol yn gyffredinol fwy ffafriol ar draws yr holl Adran.

**Maes Gwastraff** - nifer o resymau am yr amrywiant gan y gwasanaethau o fewn y maes gwastraff gan gynnwys:

- ***Gwaredu Gwastraff*** - rhagwelir tanwariant o (£125k) o ganlyniad i lai o wastraff yn cael ei dirlenwi.

- ***Casglu Gwastraff ac Ailgylchu*** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu lleihad yn y gorwariant i £56k. Yn gyfuniad o wireddu arbedion gwastraff gwyrdd ymlaen llaw a chostau is yn dilyn newidiadau i drefniadau gweithredol. Ond, hyn yn cael ei wrthbwyso gyda llithriad yn yr arbedion banciau ailgylchu, £48k o leihad mewn grant, a phwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn cynnydd yn y nifer tai yn ystod y flwyddyn yn arwain at gostau gweithredol ac adnewyddu uwch.

- ***Gwastraff Masnachol*** - yn dilyn trefniadau newydd o resymoli biniau ysgolion, gwelwyd colled incwm o £119k. Ond yn gyfochrog â hyn, mae effaith y rhesymoli eisoes i'w weld gan fod gostyngiad yn y gwastraff sydd yn cael ei dirlenwi, ac felly tanwariant yn erbyn y gyllideb Gwaredu Gwastraff a adroddir arno uchod. Bydd prisiau 2017/18 yn cael eu haddasu i unioni y golled incwm.

**Unedau Darparu Bwrdeistrefol -** Rhagwelir y bydd tanwariant o (£68k) erbyn diwedd y flwyddyn o ganlyniad i gyfuniad o wireddu arbedion staffio ymlaen llaw a llai o gostau rhedeg.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| Adran Rheoleiddio | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 314 | 284 | (30) | 15 | (15) | 0 |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 294 | 289 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Eraill | (46) | (58) | (12) | 0 | (12) | 0 |
| | 248 | 231 | (17) | 0 | (17) | 0 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 2,482 | 2,482 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,136 | 1,136 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 271 | 262 | (9) | 0 | (9) | 0 |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 322 | 305 | (17) | 15 | (2) | 1 |
| Gwasanaethau Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,392) | (1,389) | 3 | 0 | 3 | 0 |
| Cludiant Integredig | 1,983 | 1,973 | (10) | 0 | (10) | 0 |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 503 | 418 | (85) | 85 | 0 | 0 |
| Eraill | 3 | 2 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| | 5,308 | 5,189 | (119) | 100 | (19) | 1 |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad | 1,184 | 1,183 | (1) | 0 | (1) | (4) |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 305 | 304 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | 1,670 | 1,647 | (23) | 0 | (23) | (4) |
| Gwasanaethau Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 6 | (10) | (16) | 0 | (16) | (4) |
| Gwasanaethau Eiddo | (81) | (89) | (8) | 0 | (8) | (12) |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **8,954** | **8,739** | **(215)** | **115** | **(100)** | **(23)** |

## Rheoleiddio

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£215k), sydd yn symudiad o (£192k) ers sefyllfa'r ail chwarter, ac sydd yn deillio o danwariant cyffredinol gan y mwyafrif o wasanaethau o fewn yr Adran, gyda nifer wedi cyflawni arbedion staffio 2017/18 ymlaen llaw, gan gynnwys yn Rheolaeth, Rheolaeth Datblygu, Diogelwch y Ffyrdd, Gorfodaeth a Thrafnidiaeth, a Gwarchod y Cyhoedd.

**Gorfodaeth a Thrafnidiaeth** - rhagwelir tanwariant un-tro o (£85k) ar wireddu arbedion ail-strwythuro'r uned, flwyddyn ymlaen llaw.

**Crynhoad ac Argymhelliad**
Gan fod lefel y tanwariant a ragwelir gan yr Adran uwchlaw (£100k), awgrymir y dylid cynhaeafu (£115k) o'r tanwariant i'w roi yn y balansau cyffredinol, er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.

**Argymhellir** trosglwyddo (£115k) o'r Adran Rheoleiddio i falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

| Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | 46 | 11 | (35) | 0 | (35) | 128 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 933 | 933 | 0 | 0 | 0 | (52) |
| Gwasanaethau Adeiladu | 184 | 172 | (12) | 0 | (12) | (6) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **1,163** | **1,116** | **(47)** | **0** | **(47)** | **70** |

## Ymgynghoriaeth

Symudiad ffafriol o (£117k) ers y gorwariant o £70k a adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter, gyda thanwariant o (£47k) bellach yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - rhagwelir bellach danwariant o (£35k), yn dilyn symudiad sylweddol yn y rhagolygon yn ystod y chwarter, hyn yn dilyn llwyddiant yr Adran i ddenu incwm ychwanegol drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol.

**Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd** - rhagwelir sefyllfa ariannol gytbwys bellach, yn dilyn defnyddio y tanwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter i gyllido cynlluniau yn y maes rheoli risg a llifogydd, ynghyd â gwariant ar waith angenrheidiol ar gerbyd.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 711 | 656 | (55) | 0 | (55) | (29) |
| Cyllid | 765 | 709 | (56) | 0 | (56) | (67) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 512 | 432 | (80) | 0 | (80) | (88) |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **1,988** | **1,797** | **(191)** | **0** | **(191)** | **(184)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - cynnydd o (£26k) yn y tanwariant a ragwelir ers sefyllfa yr ail chwarter, yn bennaf o ganlyniad i dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol ac incwm ychwanegol o Gyngor Dinbych i gyllideb Cyfarwyddwr Corfforaethol. Yn ychwanegol i hyn, arbediad 2017/18 a wireddwyd ymlaen llaw (£13k) yn y maes Cynllunio Argyfwng yn cyfrannu tuag at y sefyllfa ffafriol a ragwelir.

**Cyllid** - gostyngiad yn y tanwariant a ragwelir ers yr adolygiad blaenorol, ond y tuedd o ddenu incwm uwchlaw'r gyllideb gan gyrff allanol yn y maes Archwilio a Thechnoleg Gwybodaeth, ynghyd â thanwariant un-tro ar swyddi yn parhau gan yr Adran.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - rhagolygon o danwariant o (£80k) erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i arbedion staffio un-tro o ganlyniad i drosiant staff ar draws yr Adran, gyda nifer o arbedion 2017/18 eisioes wedi eu cyflawni ymlaen llaw. Yn gynwysedig o fewn y sefyllfa mae diffyg incwm o £18k gan yr Argraffdy, sydd yn unol â'r hyn a adroddwyd yn yr ail chwarter.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (250) | 250 | 0 | 0 |
| Budd-daliadau | * | * | (180) | 180 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 78 | 0 | 78 | 66 |
| Cyllideb wrth Gefn | * | * | (600) | 600 | 0 | 0 |
| Eraill | | | (333) | 250 | (83) | (256) |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(1,285)** | **1,280** | **(5)** | **(190)** |

## Corfforaethol

Rhagwelir sefyllfa ffafriol o gasgliad uwch o (£250k) ar Dreth y Cyngor, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o dai newydd yn ystod y flwyddyn a lleihad yn y nifer o eithriadau i ostwng y Treth y Cyngor taladwy. Tanwariant o (£180k) ar Fudd-daliadau, ond y rhagolygon llogau wedi gwaethygu yn ystod y chwarter o ganlyniad i sefyllfa bresennol y farchnad, ac felly fe ragwelir £78k o ostyngiad erbyn diwedd y flwyddyn mewn Derbyniad Llog Net.

Gan ein bod bellach yn y trydydd chwarter o'r flwyddyn ariannol ac felly darlun diwedd y flwyddyn yn gliriach, mae modd rhyddhau £600k o gyllideb wrth gefn ar gyfer 2016/17 gan nad yw'r galwadau cymaint â'r swm a neilltuwyd.

O fewn y pennawd 'Eraill' cynhwysir amrywiol arbedion un-tro corfforaethol eu natur gan gynnwys costau apeliadau trethi busnes a thanwariant un-tro ar gostau cyflogi cysylltiedig â bidiau.

**Argymhellir** cynaeafu (£250k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, (£180k) o danwariant Budd-daliadau, (£600k) cyllideb wrth gefn, ynghyd â (£250k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill' i falansau cyffredinol y Cyngor, gyda £1,055k (£756k 2017/18, a £299k 2018/19) ohono ar gyfer ymrwymiadau yn y maes Addysg sydd eisioes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet 13 Rhagfyr 2016.

---

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2016/17 –<br>ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ac ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (adolygiad trydydd chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 14 Chwefror ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i'w ystyried cyn i ni gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

**3.** Os bydd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio, yna cyflwynir rheiny "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 CHWEFROR 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2016)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd o £2.059m mewn benthyca arall
- lleihad o £1.871m mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- lleihad o £0.077m mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd o £0.470m mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd o £0.177m mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**1. Cyflwyniad**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2016/17. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £61.647m am y 3 blynedd 2016/17 – 2018/19.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net o oddeutu £0.698m ers yr adolygiad ail chwarter.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2016/17 i 2017/18
- Atodiad C: Gwariant 9 mis cyntaf 2016/17.

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £31.592m yn 2016/17, gyda £8.024m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £6.040m o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2016/17 i 2017/18, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2018/19

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 16,779 | 9,959 | 237 | 26,975 | 10 |
| Cyllid | 525 | 995 | 0 | 1,520 | 76 |
| Economi a Chymuned | 1,010 | 1,197 | 0 | 2,207 | (74) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Tai | 1,935 | 2,689 | 0 | 4,624 | 0 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 733 | 301 | 0 | 1,034 | 0 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 48 | 0 | 0 | 48 | 0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 2,747 | 5,296 | 3,650 | 11,693 | 182 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 114 | 527 | 0 | 641 | (40) |
| Rheoleiddio | 6,284 | 4,446 | 52 | 10,782 | 444 |
| Ymgynghoriaeth | 1,195 | 6 | 0 | 1,201 | 100 |
| Corfforaethol | 222 | 700 | 0 | 922 | 0 |
| **CYFANSWM** | **31,592** | **26,116** | **3,939** | **61,647** | **698** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £0.698m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad ail chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,652 | 6,352 | 321 | 13,325 | 0 |
| Benthyca Arall | 10,250 | 4,541 | 119 | 12,851 | 2,059 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 8,024 | 4,187 | 0 | 14,270 | (1,871) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 515 | 1,256 | 0 | 1,771 | (77) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,906 | 1,651 | 0 | 4,557 | 470 |
| Cronfa Cyfalaf | 168 | 2,419 | 0 | 2,587 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 3,077 | 5,710 | 3,499 | 12,286 | 117 |
| **CYFANSWM** | **31,592** | **26,116** | **3,939** | **61,647** | **698** |

## 5. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2016/17 i 2018/19 (rhan 3), a**
- **chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (rhan 4 uchod).**

## 6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2016/17 - 2018/19.

## 7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Nid oes gennyf lawer i'w ychwanegu i'r adroddiad. Nodaf bod y canran gwariant yn y rhaglen yn is eleni ond nad yw'r Aelod Cabinet yn gweld hynny'n achos i bryderu er, yn amlwg, mae'n fater y mae'n rhaid cadw llygad arno a hithau mor agos i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Atodiad A, B a C

---------------------------

**Prif Newidiadau Fesul Ffynhonnell Ariannu:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | **Cynnydd/(Lleihad) 2016/17 £'000** |
|---|---|
| **Benthyca Arall** | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – cynnydd mewn benthyca, addasiad technegol i'r ffynhonnell ariannu er mwyn gostwng y lefel o grant a chynyddu'r lefel benthyciad gyda chefnogaeth ar gais gan y Llywodraeth (gweler hefyd Grantiau a Chyfraniadau isod). Ni fydd y newid technegol yma mewn ariannu yn cael unrhyw effaith ar y cynlluniau, a bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ariannu 50% o'r gost. | 2,059 |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – gostyngiad grant, gweler Benthyca Arall am eglurhad uchod. | (2,059) |
| • Cynllun Amgueddfa Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) - defnydd uwch o'r grant loteri gwreiddiol yn dilyn ail broffilio'r rhaniad gwariant (ac felly'r ariannu) rhwng elfennau cyfalaf a refeniw o'r cynllun (gweler hefyd derbyniadau cyfalaf isod). | 95 |
| • Cynllun Adfer Llifogydd o'r A55 (Adran Ymgynghoriaeth) - grant ychwanegol gan y Llywodraeth i ddargyfeirio dŵr o'r A55 i'r Afon Ogwen er mwyn atal llifogydd yn Ardal Talybont. | 84 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | |
| • Cynllun Amgueddfa Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) – defnydd llai o dderbyniadau cyfalaf (gweler hefyd Grantiau uchod). | (108) |
| **Refeniw Adrannol** | |
| • Ail wynebu Meysydd Parcio (Adran Rheoleiddio) - cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio (cymeradwywyd £200,000 yn yr adroddiad Adolygiad Refeniw Ail Chwarter i'r Cabinet 22/11/16 gyda £100,000 pellach yn ystod y trydydd chwarter). | 300 |
| • Adnewyddu'r Cyfriflyfr (Adran Gyllid) – cynllun i uwchraddio'r system 'ledger'. | 75 |
| • Uwchraddio system gyfrifiadurol Eiddo (Adran Rheoleiddio) – ar gyfer prynu system newydd i reoli portffolio Eiddo. | 50 |
| • Uwchraddio system gyfrifiadurol Gwarchod y Cyhoedd (Adran Rheoleiddio) – ar gyfer datblygu hunanwasanaeth ac uchafu defnydd offer cyfrifiadurol o fewn y gwasanaeth. | 50 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Cartgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – gwariant uwch yn sgil y newid o finiau ailgylchu i'r math yma o gynhwysydd. | 130 |

---------------------------

**ATODIAD B**

## Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi ei hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| Adnewyddu Cerbydau'r Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | (2,384) | 2,384 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Rheoleiddio) | (1,350) | 1,350 |
| Cynlluniau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor (Adran Gyllid) | (427) | 427 |
| Cynlluniau Grantiau Tai (Adran Dai) | (366) | 366 |
| Cynlluniau Tai - Cynllun Tair Blynedd (Adran Dai) | (323) | 323 |
| Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Lles) | (301) | 301 |
| Cynllun EDRMS (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) | (264) | 264 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

---------------------------

**ATODIAD C**

## Gwariant Cyfalaf 9 Mis Cyntaf 2016/17

| ADRAN | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2016/17 £'000 | GWIR WARIANT 9 MIS HYD AT 31/12/2016 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 16,779 | 10,765 |
| Cyllid | 525 | 270 |
| Economi a Chymuned | 1,010 | 288 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Tai | 1,935 | 991 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 733 | 165 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 48 | 5 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 2,747 | 1,636 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 114 | 70 |
| Rheoleiddio | 6,284 | 3,364 |
| Ymgynghoriaeth | 1,195 | 1,009 |
| Corfforaethol | 222 | 0 |
| **CYFANSWM** | 31,592 | 18,563 |

**Noder:**
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (59%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (64%). Er hynny, nid yw'n achosi pryder, gan fod 2015/16 yn flwyddyn anarferol.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2017/18 A STRATEGAETH ARIANNOL 2017/18 – 2019/20** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor-canol, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2017/18 i'r Cyngor llawn** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2017/18.

**2.** Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd–destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglŷn â'r strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 2017/18 – 2019/20.

**3.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.

**4.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, wedyn cyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
**14 Chwefror 2017**

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Pwnc:** Cyllideb 2017/18 a Strategaeth Ariannol 2017/18 – 2019/20

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## Y Penderfyniad a geisir

**(a)** Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £231,299,720 ar gyfer 2017/18, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £168,963,540 a £62,336,180 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.8% (neu gyfuniad addasedig o ffigyrau ar ôl i'r Cabinet ystyried yr opsiynau).

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £12.015m yn 2017/18 a £6.410m yn 2018/19 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.3 o'r adroddiad.

**(b)** Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canol sy'n Atodiad 4, a mabwysiadu'r strategaeth sy'n rhan 15-17 o'r Cynllun.

---

## Crynodeb

1. Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18.

2. Yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir y gyllideb flynyddol (y prif adroddiad dilynol) o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig (Atodiad 4), gan sicrhau fod y gyllideb yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

3. Eleni, mae'r Cyngor yn elwa o'r cynllunio tymor canolig llynedd, gan ein bod yn medru mantoli'r gyllideb heb orfod cymryd unrhyw benderfyniadau newydd sy'n torri gwasanaethau i'r dinesydd.

4. Wedi ymgynghori mewn cyfres o weithdai yn Ionawr/Chwefror, a gyda'r Pwyllgor Archwilio (9 Chwefror), mater i'r Cabinet yw ystyried y strategaeth ariannol 2017/18 – 2019/20, gan argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2017/18.

5. Mae'r adroddiad dilynol yn manylu ar faterion i'w ystyried wrth sefydlu cyllideb 2017/18, ynghyd â'r strategaeth tymor-canol.

## A) CYLLIDEB 2017/18

6. Gellir crynhoi'r gyllideb a gynigir ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn –

| **Sefydlu Cyllideb 2017/18** | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2016/17 | 227,227,120 |
| Addasiad Defnydd Reserfau | 2,590,610 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 8,713,740 |
| Gofynion gwario 2017/18 cyn Arbedion | 238,531,470 |
| llai Incwm Grant | -168,963,540 |
| llai Treth Cyngor (codi 2.8%) | -62,336,180 |
| Bwlch Cyllido 2017/18 | 7,231,750 |

| **Dygymod gyda'r Bwlch yn 2017/18** | £ |
|---|---|
| Arbedion Effeithlonrwydd Cymeradwy | 3,290,460 |
| Arbedion Ysgolion | 990,000 |
| Toriadau Cymeradwy | 1,868,970 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Pellach | 1,082,320 |
| Cyfanswm yr Arbedion i Gau'r Bwlch | 7,231,750 |

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18** | £ |
|---|---|
| Gofynion gwario 2017/18 cyn Arbedion | 238,531,470 |
| Cyfanswm Arbedion 2017/18 | -7,231,750 |
| Cyllideb Net 2017/18 | 231,299,720 |

| **I'w ariannu drwy -** | |
|---|---|
| Incwm Grant | 168,963,540 |
| Treth Cyngor | 62,336,180 |
| Cyllideb Net 2017/18 | 231,299,720 |

7. Erbyn 2017/18, bydd angen cynyddu ein gwariant i £238.5m er mwyn "sefyll yn llonydd", gan gynnwys £2.6m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (manylion o'r 'bidiau' yn Atodiad 3). Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau datblygol ar wahân i hyn, drwy'r Cynllun Strategol. Cyflwynir yma'r ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

8. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd modd priodoli arbedion effeithlonrwydd roedd eisoes ar y gweill, ynghyd â £1.5m o arbedion ychwanegol ar gyfer 2017/18, a chynyddu'r Dreth Cyngor 2.8%.

9. Cyn cyflawni adolygiad mwy trylwyr o’r Strategaeth Asedau, rydym wedi sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2017/18, yn unol â’r hyn a nodir yn Atodiad 2, fydd yn golygu rhaglen o £12.015m yn 2017/18 a £6.410m yn 2018/19. Mae’r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na’r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

## B) STRATEGAETH TYMOR CANOLIG

10. Crynhoir y rhagolygon diwygiedig yn y tabl isod:

**Cynllun Tymor Canolig**

| MODELU'R SENARIO CANOLOG | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ychwanegu 'nôl defnydd un-tro o reserfau | 2,591 | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 8,714 | 7,400 | 8,000 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Grant Refeniw | -2,013 | 2,529 | 2,567 |
| Codi'r Dreth Cyngor | -2,060 | -2,302 | -2,387 |
| Bwlch cyn cynlluniau arbedion | 7,232 | 7,627 | 8,180 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Cyfredol | -3,291 | -944 | |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ysgolion | -990 | -263 | |
| Toriadau penderfynwyd eisoes | -1,869 | -368 | -65 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ychwanegol | -1,082 | -2,296 | -267 |
| Y balans o'r bwlch cyllido | 0 | 3,756 | 7,848 |

11. Argymhellir y dylid parhau i weithredu ar sail yr un amrediad o bosibiliadau a gytunwyd eisoes, sef:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor yn agos i gyfartaledd Cymru |
| Y Gyllideb Ysgolion | Parhau i weithredu’r targed £4.3m o’r gyllideb ysgolion (ond gohirio elfen 2017/18 i’r sector uwchradd) |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu’r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu (er mwyn osgoi toriadau yn 2018/19) |
| Toriadau | Gweithredu toriadau ddim ond fel bydd rhaid, er mwyn diwallu’r balans fydd ar ôl |

12. Mae'r strategaeth i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd eisoes ar droed, ac rwy'n argyhoeddedig gallwn ragori ar darged 2017/18 fel bydd swm mewn llaw erbyn 2018/19. Yn y cyfamser, diau y bydd aelodau am danlinellu'r neges i swyddogion uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gellid adnabod a gwireddu yn ystod 2017/18.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

13. Mae'r strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd a chadw'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i'r lleiafswm fyddai'n gyson gyda'r amcan hwnnw. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

**Ystyriaethau perthnasol**

14. Mae modd codi llai neu fwy o Dreth Cyngor, a mater i'r Cyngor yw ystyried y gyllideb i'w osod erbyn 2017/18 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol, ac ystyried a ydynt yn dymuno newid unrhyw elfen.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Prif Weithredwr:**
Mae'r ffaith bod yr Aelod Cabinet yn medru cyflwyno adroddiad fel yr un sydd gerbron yn tystio i'r cynllunio ariannol doeth y mae'r Cyngor wedi bod yn ei wneud ers peth amser bellach, y gwaith diflino i ddylanwadu ar y setliad ar sail tystiolaeth a ffocws pendant ar wireddu arbedion effeithlonrwydd. Mae angen parhau a'r ffocws hyn i'r dyfodol.

**Swyddog Monitro:**
Er mai mater i'r Cyngor Llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno. Mae'r strategaeth ariannol ar y llaw arall yn fater i'r Cabinet ei benderfynu ond wrth wneud hynny byddai'n ddymunol iddo fod yn gynhwysol ac ymgynghori gyda'r Cyngor. 'Rwyf yn cefnogi'r bwriad i wneud hynny.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**CYLLIDEB 2017/18 a**
**STRATEGAETH ARIANNOL 2017/18 – 2019/20**

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2017/18, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2016/17.

1.2 Hefyd, mae Atodiad 4 yn diweddaru'r strategaeth ariannol tymor canolig sefydlwyd y llynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 2019/20.

## 2 GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad i ariannu llywodraeth leol ar gyfer 2017/18, ond heb ddarparu unrhyw ffigyrau mynegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodir y manylion isod yn Nhabl 1.

Tabl 1
**Grant Cynnal Refeniw 2016/17 – 2017/18**

| | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £'000** | **Cyngor Gwynedd £'000** |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2016/17 (heb addasu) | | 4,101,550 | 167,078 |
| Grant y Llywodraeth 2016/17 (wedi addasu) | | 4,103,632 | 167,155 |
| Grant y Llywodraeth 2017/18 | | 4,113,620 | 168,964 |
| | Cynnydd £ | 12,070 | 1,809 |
| | Cynnydd % | 0.3% | 1.1% |

2.2 Fe welir o ffigyrau Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £1.9m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2016/17 i adlewyrchu'r trosglwyddiad i mewn i'r setliad) sy'n gynnydd o 1.1%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn 0.3%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla, megis y nifer disgyblion, nifer hawlwyr cymorth incwm, ayb, ac mae'r cynnydd uwch mewn grant i Wynedd ac awdurdodau gwledig eraill oherwydd fod y costau (cyfredol) uwch o redeg gwasanaethau cymdeithasol (gofal) mewn awdurdodau gwledig bellach wedi'i ymgorffori yn y fformiwla dyrannu addasedig, ac hefyd am bod amcangyfrifon poblogaeth wedi mynd o'n plaid ni eleni. Teg yw dweud fod swyddogion Gwynedd wedi bod yn flaenllaw yn darparu'r tystiolaeth i gyfiawnhau newid y fformiwla i adlewyrchu gwir gost gofal yng nghefn gwlad.

2.4 Roedd newid pellach cymharol fychan o £127,000 oherwydd addasiad sylfaen trethiannol gymharol.

## 3 GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2017/18

3.1 Nodir isod yn Nhabl 2 y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2017/18.

Tabl 2
**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2016/17 | | 227,227 |
| Chwyddiant Cyflogau (Staff) | 1,882 | |
| Incrementau net o Drosiant | 318 | |
| Ardoll Prentisiaeth | 540 | |
| Pensiynau (cofrestru'n awtomatig) | 342 | |
| Chwyddiant Arall (Cyflenwyr) | 1,876 | |
| Llog ar falansau | 186 | |
| Costau Benthyca | -318 | |
| Ardoll (Awdurdod Tân) | 262 | |
| Demograffi | 414 | |
| Addasiadau Incwm Gwasanaethau | 29 | |
| Amrywiol | 173 | |
| Trosglwyddiad i'r Setliad | 547 | |
| Pwysau ar Wasanaethau (bidiau) | 2,463 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiad | | 8,714 |
| Defnydd Reserfau yn 2016/17 | | 2,591 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2017/18 cyn arbedion | | 238,532 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2016/17** - Er mai £227m yw gwariant net 2016/17, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £379m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £89m ac yn codi bron i £63m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £1.88m** – Darperir ar gyfer cynnydd tâl 1% i staff y Cyngor, yn unol â chytundeb cenedlaethol, gyda % mwy i rai staff ar raddfeydd isaf gwerth £360k i gyfarch gofynion 'cyflog byw'.

3.4 **Incrementau net o Drosiant £318k** – Swm 'net' sy'n adlewyrchu lefel trosiant uwch na gwerth incrementau tâl ar gyfer holl staff y Cyngor, ond yn bennaf £201k staff ysgolion, a £108k staff Darparu Gofal.

3.5 **Ardoll Prentisiaeth £540k** – Cost ychwanegol newydd sy'n debyg i 'dreth' ar gyflogwyr mawr (0.5% o gyfanswm y bil cyflogi) yn dilyn deddfwriaeth berthnasol.

3.6 **Pensiynau – Cofrestru'n Awtomatig £342k** – Oherwydd perfformiad buddsoddi rhagorol Cronfa Bensiwn Gwynedd, llwyddwyd i beidio cynyddu cyfraddau cyfraniad pensiwn cyflogwr y Cyngor. Wedi'r prisiad teirblynyddol ar 31/03/2016, gwyddom fod cyfraniad pensiwn cyflogwyr mawr mewn rhai cronfeydd pensiwn eraill am godi 1% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Byddai 3% o gost cyflogi Gwynedd wedi bod gwerth tua 5m. Fodd bynnag, mae effaith deddfwriaeth cofrestru'n awtomatig yn golygu fod mwy o weithwyr yn ymuno â'r cynllun pensiwn, gyda cyfraniadau'r cyflogwr ar gyflogau'r rheiny yn gost ychwanegol.

3.7 **Chwyddiant arall £1.88m** – Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat.

3.8 **Llog ar Falansau £186k** – Rhagamcan o ostyngiad pellach mewn cyfraddau llog derbyniadwy yn 2017/18.

3.9 **Costau Benthyca (£318k)** – Bydd lleihad mewn cost benthyca, ar ddiwedd cyfnod rhai hen fenthyciadau. Ar hyn o bryd, ni fwriedir benthyca ychwanegol (gweler yr adroddiad Rheolaeth Trysorlys).

3.10 **Ardollau £262k** – Yn Rhagfyr 2016, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 4% ar yr awdurdodau cyfansoddol. Gydag addasiad poblogaeth, mae hynny'n golygu cynnydd o 4.53% i Cyngor Gwynedd.

3.11 **Demograffi £414k** – Swm 'net' sy'n adlewyrchu +£81k oherwydd cynnydd mewn nifer disgyblion yn yr Ysgolion, +£33k oherwydd cynnydd mewn nifer achosion yn y Gwasanaeth Plant, +£300k oherwydd cynnydd mewn pobl sy'n derbyn gofal gan yr Adran Oedolion. Mae'r ffigwr net +£81k ysgolion yn cuddiad sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd -£383k, cynradd +£314k, ac Arbennig +£150k. Rhoddir sylw penodol i sefyllfa'r ysgolion yn rhan 4 isod.

3.12 **Addasu Cyllidebau Incwm Gwasanaethau £29k –** Swm 'net' wedi addasu targed incwm gwasanaethau, yn cynnwys -£119k Economi (Hafan, Pwllheli yn bennaf), +£20k Priffyrdd (oherwydd cynnydd mewn niferoedd yn defnyddio'r Amlosgfa), +£10k Cefnogaeth Gorfforaethol (ffioedd Cofrestru), a +£60k Rheoleiddio i adlewyrchu cynnydd mewn incwm parcio, pridiannau tir, ayb.

3.13 **Amrywiol £173k –** Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o fân addasiadau mewn darpariaethau ar draws y Cyngor.

3.14 **Trosglwyddiad i'r setliad £547k** – Yn trosglwyddo i mewn i setliad y Cyngor ym maes Gofal, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, ac felly i'w adlewyrchu yng nghyllideb yr Adran Oedolion, mae £106k o'r cyn-Grant Cyflawni Trawsnewid (i helpu i roi deddf gofal cymdeithasol newydd Cymru ar waith), £199k i gyfarch cynyddu'r terfyn cyfalaf ar gyfer asesu ffioedd gofal preswyl, a £213k ar gyfer atal digartrefedd, ynghyd â manion eraill. Hefyd, bydd trosglwyddiad i mewn ar gyfer costau cyfalaf LGBI Addysg, tra hefyd bydd £49k yn trosglwyddo allan o gyllideb Addysg, ynghyd â'r cyfrifoldeb am dalu ffioedd cofrestru athrawon.

3.15 **Pwysau ar Wasanaethau £2,463k –** 'Bidiau' anorfod – gweler **Atodiad 1** am fanylion pob 'bid' unigol.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2,010k gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Hefyd, argymhellir cymeradwyo gwerth £453k o bidiau un-tro.

Cofier fod prif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn, drwy'r Cynllun Strategol. Beth gyflwynir drwy'r "bidiau" yma yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau yma wedi cael eu herio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet Adnoddau cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

3.16 **Defnydd Reserfau yn 2016/17** – Defnyddiwyd £2.6m o Reserfau i 'bontio' un-tro yn 2016/17 er mwyn adlewyrchu proffil yr arbedion y gellid ei gwireddu. Rhaid gwneud yn iawn am hynny rŵan drwy ei ychwanegu at fwlch 2017/18.

## 4 YSGOLION

4.1 Yng nghyswllt y Strategaeth Ariannol a'r targed arbedion ar gyfer ysgolion, ddaru'r Cabinet 07/10/2014 benderfynu:

> "Gosod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf, gan ofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith drwy gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targed hwnnw."

Mae'r Fforwm Cyllido Ysgolion, sy'n cynnwys penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion, wedi cyflawni'r gwaith hwnnw gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Aelod Cabinet Adnoddau.

4.2 Penderfynwyd eisoes i broffilio'r arbedion £4.3m i'w weithredu - £952k yn 2015/16, £2,095k yn 2016/17, **£990k yn 2017/18**, a £263k yn 2018/19. Felly, y bwriad oedd sicrhau £990,000 o arbedion o'r gyllideb ysgolion yn 2017/18.

4.3 Cofier bydd y gyllideb ysgolion yn wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa ac eraill yn colli, ynghyd â lleihad mewn grantiau a roddir yn uniongyrchol i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru.

4.4 Ymhellach, mewn cyfarfod o'r Fforwm Cyllido Ysgolion ar 29 Tachwedd 2016, nodwyd pryder fod demograffi Uwchradd yn gostwng gwerth £383k yn 2017/18, ond ei fod yn newid cyfeiriad y flwyddyn ganlynol. Er y bydd sefyllfaoedd ysgolion unigol yn amrywio, fe amlygwyd gan y Fforwm nad oedd yn gwneud synnwyr i leihau rhai cyllidebau ysgolion uwchradd eleni oherwydd demograffi, ac yna i'w hatgyfodi y flwyddyn ganlynol. Fe allasai hyn olygu costau diswyddo di angen (i'w ariannu yn ganolog gan y Cyngor).

4.5 Roedd Cabinet y Cyngor yn gweld synnwyr y ddadl, ond hefyd yn nodi fod y sector Uwchradd yn mynd yn fwy bregus, a bod angen darganfod ateb hir dymor cynaliadwy i'r sector. Er mwyn prynu amser i asesu'r broblem a sefydlu datrysiad hir-dymor i'r sector, penderfynodd y Cabinet 13 Rhagfyr 2016 y dylid cynnwys arian pontio yng nghyllideb 2017/18 i'r ysgolion uwchradd fyddai'n derbyn dyraniad is oherwydd lleihad mewn nifer disgyblion, a rhewi gweithredu trydydd rhan yr arbedion £4.3m yn y sector Uwchradd - sef £298,990 - am ddwy flynedd, ac i ariannu hyn o falansau'r Cyngor.

4.6 Nid dileu'r arbediad yw hyn – dim ond ei rewi am ddwy flynedd er mwyn prynu ychydig o amser i'r sector uwchradd ddod fyny gyda chynigion hir dymor ar gyfer ateb y problemau sydd yn amlwg yn eu hwynebu.

4.7 Bydd gohirio'r arbediad, ynghyd â'r gostyngiadau demograffi, yn wariant ychwanegol o £756,290 yng nghyllideb 2017/18, ond i'w ariannu un-tro o falansau'r Cyngor. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £5.5m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon (erbyn 31/03/2017), sy'n cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor. Yng nghyllideb 2016/17, argymhellais gadw isafswm o £4.4m o falansau cyffredinol. Nid yw'r penderfyniad yma yn peryglu'r lefel hynny, er wrth gwrs bydd llai o falansau ar ôl i'r Cyngor ystyried defnyddio i unrhyw bwrpas arall.

4.8 Yn gyffredinol, ni fyddwn yn cynllunio i gyllido gwariant rheolaidd parhaol allan o falansau'r Cyngor. Fodd bynnag, nid dyna'r bwriad yma. Bydd defnydd un-tro o gyfran o'r balansau, er mwyn pontio sefyllfa unigryw i'r sector uwchradd yn 2017/18, yn arfer dda er mwyn osgoi costau diswyddo diangen, gan roi cyfle i'r sector uwchradd gyrraedd cyflwr cynaliadwy yn y tymor canolig.

## 5 CRYNODEB O SEFYLLFA 2017/18

5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2017/18 yn £238.5m (cynnydd anorfod o 5%) a byddwn yn derbyn grant o £169m oddi wrth Lywodraeth Cymru (cynnydd o 1.1%). Golygai hynny fwlch ariannu cyn treth o £69.5m.

5.2 Ers ein rhagdybiaethau am 2017/18 yn Chwefror 2016, mae ein ffigyrau wedi'u haddasu am setliad mwy ffafriol na ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru (£3m), sydd wedi'i wrthbwyso i raddau gan ofynion gwario uwch, yn cynnwys demograffi a chwyddiant uwch ar rai cyflenwadau, datblygiadau anorfod ym maes gofal cymdeithasol, incrementau athrawon, a llog is. Roeddem wedi rhagweld costau ychwanegol eraill, megis yr ardoll prentisiaeth, y cyflog byw, y strategaeth wastraff, ayb, yn Chwefror 2016.

5.3 Heb unrhyw gynnydd yn y gyfradd Treth Cyngor, byddai'r cynnyrch treth am 2017/18 yn £60.6m. Gyda chynnydd 3.97% (y rhagdybiaeth flwyddyn yn ôl), byddai'r cynnyrch treth yn £63m, a byddem yn wynebu bwlch o £6.5m yn 2017/18. Gan fod y rhaglen arbedion yn debygol o ragori ar y bwlch hynny erbyn 2017/18, rhoddir ystyriaeth i gynnydd llai. Gyda chynnydd 2.8%, disgwylir i'r incwm o'r Dreth Cyngor fod yn £62.34m, a byddem yn wynebu bwlch o £7.2m yn 2017/18.

## 6 TRETH CYNGOR

6.1 Felly, mae penderfyniad allweddol i'w wneud yn sgil yr ystyriaethau uchod, sef sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor i'w argymell i'r Cyngor ar gyfer 2017/18. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

6.2 Yn y tybiaethau gwreiddiol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2016/17, penderfynwyd codi'r dreth 3.97%, er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau. Erbyn 2017/18, byddai cynnydd 3.97% arall (fel cynllunwyd flwyddyn yn ôl) yn cynhyrchu £63.06m o dreth (£2.77m o incwm ychwanegol) tuag at y bwlch.

6.3 Fodd bynnag, gan fod sawl mater wedi mynd o'n plaid eleni, gellid mantoli cyllideb 2017/18 gyda chynnydd is yn lefel y dreth. Felly, argymhellir codi'r dreth 2.8%, fydd yn cynhyrchu £62.34m o dreth (£2.05m o incwm ychwanegol) tuag at y bwlch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £33.80 i eiddo mewn Band D, neu 65c yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs, a disgwylir codiadau treth mwy nac arfer mewn rhai cymunedau erbyn 2017/18.

6.4 Mae dros 17% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 61% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £60,700. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £303,500 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £607,000.

6.5 Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2008/09:

| **Blwyddyn** | **Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm 2008-17** | **37.1%** | **33.2%** |
| 2016/17 | 4.0% | 3.7% |
| 2015/16 | 4.5% | 4.3% |
| 2014/15 | 3.9% | 4.2% |
| 2013/14 | 3.5% | 3.1% |
| 2012/13 | 3.5% | 1.9% |
| 2011/12 | 3.9% | 3.1% |
| 2010/11 | 3.9% | 3.7% |
| 2009/10 | 3.9% | 3.9% |
| 2008/09 | 3.8% | 3.7% |

Yn 2016/17 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,207, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,127.

6.6 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2017/18, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 3%. Wedi codi 0.3% yn uwch na chyfartaledd Cymru llynedd erbyn 2016/17, eleni erbyn 2017/18 mae cyfle i godi ychydig llai na'r cyfartaledd, a chadw at y polisi hir-dymor.

6.7 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, **fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth, argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 2.8%, fyddai'n gynnydd wythnosol o 65c, neu £33.80 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,240.96 am 2017/18.**

6.8 Mae'r Cyngor wedi penderfynu yn ei gyfarfod 8 Rhagfyr 2016 i godi "premiwm" o 50% ar eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi o Ebrill 2018 ymlaen, a defnyddio canran o'r arian i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yng nghymunedau'r sir. Gallai'r premiwm ar yr eiddo hyn ddenu incwm ychwanegol sylweddol i'r Cyngor erbyn 2018/19, ond nid yw'n ystyriaeth erbyn 2017/18.

## 7 DYGYMOD GYDA'R BWLCH YN 2017/18

7.1 Byddai cynyddu lefel Treth Cyngor 2.8% yn gadael bwlch o £7.2m ar ôl i'w ddarganfod yn 2017/18, a gellid darganfod hynny o arbedion.

7.2 Yn ei strategaeth tymor-canolig ym Mawrth 2016, mae'r Cyngor wedi llunio rhaglen o arbedion a thoriadau ystyrlon a synhwyrol i'w gweithredu dros y cyfnod 2016/17 – 2018/19. Ers hynny, fel adroddwyd i'r Cyngor llawn 8 Rhagfyr, bu cynnydd boddhaol gyda'r rhaglen cyflawni arbedion, sydd yn golygu bydd modd galw ar arbedion a thoriadau o £5.1m sydd eisoes ar y gweill erbyn 2017/18, ynghyd â'r arbediad £990k ysgolion, er mwyn cyfarch y bwlch ariannol.

7.3 Rhagwelir byddwn yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach yn 2017/18, ac rwy'n argyhoeddedig bydd gwerth yr arbedion pellach yma'n fwy na digonol er mwyn cau'r bwlch gweddilliol o tua £1.1m, gydag unrhyw or-gyflawni wedyn ar gael erbyn her mwy ansicr strategaeth ariannol 2018/19.

7.4 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cyfansymiau perthnasol wrth i'r Cyngor osod cyllideb a treth ar gyfer 2017/18.

## Sefydlu Cyllideb 2017/18

| | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2016/17 | 227,227,120 |
| Addasiad Defnydd Reserfau | 2,590,610 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 8,713,740 |
| Gofynion gwario 2017/18 cyn Arbedion | 238,531,470 |
| | |
| llai Incwm Grant | -168,963,540 |
| llai Treth Cyngor (codi 2.8%) | -62,336,180 |
| Bwlch Cyllido 2017/18 | 7,231,750 |

## Dygymod gyda'r Bwlch yn 2017/18

| | £ |
|---|---|
| Arbedion Effeithlonrwydd Cymeradwy | 3,290,460 |
| Arbedion Ysgolion | 990,000 |
| Toriadau Cymeradwy | 1,868,970 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Pellach | 1,082,320 |
| Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | 7,231,750 |

## Cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18

| | £ |
|---|---|
| Gofynion gwario 2017/18 cyn Arbedion | 238,531,470 |
| Cyfanswm Arbedion 2017/18 | -7,231,750 |
| Cyllideb Net 2017/18 | 231,299,720 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 168,963,540 |
| Treth Cyngor | 62,336,180 |
| Cyllideb Net 2017/18 | 231,299,720 |

## 8 BALANSAU

8.1 Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £5.5m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor.

8.2 'Rydym wedi nodi ar fwy nag un achlysur oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.

8.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, ac mae absenoldeb unrhyw ddatganiad gan Llywodraeth Cymru am y setliad grant ar gyfer llywodraeth leol i'r dyfodol yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol (gweler Atodiad 4 am Strategaeth Ariannol tymor canol).

8.4 Wedi ymrwymo £1.1m o'r balansau cyffredinol, er mwyn cael amser i ystyried a datrys y broblem ysgolion uwchradd mewn modd rhesymol, argymhellir peidio defnyddio mwy o'r balansau cyffredinol yn 2017/18.

8.5 Mae gennym nifer o reserfau penodol a sefydlwyd gan y Cyngor sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 7 Mehefin 2016 a'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Mehefin 2016, pryd cymeradwywyd trosglwyddo dros £2m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mehefin 2017, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.

8.6 Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (cyhoeddwyd 27 Ionawr 2014), mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

> "Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."

8.7 Rwy'n argyhoeddedig fod y defnydd un-tro o falansau i oresgyn anawsterau dros-dro yr ysgolion uwchradd yn 2017/18 yn ddefnydd priodol o falansau'r Cyngor yn yr amgylchiadau arbennig.

## 9 CYFALAF

9.1 Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

9.2 Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau yn cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau eisoes ar droed a bwriedir adrodd ar gynigion i gyfarfod Cabinet ym mis Mawrth 2017.

9.3 Fodd bynnag, cyn hynny, bu addasiadau a newidiadau yn y proffil arfaethedig ar gyfer cynlluniau unigol a gyflwynir yn Atodiad 2, a byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

Tabl 3
**Ariannu rhaglen gyfalaf 2017/18 – 2018/19**

| | 2017/18<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gofynion cyfalaf | 12,015 | 6,410 |
| I'w ariannu drwy: | | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 6,675 | 5,907 |
| Grant / benthyca tuag at ysgolion | 3,222 | 0 |
| Derbyniadau cyfalaf | 835 | 0 |
| Cyfraniad o refeniw | 399 | 0 |
| Benthyca darbodus | 884 | 503 |
| Cyfanswm ariannu: | 12,015 | 6,410 |

Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

9.4 Nodaf mai 2017/18 yw blwyddyn olaf y Strategaeth Asedau cyfredol a bydd y Cyngor newydd yn cael cyfle i lunio un newydd ar gyfer y 10 mlynedd i ddod. 2018/19 fydd blwyddyn gyntaf y strategaeth honno, ac felly (tra bod y strategaeth ariannol yn gosod rhaglen ar gyfer 2018/19 er mwyn cynorthwyo adrannau i gynllunio) mae'n bur debyg y bydd ychwanegiadau iddi y flwyddyn nesaf yn sgil llunio'r strategaeth newydd, ond ein bod yn gwarantu'r rhaglen a nodir yma fel isafswm.

## 10 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

10.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â chwyddiant, ayb, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion cytunwyd llynedd, a gosod targed ar gyfer rhai cynlluniau ychwanegol.

10.2 Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond bu asesiadau effaith priodol ynghylch y penderfyniadau ariannol ar arbedion a thoriadau penderfynwyd flwyddyn yn ôl.

10.3 Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Wrth asesu, roeddem wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

10.4 Wrth gynllunio ein cyllidebau, rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol, ac yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol. Casglwyd data a thystiolaeth eisoes ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr wybodaeth yma drwy ddadansoddi data newydd, monitro gwasanaethau ac ymgysylltu.

10.5 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Byddwn yn dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen i'r adran gynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Dyma fydd y drefn gyda'r arbedion effeithlonrwydd pellach erbyn 2017/18.

10.6 Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy'r penderfyniadau cyllidebol (gweler y gofynion gwario ychwanegol yn Rhan 3).

10.7 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 1 ac fe welir fod rhan sylweddol (£1.28m) o'r cyfanswm £2,462,960 yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

## 11 CASGLIADAU

11.1 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2017/18 ac yn cadarnhau dylid parhau gyda'r strategaeth ar gyfer dygymod a'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am y dair blynedd i ddod.

### CYLLIDEB 2017/18

11.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £238.53m, wedi ychwanegu £11.3m (sy'n cynnwys darparu £2.46m ar gyfer pwysau ar wasanaethau).

11.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £168.96m a gydag incwm Treth Cyngor wedi'i gynyddu 2.8% i £62.34m, bydd hyn yn gadael bwlch o £7.2m i'w ddarganfod yn 2017/18.

11.4 Bydd modd dygymod a'r bwlch yma drwy gyfuniad o gamau, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Anghenion Gwario 2017/18 | £238,531,470 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | £168,963,540 |
| Llai incwm Treth Cyngor | £62,336,180 |
| Arbedion fydd wedi'u cyflawni | £7,231,750 |

**11.5 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net, ar ôl defnydd balansau, o £231,299,720 (£238.53m llai arbedion o £7.23m). Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 3.**

**11.6 Argymhellir hefyd y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £12.015m ar gyfer 2017/18 ynghyd â £6.410m ar gyfer 2018/19.**

### STRATEGAETH TYMOR HIRACH

**11.7** O ran y sefyllfa dros y dair blynedd nesaf, argymhellir cynllunio i reoli'r bwlch ariannol drwy gadw'r holl opsiynau yn agored, a dylid parhau i anelu i ddarganfod mwyafrif y bwlch drwy uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gallwn eu gwireddu.

**ATODIAD 1**

## CRYNODEB BIDIAU 2017/18

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN ADDYSG** | | | | | | | |
| G.T. | ADD 1 | **Gofynion Un Tro Sefydlu Ysgol Bro Idris**<br>Cais i ariannu amser staff er mwyn paratoi polisiau a threfniadau cadarn ar gyfer yr ysgol newydd, ac felly sicrhau bydd yr ysgol yn gweithredu i'w photensial. | Cais Un Tro | 105,530 | 105,530 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| G.T. | ADD 2 | **Symud Tuag at Swyddfeydd Ardal Addysg**<br>Cais i ariannu sefydlu'r model swyddfeydd ardal addysg, er mwyn hyrwyddo'r model "Ysgol Gwynedd" ac felly gwella ansawdd addysg Gwynedd. | Cais Parhaol | 275,000 | 275,000 | | Cabinet wedi cymeradwyo gweithredu model Swyddfeydd Ardal Addysg, gan gymeradwyo cais am gostau blynyddol o £275,000 am hyd at dair blynedd. Disgwyliad i'r Adran canfod arbedion i ddisodli'r bid erbyn 2020. |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **275,000** | **275,000** | **-** | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | **105,530** | **105,530** | **-** | |
| **CYFANSWM ADRAN ADDYSG** | | | | **380,530** | **380,530** | **-** | |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN ECONOMI** | | | | | | | |
| M.R. | ECON 1 | **Menter Harlech and Ardudwy Leisure** Bid i ariannu cyfraniad Cyngor Gwynedd tuag at ffrwd incwm cyson sydd ei hangen er sicrhau fod y fenter yn hyfyw. Mae'r 6 cyngor cymuned am gynyddu eu praesept er mwyn cyfarch y £50,000 sydd ei hangen. | Cais Parhaol | 6,000 | 6,000 | | Cabinet wedi cymeradwyo cyllideb barhaol o £6,000 o 2017/18 ymlaen fel rhan o becyn ar y cyd gyda'r cynghorau cymuned lleol. |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **6,000** | **6,000** | **-** | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | | | | |
| **CYFANSWM ADRAN ECONOMI** | | | | **6,000** | **6,000** | **-** | |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | | |
| W.G.R. | OED 1 | **Colled Incwm yn sgil Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**<br>Cais er mwyn ymateb i'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sydd yn nodi bod rhaid codi tâl am yr 8 wythnos gyntaf o leoliad preswyl ysbaid/dros dro yn unol â'r rheolau codi tâl am wasanaethau dibreswyl. O dan y rheolau newydd ni ellir codi dim mwy na £60 yr wythnos, ac mewn rhai achosion ni ellir codi tâl o gwbl, sydd yn golygu colled incwm sylweddol. | Cais Parhaol | 135,000 | 135,000 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| W.G.R. | OED 2 | **Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £24,000 i £30,000**<br>Cais i ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru eu bod yn cynyddu'r trothwy cyfalaf a ddefnyddir i benderfynu os yw person yn hunan ariannu eu lleoliad preswyl/nyrsio o £24,000 i £30,000. | Cais Parhaol | 200,000 | 200,000 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn, ond rhoi mewn cyllideb wrth gefn (contingency) yn gorfforaethol, nes bydd ystyriaeth o'r swm pendant. |
| W.G.R. | OED 3 | **Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo**<br>Ariannu pecynnau gofal 6 unigolyn sydd yn trosglwyddo o'r Gwasanaeth Plant i'r Gwasanaeth Oedolion (Anabledd Dysgu). | Cais Parhaol | 243,720 | 243,720 | | Argymell ariannu cais yn llawn, gan neilltuo £30,000 mewn cyllideb wrth gefn yn gorfforaethol. |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | | |
| W.G.R. | OED 4 | **Cynnydd mewn Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio**<br>Cais er mwyn sicrhau bod methodoleg cyson rhwng cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer dyfarnu'r lefelau ffioedd y dylid eu talu i ddarparwyr gofal preswyl a nyrsio. | Cais Parhaol | 188,240 | 188,240 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn, ond rhoi mewn cyllideb wrth gefn yn gorfforaethol. |
| W.G.R | OED 5 | **Sefydlu Tim Diogelu a Sicrwydd Ansawdd**<br>Cais i ymateb i bryderon Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) am drefniadau diogelu oedolion bregus y Cyngor. Drwy sefydlu tîm i ymgymryd â'r dyletswyddau newydd lle nad oes capasiti digonol yn bodoli ar hyn o bryd. | Cais Parhaol | 225,095 | 130,000 | 95,095 | Argymell ariannu £130,000 o'r cais, sef ariannu 2 swydd DoLs ac 1 swydd ar gyfer y drefn "Uchafu Pryderon". Adran i flaenoriaethu eu hadnoddau cyfredol er mwyn cyfarch agweddau eraill. |
| | | Mae'r elfen un tro am gyfnod o ddwy flynedd yn sgil yr angen i ddelio gyda'r ôl-groniad gwaith DoLs, i ariannu dwy swydd gweithwyr cymdeithasol. | Cais Un Tro | 84,880 | 84,880 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | | |
| W.G.R | OED 6 | **Cyllideb Weithredol Achosion DoLs (Deprivation of Liberty)**<br>Cais yn sgil cynnydd yn y nifer unigolion sydd angen asesiad ynghyd â chymhlethdod yr asesiadau hynny. Yn ogystal disgwylir i achosion Anabledd Dysgu ddechrau mynd trwy’r broses (tua 150 achos) yn ystod 2016/17. | Cais Parhaol | 45,000 | 45,000 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| I.T. | OED 7 | **Rhentu Doeth Cymru**<br>Cais er mwyn ymateb i'r Deddf Tai (Cymru) 2014, sydd yn gosod rheidrwydd cyfreithiol newydd ar landlordiaid ac asiantau tai i gofrestru a thrwyddedu erbyn 23/11/2016. Bydd y ddyletswydd ychwanegol yn gyfrifoldeb ychwanegol i’r Uned Gorfodaeth Tai. | Cais Parhaol | 68,380 | | 68,380 | Argymell gwrthod y cais am 2017/18, gan ofyn i'r Adran flaenoriaethu o fewn adnoddau cyfredol y Gwasanaeth Tai. |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **1,105,435** | **941,960** | **163,475** | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | **84,880** | **84,880** | **-** | |
| **CYFANSWM ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | **1,190,315** | **1,026,840** | **163,475** | |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | | |
| M.R. | PLANT 1 | **Lleoliadau Plant Mewn Gofal**<br>Cais er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd yn y nifer o leoliadau newydd. | Cais Un Tro | 160,000 | 160,000 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| M.R. | PLANT 2 | **Adnoddau Tim Plant Gweithredol**<br>Cais i ariannu dau weithiwr cymdeithasol a gweinyddwyr er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau. | Cais Parhaol | 120,000 | 50,000 (Parhaol)<br>50,000 (Un Tro) | 20,000 | Argymell ariannu un o'r gweithwyr cymdeithasol o'r bid yn barhaol ac un gweithiwr cymdeithasol dros dro am 2 flynedd, gan ddisgwyl i'r Adran ymchwilio i opsiynau effeithlonrwydd o fewn 2 flynedd. |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **120,000** | **50,000** | **20,000** | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | **160,000** | **210,000** | **-** | |
| **CYFANSWM ADRAN PLANT** | | | | **280,000** | **260,000** | **20,000** | |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | | |
| J.W.J | PaB 1 | **Gwastraff**<br>Cais er mwyn ymdopi gyda chynnydd yng ngwariant yr Adran yn dilyn lleihad oddeutu 6.7% yn y Grant Amgylcheddol a Gwastraff, lleihad cyfaint costau tirlenwi a chostau gwaredu ynghyd â chynnydd mewn tunelloedd bwyd i GwyriAD a'r stoc tai.<br><br>Mae'r Grant wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, gydag un grant bellach ar gyfer ystod o wasanaethau. Pe bawn yn dileu'r cyfan o'r gwasanaethau eraill mae'r grant yn ariannu -<br>£101,500 Rheoli Adnoddau Naturiol (Llifogydd)<br>£56,750 - Ansawdd Amgylchedd Lleol (Trefi Taclus, Baw Cwn a.y.y.b)<br>yna £78,350 byddai balans gwastraff craidd ar ôl i'w ariannu gan y Cyngor. | Cais Parhaol | 657,320 | 657,320 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn, gan gynnwys yr elfen Strategaeth Wastraff sydd wed ei raglennu ymlaen llaw ac hefyd yr elfennau eraill ble mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau grant (megis llifogydd, trefi taclus, baw cwn a.y.y.b) |
| JWJ | PaB 2 | **Gwastraff**<br>Ariannu costau Gwaredu Gwastraff Gweddilliol, gan fod arian un tro Ffridd Rasus wedi dod i ben. | Cais Un Tro | 52,840 | 52,840 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **657,320** | **657,320** | **-** | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | **52,840** | **52,840** | **-** | |
| **CYFANSWM ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | **710,160** | **710,160** | **-** | |

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN CYLLID** | | | | | | | |
| P.J. | CYLL 1 | **Gweithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth**<br>Cais i ariannu dwy swydd Rheolwr Cyfrif er sicrhau gweithrediad y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth, sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet. | Cais Parhaol | 79,430 | 79,430 | | Ariannu'r cais yn llawn. |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **79,430** | **79,430** | **-** | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | | **-** | **-** | |
| **CYFANSWM ADRAN CYLLID** | | | | **79,430** | **79,430** | **-** | |
| **CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL** | | | | **2,243,185** | **2,009,710** | **183,475** | |
| **CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO** | | | | **403,250** | **453,250** | **-** | |
| **CYFANSWM BIDIAU** | | | | **2,646,435** | **2,462,960** | **183,475** | |

**BIDIAU CYFALAF 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau |
| **ADRAN ECONOMI** | | | | | | |
| I.T. | ECON 1 | **Ad-leoli Llyfrgell Cricieth**<br>Cais er mwyn ariannu'r newid darpariaeth llyfrgell yn nhref Cricieth, o fod yn lyfrgell a gynhelir gan yr awdurdod i fod yn lyfrgell gymunedol ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Oedolion a'r Cyngor Tref. | 26,720 | 26,720 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| M.W-D. | ECON 2 | **Pont Droed Aberdyfi**<br>Cais er mwyn ariannu gosod pont droed newydd yn Aberdyfi, gan fod y pont presennol wedi dod i ddiwedd ei oes. | 100,000 | | | Argymhellir fod angen ystyriaeth i opsiynau pellach, a gofynnir am gyflwyno adroddiadau pellach maes o law, cyn ymrwymo arian cyfalaf prin y Cyngor. |
| M.W-D. | ECON 3 | **Cronfa Datblygu Wirfoddol**<br>Arian tuag at gefnogi prosiectau cyfalaf gan fudiadau a mentrau cymdeithasol a gwirfoddol. Rheolir y gyllideb dan frand Cist Gwynedd.<br><br>Dros y 2 flynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cyfranu £212,000 tuag at 25 prosiect, gyda cyfanswm gwerth y prosiectau hynny yn £926,000. | 70,000 | 70,000 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. |
| **CYFANSWM ADRAN ECONOMI** | | | **196,720** | **96,720** | **-** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM BIDIAU CYFALAF** | **196,720** | **96,720** | **-** | |

**ATODIAD 2**

| RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2017/18 – 2018/19 | | |
|---|---|---|
| | **2017/18**<br>**£'000** | **2018/19**<br>**£'000** |
| Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ôl groniad ac osgoi ôl groniad pellach) | 2,553 | 2,477 |
| Gwaith Tan ac Asbestos | 300 | 308 |
| Trefniadaeth Ysgolion | 6,039 | 248 |
| Goleuadau Stryd | 50 | 50 |
| Ffensys diogelwch ar y ffyrdd | 134 | 134 |
| Ymdrin â dŵr ar y ffyrdd | 100 | 100 |
| Meysydd Chwarae | 35 | 35 |
| Adnewyddu Cerbydau | 0 | 93 |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 100 | 100 |
| Lonydd Glas | 20 | 20 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 436 | 275 |
| Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau | 155 | 0 |
| Grantiau Tai | 2,000 | 2,000 |
| I'w ddyrannu | 93 | 570 |
| **Cyfanswm** | **12,015** | **6,410** |

**ATODIAD 3**

## CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2017/18 FESUL GWASANAETH

| | Cyllideb Sylfaenol 2016/17 | Chwyddiant | Incrementau | Ardoll, Llog ar Falansau a Chostau Cyfalaf | Demograffi a Trosglwyddiad Setliad | Cyllidebau Incwm | Amrwyiol | Pwysau, Prentisiaeth a Phensiynau | Arbedion a Thoriadau | Cyllideb Sylfaenol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADRANNAU** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,052 | 18 | 3 | 0 | 0 | 0 | (50) | 0 | (21) | 2,002 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,973 | 69 | 3 | 0 | 0 | (10) | (30) | 0 | (408) | 7,597 |
| Cyllid | 6,144 | 67 | (9) | 0 | 0 | 0 | 32 | 79 | (263) | 6,050 |
| Cefnffyrdd | (87) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (87) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 20,559 | 210 | (12) | 0 | 0 | (20) | 78 | 726 | (1,866) | 19,675 |
| Rheoleiddio | 6,947 | 83 | 5 | 0 | 3 | (60) | 83 | (25) | (980) | 6,056 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 318 | 1 | (18) | 0 | 0 | 0 | (1) | 0 | (105) | 195 |
| Addysg Canolog | 13,289 | 83 | (30) | 0 | (1) | 0 | 27 | 247 | (415) | 13,200 |
| Cyllideb Ysgolion | 69,147 | 689 | 196 | 0 | 34 | 0 | (26) | 791 | (1,087) | 69,744 |
| Economi a Chymuned | 5,965 | 29 | 43 | 0 | 0 | 119 | (14) | 6 | (873) | 5,275 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 44,014 | 1,363 | 127 | 0 | 327 | 0 | (114) | 559 | (1,937) | 44,339 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 12,554 | 147 | 10 | 0 | 33 | 0 | 100 | 253 | (340) | 12,757 |
| **Cyfanswm Adrannau** | **188,875** | **2,759** | **318** | **0** | **396** | **29** | **85** | **2,636** | **(8,295)** | **186,803** |
| Materion Corfforaethol a Chyfalaf | 43,202 | 999 | 0 | 381 | 565 | 0 | 88 | 781 | 1,063 | 47,079 |
| **CYFANSWM =** | **232,077** | **3,758** | **318** | **381** | **961** | **29** | **173** | **3,417** | **(7,232)** | **233,882** |
| Llai Praesept Cynghorau Cymuned | (1,826) | | | | | | | | | (1,826) |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **230,251** | **3,758** | **318** | **381** | **961** | **29** | **173** | **3,417** | **(7,232)** | **232,056** |
| Ariannwyd Drwy: Balansau a Reserfau Penodol | (3,024) | 0 | 0 | (251) | 0 | 0 | 0 | (72) | 2,591 | (756) |
| **CYFANSWM NET =** | **227,227** | **3,758** | **318** | **130** | **961** | **29** | **173** | **3,345** | **(4,641)** | **231,300** |

## CYNLLUN TYMOR CANOLIG I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNOL 2017/18 - 2019/20

1. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod wedi medru mantoli cyllideb 2017/18 heb benderfynu ar unrhyw doriadau ychwanegol byddai'n cael ardrawiad ar bobl Gwynedd. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru gwneud hyn.

2. Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2017/18, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2017/18 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.

3. Y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2018/19 ymlaen. Gan fod y grant yn ariannu tua 74% o gyllideb net y Cyngor, yn amlwg mae'r ffigwr yma yn allweddol i'r tafluniadau. Gwyddom o ddatganiadau Canghellor Llywodraeth y DU a datganiadau a wnaed gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru, gallasai fod dyfodol heriol o flaen llywodraeth leol yng Nghymru.

4. Mae'r strategaeth ar gyfer y dair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig a darbodus o'r hyn allasai ein taro. Nodir yn y tablau canlynol ganlyniadau'r tafluniadau diweddaraf, gan nodi'r arbedion hynny sydd eisoes wedi cael eu cynllunio.

5. Roedd y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn Chwefror 2016 yn wynebu'r bwlch cyllidebol rhwng 2016/17 a 2017/18, tra mae'r adroddiad yma yn adolygu sail y rhagdybiaethau rheiny ac yn ceisio edrych heibio'r cyfnod hynny hyd at 2020.

6. Defnyddir yma, i bwrpas cynllunio, setliad grant 2017/18 ynghyd â chyllideb (yr amcangyfrifon diweddaraf o anghenion y Cyngor) am 2017/18, ynghyd ag amcangyfrif amlinellol am 2018/19 a 2019/20.

7. Yn wahanol i rai awdurdodau eraill, gan gymryd y byddwn yn gallu gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd ychwanegol, bydd gweithredu'r cynlluniau arbedion a thoriadau cytunedig (a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016) yn ddigonol er mwyn i Gyngor Gwynedd fantoli'r gyllideb heb doriadau ychwanegol erbyn 2017/18.

8. Yn y darlun canlynol, dangosir llithriad mewn amserlen cyflawni rhai arbedion o 2017/18 i 2018/19. Fydd hyn, wrth gwrs, yn ein helpu gyda chyllideb y flwyddyn nesaf, ac yn derbyn sylw mewn adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet perthnasol.

9. Gallwn weld fwy o eglurder am wariant Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2017, ond i bwrpas cynllunio, cadarnhaodd ddatganiad hydrefol 23/11/2016 rhai ffigyrau blaenorol am ariannu llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2018/19 a thu hwnt.

10. Trwy wneud rhagdybiaethau rhesymol am sefyllfa adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, effaith fformiwla Barnett, a dewisiadau Llywodraeth Cymru (faint o 'warchodaeth' a roddir i Iechyd a phrosiectau eraill), gellid modelu 3 achos yn darogan faint fydd o bosib yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol yng Nghymru.

**CYLLIDEB 2017/18 i 2019/20**

| MODELU'R SENARIO GWAETHAF | 2017/18<br>TC 2.8%<br>£'000 | 2018/19<br>TC 3.5%<br>£'000 | 2019/20<br>TC 3.5%<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl defnydd un-tro o reserfau | 2,591 | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 8,714 | 7,400 | 8,000 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Grant Refeniw Cyffredinol (+ addasiad) | -2,013 | 6,069 | 4,890 |
| Codi'r Dreth Cyngor | -2,060 | -2,302 | -2,387 |
| Bwlch cyn cynlluniau arbedion | 7,232 | 11,167 | 10,503 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Cyfredol | -3,291 | -944 | |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ysgolion | -990 | -263 | |
| Toriadau penderfynwyd cyflawni yn y flwyddyn benodol | -1,869 | -368 | -65 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ychwanegol 'ar trac' i'w cyflawni yn y flwyddyn | -1,082 | -2,296 | -267 |
| Y balans o'r bwlch cyllido | 0 | 7,296 | 10,171 |
| Bwlch y flwyddyn flaenorol | | | 7,296 |
| Bwlch 2 flynedd | | | 17,467 |

**CYLLIDEB 2017/18 i 2019/20**

| MODELU'R SENARIO GORAU | 2017/18<br>TC 2.8%<br>£'000 | 2018/19<br>TC 3.5%<br>£'000 | 2019/20<br>TC 3.5%<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl defnydd un-tro o reserfau | 2,591 | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 8,714 | 7,400 | 8,000 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Grant Refeniw Cyffredinol (+ addasiad) | -2,013 | 6 | -162 |
| Codi'r Dreth Cyngor | -2,060 | -2,302 | -2,387 |
| Bwlch cyn cynlluniau arbedion | 7,232 | 5,104 | 5,451 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Cyfredol | -3,291 | -944 | |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ysgolion | -990 | -263 | |
| Toriadau penderfynwyd cyflawni yn y flwyddyn benodol | -1,869 | -368 | -65 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ychwanegol 'ar trac' i'w cyflawni yn y flwyddyn | -1,082 | -2,296 | -267 |
| Y balans o'r bwlch cyllido | 0 | 1,233 | 5,119 |
| Bwlch y flwyddyn flaenorol | | | 1,233 |
| Bwlch 2 flynedd | | | 6,352 |

**CYLLIDEB 2017/18 i 2019/20**

| MODELU'R SENARIO CANOLOG | 2017/18<br>TC 2.8%<br>£'000 | 2018/19<br>TC 3.5%<br>£'000 | 2019/20<br>TC 3.5%<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl defnydd un-tro o reserfau | 2,591 | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 8,714 | 7,400 | 8,000 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Grant Refeniw Cyffredinol (+ addasiad) | -2,013 | 2,529 | 2,567 |
| Codi'r Dreth Cyngor | -2,060 | -2,302 | -2,387 |
| Bwlch cyn cynlluniau arbedion | 7,232 | 7,627 | 8,180 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Cyfredol | -3,291 | -944 | |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ysgolion | -990 | -263 | |
| Toriadau penderfynwyd cyflawni yn y flwyddyn benodol | -1,869 | -368 | -65 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ychwanegol 'ar trac' i'w cyflawni yn y flwyddyn | -1,082 | -2,296 | -267 |
| Y balans o'r bwlch cyllido | 0 | 3,756 | 7,848 |
| Bwlch y flwyddyn flaenorol | | | 3,756 |
| Bwlch 2 flynedd | | | 11,604 |

11. Mae’r senario ‘gorau’ ar y tudalennau blaenorol yn adlewyrchu sefyllfa pe bai Llywodraeth Cymru yn darparu chwyddiant i Iechyd a thrin popeth arall yn gyfartal. Mae’r achos ‘canolog’ yn ddiweddariad o’n tafluniadau blaenorol ni, tra mae’r ffigyrau ‘gwaethaf’ yn adlewyrchu rhagolygon mwy pesimistaidd a fu’n fwy cyffredin ar draws awdurdodau lleol eraill mewn blynyddoedd diweddar. Gallasai’r gwir setliadau fod tu allan i’r senarios amlinellir uchod, ond mae’n rhesymol i ragdybio bydd rhywle rhwng y senarios gorau a gwaethaf yn y 3 tabl.

12. Fel nodwyd yn yr adroddiad ar gyllideb 2017/18, bydd gweithredu’r cynlluniau sydd eisoes yn gytunedig yn ddigonol er mwyn i Gyngor Gwynedd fantoli’r gyllideb heb wneud unrhyw doriadau ychwanegol erbyn 2017/18. Fodd bynnag, mae amrediad dros £11m rhwng y sefyllfaoedd ‘gorau / gwaethaf’ rydym ni wedi dyfalu arnynt dros y ddwy flynedd ddilynol (2018/19 a 2019/20), ac mae'n bosib i'r canlyniad fod tu allan i'n ‘senarios gorau / gwaethaf’ ni hefyd. Os bydd y senario ‘canolog’ yn digwydd, byddai angen £3.8m o arbedion ychwanegol erbyn 2018/19 ac £7.8m pellach erbyn 2019/20 (cyfanswm o £11.6m).

13. Beth bynnag fydd ffigyrau grant y dyfodol, nid yw hynny am newid ein gallu i ddarganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd. Felly, dylid cadw at ein strategaeth bresennol sy’n cynnwys uchafu arbedion o’r fath, a dygymod gydag unrhyw fwlch ariannu ychwanegol (ddaw yn fwy amlwg yn ystod 2017/18) trwy weithredu toriadau erbyn 2018/19 a thu hwnt, pe bai wir angen gwneud ar yr adeg hynny.

**Cynllun Ariannol Tymor Canolog am 3 blynedd**

14. Yn ddelfrydol, byddai’r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 neu 5 mlynedd. Yn anffodus, mae hynny’n gwbl anymarferol, gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu setliad am un flwyddyn yn unig, heb unrhyw ffigyrau mynegol am flynyddoedd dilynol. Ymhellach, yn sgil y bleidlais ar aelodaeth Prydain yn Undeb Ewrop, mae cryn ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chyllideb Llywodraeth y DU (heb sôn am flaenoriaethau’r Cyngor ôl-etholiad).

15. Felly, mae’n synhwyrol i ddelio gyda chyllideb 2017/18 rŵan, a wedyn cyn llunio cynllun ymateb mwy manwl am y ddwy flynedd ddilynol (2018/19 a 2019/20) pryd byddwn wedi adnabod y bwlch perthnasol gyda mwy o sicrwydd (yn ystod 2017/18).

16. Yn y cyfamser, argymhellir y dylid parhau i weithredu ar sail yr un amrediad o bosibiliadau a gytunwyd eisoes, sef:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor yn agos i gyfartaledd Cymru |
| Y Gyllideb Ysgolion | Parhau i weithredu’r targed £4.3m o’r gyllideb ysgolion (ond gohirio elfen 2017/18 i’r sector uwchradd) |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu’r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu (er mwyn osgoi toriadau yn 2018/19) |
| Toriadau | Gweithredu toriadau ddim ond fel bydd rhaid, er mwyn diwallu’r balans fydd ar ôl o’r bwlch ariannu |

17. Mae’r strategaeth i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd eisoes ar droed, ac rwy’n argyhoeddedig gallwn ragori ar darged 2017/18 fel bydd swm mewn llaw erbyn 2018/19. Yn y cyfamser, diau y bydd aelodau am danlinellu’r neges i swyddogion uchafu’r arbedion effeithlonrwydd gellid adnabod a gwireddu yn ystod 2017/18.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **9 CHWEFROR 2017** |
| **TEITL** | **RHEOLAETH TRYSORLYS**<br><br>**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2017/18** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**<br>**CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**<u>Cyflwyniad a Chefndir</u>**

**1.** Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi bwriad y Cyngor wrth ymdrin â'i holl weithrediadau trysorlys. Prif ofyniad y Cod yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd y rhain gan y Cyngor (parthed 2016/17) yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016.

2. Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn gorfodi'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan gall awdurdodau gyfuno'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol mewn un adroddiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi'i chynnwys yn rhan 5 o **Atodiad A**.

3. Yn ôl y Cod a'r cyfarwyddyd, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2017/18 yn **Atodiad A**.

4. Fel Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd mae'r Cyngor yn darparu swyddogaethau rheolaeth trysorlys ar ei gyfer trwy uno arian dros ben y Cyngor ac arian dros ben y Gronfa Bensiwn at ddibenion buddsoddi dyddiol. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2017.

5. Yn ychwanegol, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith darbodus ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y "Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities" ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd penderfyniadau i wario cyfalaf. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn dilyn o'r adolygiad diweddaraf mae CIPFA wedi cyflwyno un dangosydd darbodus newydd, "Terfynau uchaf ar gyfran ddyled net i ddyled gros", er mwyn tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar gynigion ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf sydd mewn adroddiadau eraill ar y rhaglen, wedi'u cynnwys yma yn **Atodiad B.**

6. Yn weithredol o'r 31ain o Fawrth 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithredu'r gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) blynyddol.

7. Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae **Atodiad C** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2017/18.

8. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i gyfarfod briffio ar 25 Ionawr 2017 gydag Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd aelodau o God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys, ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys. Amlygodd yr ymgynghorwyr wahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys, a thrafodwyd mewn manylder risgiau credyd, risgiau gyda gwrthbartion, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Hefyd, trafodwyd portffolio dyled y Cyngor, y sefyllfa benthyca net, a'r dangosyddion darbodus.

**Argymhelliad**

**9. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2017/18 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad C) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

**ATODIAD A**

## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2017/18

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011 fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer Rhifyn 2011): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig a elwir y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* ym mis Ebrill 2010 sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risgiau'n llwyddiannus yn greiddiol i strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

1.5 Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir yr Awdurdod i gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn seiliedig i'r adroddiad hon yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, neu yn rhaglen cyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Y Cefndir Economaidd

Y prif ddylanwad allanol ar strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2017/18 fydd cynnydd wrth negodi ymadawiad esmwyth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae marchnadoedd Ariannol, yn dilyn canlyniad annisgwyl i'r refferendwm, wedi'u pwyso gan ansicrwydd os yw gadael yr Undeb yn golygu gadael y farchnad sengl hefyd. Disgwylir bydd y drafodaeth yn dechrau pan mae'r DU yn dechrau'r ymadawiad ffurfiol yn fuan yn 2017 ac yn parhau am o leiaf ddwy flynedd. Felly bydd yr ansicrwydd dros ragolygon economaidd y dyfodol yn parhau drwodd 2017/18.

Mae'r disgyniad a'r gwendid sterling parhaol a phris olew bron yn dyblu yn 2016 wedi cyfuno i yrru disgwyliadau chwyddiant yn uwch. Mae Banc Lloegr yn rhagweld bydd Chwyddiant Pris Prynwyr (CPI) yn bylchu ei darged 2% yn 2017, am y tro cyntaf ers yn hwyr yn 2013, ond disgwylir i'r Banc anwybyddu

chwyddiant dros y targed yn ystod 2017 wrth osod cyfraddau llog er mwyn osgoi cynhyrfu'r economi.

Dangosodd data economaidd cychwynnol yn dilyn y refferendwm nad oedd y cwymp a ofnwyd mewn busnes a hyder prynwyr wedi arwain at dwf GDP is. Fodd bynnag, mae'r rhagolwg o adael y farchnad sengl wedi taro hyder busnes gyda canlyniad o oedi mewn buddsoddiad busnes ac oni bai bydd gwariant cyhoeddus neu werthiannau adwerthol uwch, bydd yn gwanhau'r twf economaidd yn 2017/18.

Wrth edrych dramor, gydag economi'r UD a'i marchnad llafur yn dangos gwellhad cadarn, mae'r farchnad wedi prisio posibilrwydd uchel bydd y Federal Reserve yn codi cyfraddau llog yn Rhagfyr 2016. Mae rhanbarth yr Ewro yn parhau i frwydro yn erbyn chwyddiant isel a diffyg momentwm i dwf, ac mae Banc Canolog Ewrop yn dal i fedru defnyddio 'quantitative easing' pellach.

Bydd effaith risg gwleidyddol ar y marchnadoedd arian yn dal yn sylweddol dros y flwyddyn nesaf. Gyda'r heriau fel mewnfudiad, codiad o bleidiau poblyddwyr, yn erbyn y sefydliad a chyfraddau llog negyddol yn golygu nad yw cynilwyr yn cael eu talu ar gyfer eu hymdrechion neu hyd yn oed yn cael eu cosbi, mae gan canlyniadau refferendwm yr Eidal ar ei gyfansoddiad (Rhagfyr 2016), etholiadau'r llywydd a chyffredinol Ffrainc (Ebrill - Mehefin 2017) a'r etholiadau ffederal (Awst - Hydref 2017) y potensial i gynhyrfu'r dyfroedd.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Mae marchnadoedd wedi datgan pryder dros hyfywdra nifer o fanciau Ewropeaidd yn ddiweddar. Mae economïau diog a dirwyon parhaol am ymddygiad cyn yr argyfwng wedi cael effaith ar enillion banciau a bydd unrhyw arafu yn y dyfodol yn gwaethygu pryder.

Mae deddfwriaeth *"bail-in",* sydd yn sicrhau mai buddsoddwyr mawr gan gynnwys awdurdodau lleol fydd yn achub banciau sy'n methu yn y dyfodol, yn hytrach na threthdalwyr, wedi cael ei weithredu yn llawn yn yr Undeb Ewropeaidd, Swistir UDA tra bod Awstralia a Chanada yn mynd rhagddynt yn dda gyda'u cynlluniau eu hunain. Mae'r risg credyd sy'n gysylltiedig â gwneud adneuon banc heb eu gwarantu, felly, wedi cynyddu yn gymharol a'r risg o opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael i'r Awdurdod; tra bod yr enillion ar adneuon arian parod, fodd bynnag, yn parhau i fod yn isel iawn.

## 2.3 Rhagolygon Cyfraddau Llog

Mae Arlingclose ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, yn amcan y bydd yr achos canolig ar gyfer Cyfradd Banc y DU yn aros ar 0.25% yn ystod 2017/18. Er hynny, mae Banc Lloegr wedi amlygu na fydd lefelau chwyddiant uchel yn cael eu goddef dros gyfnodau parhaus. Fel canlyniad o'r farn hon a'r ragolwg chwyddiant cyfredol, mae disgyniadau pellach yn Gyfradd y Banc i'w weld llai tebyg. Mae cyfradd banc negyddol yn cael ei chanfod gan rai sydd

cyfrifol am  bolisi yn wrth gynhyrchiol, ond er bod y tebygolrwydd yn isel, nid yw hyn yn gallu cael ei wrthod yn y tymor canolig, yn enwedig os yw'r DU yn symud i ddirwasgiad fel canlyniad i bryderon yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae dychweliadau giltiau wedi codi'n gyflym, ond yn dal ar lefel isel. Achos canolog Arlingclose yw y bydd dychweliadau yn dirywio pan mae'r Llywodraeth yn sbarduno Erthygl 50. Mae'r sefyllfa economeg sylfaenol yn dal yn wan, ac mae'r ysgogiad 'quantative easing' (QE) a roddwyd gan y banciau canolog byd-eang ond wedi oedi canlyniad yng nghynnydd dyled y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Banc Lloegr wedi amddiffyn QE fel teclyn ariannol ac mae QE fel cefnogaeth i economi'r DU yn 2017/18 yn dal posibilrwydd, er mwyn cadw cyfraddau llog tymor hir yn isel.

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn ***Atodiad 1.***

2.5 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.25% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd.

## 3. Y Cyd-destun Lleol (Sefyllfa Benthyca net)

3.1 Roedd yr Awdurdod wedi benthyca £108.7m ac roedd ganddo werth £45.5m o fuddsoddiadau ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2016. Mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn ***Atodiad B***. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb Mantolen a'r Rhagolwg**

| | **31.3.16 Gwir £'000** | **31.3.17 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.18 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.19 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.20 Amcan-gyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca CFR** | **171,376** | **178,281** | **179,581** | **176,390** | **172,985** |
| Llai: Benthyca allanol * | (114,870) | (107,497) | (106,790) | (106,790) | (106,083) |
| **Benthyca mewnol** | **56,506** | **70,784** | **72,791** | **69,600** | **66,902** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (58,061) | (73,088) | (78,807) | (78,807) | (80,690) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (66,925) | (17,041) | (16,771) | (16.500) | (16,500) |
| **Buddsoddiadau** | **(68,480)** | **(19,345)** | **(22,787)** | **(25,707)** | **(30,288)** |

*yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt, heb gynnwys ail gyllido dewisol


3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

Mae Tabl 1 yn dangos nid oes angen i'r Cyngor benthyg yn ystod y tair blynedd nesaf.

3.3 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2017/18.

3.4 Er mwyn cynorthwyo gyda'i strategaeth rheoli trysorlys hirdymor, mae'r Awdurdod a'i ymgynghorwyr wedi creu meincnod rhwymedigaeth, sy'n rhagweld anghenion benthyca'r Awdurdod dros gyfnod o 50 mlynedd. Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 1 uchod, mae'r meincnod yn rhagdybio:

- gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fenthyciadau o £5m y flwyddyn
- lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar gyfnod oes ased o 25 mlynedd.
- cynnydd o 2.5% chwyddiant y flwyddyn ar incwm, gwariant a reserfau




Mae'r siart yn dangos bod benthyciadau yn llawer is na'r CFR a bod gan y Cyngor arian i fuddsoddi. Ar sail y tybiaethau y noder uchod hyn yw'r sefyllfa sydd yn debyg i barhau yn y tymor hir.

## 4. Y Strategaeth Fenthyca

4.1 Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn dal £109 miliwn o fenthyciadau, gostyngiad o £1 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen a welir yn nhabl 1 yn dangos nad oes angen i'r Awdurdod fenthyca arian yn 2017/18. Fodd bynnag, hwyrach y bydd yr Awdurdod angen benthyca i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw, cyn belled nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca, sef £190 miliwn.

### 4.2 Amcanion

Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd priodol o risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.

### 4.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i un ai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hynny, gall yr Awdurdod leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm rhagdybied o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg cyffredinol i'r trysorlys. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi ychydig. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2017/18 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn benthyca benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

### 4.4 Ffynonellau

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler paragraff 5.5 isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- Awdurdodau Lleol y DU

- Buddsoddwyr marchnad cyfalaf
- Cwmnïau i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau a ganlyn nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill.

- prydlesau gweithredu ac ariannu
- hurbryniant
- Menter Cyllid Preifat
- gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol mae'r Awdurdod wedi codi'r rhan fwyaf o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond mae'n bosib y bydd yn ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, gall fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

4.5 **Benthyciadau Tymor Byr a Chyfradd Newidiol**

Mae benthyciadau tymor byr a rhai â chyfradd llog amrywiol yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, a thrwy hynny'n destun i derfyn uchaf net cyfraddau llog amrywiol y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

4.6 **Aildrefnu Dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai banciau sy'n benthyg yn barod i drafod telerau adbrynu cynnar. Gall yr Awdurdod gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

## 5. Y Strategaeth Fuddsoddi

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Awdurdod wedi amrywio rhwng £38 a £87 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2017/18 yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2017.

5.2 **Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na flwyddyn, bydd yr Awdurdod yn anelu at gael dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir.

5.3 **Cyfraddau Llog Negyddol**

Pe bai'r DU yn mynd mewn i ddirwasgiad yn ystod 2017/18, mae siawns fechan y gall Banc Lloegr osod y Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sydd yn debyg yn cario drwodd i gyfraddau llog negyddol ar yr holl opsiynau buddsoddiadau tymor byr risg isel. Mae'r sefyllfa yma yn bodoli yn llawer o wledydd Ewrop yn barod. Os yw hyn yn digwydd, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm cytunwyd cytundebol a buddsoddwyd ar aeddfedrwydd, er gallai'r swm yma bod yn llai na fuddsoddwyd yn wreiddiol.

5.4 **Strategaeth**

O ystyried y cynnydd yn y risgiau a gostyngiad mewn enillion o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig, mae'r Awdurdod yn bwriadu arallgyfeirio i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu sy'n cynnig enillion uwch yn ystod 2017/18. Ar hyn o bryd mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan yr Awdurdod wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n parhau'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2015/16.

5.5 **Gwrthbartion cymeradwy**

Gall yr Awdurdod fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw fath o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo**

| Cyfradd Credyd | Banciau Ansicredig | Banciau â Sicrwydd | Llywodraeth | Corfforaethau | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth DU | d/b | d/b | £ diderfyn<br>50 mlynedd | d/b | d/b |
| AAA | 5%<br>5 mlynedd | 10%<br>20 mlynedd | 10%<br>50 mlynedd | 5%<br>20 mlynedd | 5%<br>20 mlynedd |
| AA+ | 5%<br>5 mlynedd | 10%<br>10 mlynedd | 10%<br>25 blynedd | 5%<br>10 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| AA | 5%<br>4 blynedd | 10%<br>5 mlynedd | 10%<br>15 blynedd | 5%<br>5 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| AA- | 5%<br>3 blynedd | 10%<br>4 blynedd | 10%<br>10 mlynedd | 5%<br>4 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| A+ | 5%<br>2 flynedd | 10%<br>3 blynedd | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>3 blynedd | 5%<br>5 blynedd |
| A | 5%<br>13 mis | 10%<br>2 flynedd | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>2 flynedd | 5%<br>5 blynedd |
| A- | 5%<br>6 mis | 10%<br>13 mis | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>13 mis | 5%<br>5 blynedd |
| BBB+ | 2.5%<br>100 diwrnod | 5%<br>6 mis | 2.5%<br>2 flynedd | 2.5%<br>6 mis | 2.5%<br>2 flynedd |
| BBB | 2.5%<br>Diwrnod nesaf yn unig | 5%<br>100 diwrnod | d/b | d/b | d/b |
| Dim | £1m<br>6 mis | d/b | 10%<br>25 blynedd | £50,000<br>5 mlynedd | 5%<br>5 mlynedd |
| Cronfeydd wedi eu cyfuno | 10% fesul gronfa | | | | |
| Benthyciadau i gwmnïau lleol* | | | £3m cyfanswm<br>10 mlynedd | | |

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau isod.

* Bydd rhoi'r benthyciadau hyn yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses y manylir arni ym mharagraff 5.9 isod. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

5.6 **Statws Credyd**

Gosodir cyfyngiadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon. Er hynny, nid yw penderfyniadau buddsoddiad yn unol ar sail cyfraddau credyd, ac mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

5.7 **Banciau Ansicredig**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiolwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Mae buddsoddiadau ansicredig gyda banciau â ganddynt statws BBB wedi'u cyfyngu i adneuon dros nos ym manc cyfrif cyfredol yr Awdurdod Barclays Bank plc.

5.8 **Banciau â Sicrwydd**

Bondiau gorchuddiedig, cytundebau adbrynu o chwith a threfniadau gyda sicrwydd cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai fethdaliad, er bod hynny'n annhebygol, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Os nad oes unrhyw statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, bydd statws credyd yn bodoli ar gyfer y sicrwydd cyfochrog sy'n sail i'r buddsoddiad. Defnyddir y statws uchaf o'r statws credyd sicrwydd cyfochrog a'r statws credyd gwrthbarti i benderfynu ar y cyfyngiadau o ran arian barod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

5.9 **Llywodraeth**

Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygu amlochrog. Ni fyddai'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'*, a bychan iawn yw'r risg o fethdal. Nid oes cyfyngiad ar faint y buddsoddiadau y gellir eu gwneud gyda Llywodraeth Ganolog y DU am hyd at 50 mlynedd.

5.10 **Corfforaethau**

Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'* ond maent yn agored i'r risg y gallai'r cwmni ddod yn fethdalwr. Dim ond fel rhan o bŵl amrywiol y gwneir benthyciadau i gwmnïau heb statws er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

5.11 **Darparwyr Cofrestredig**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig, a elwid gynt yn Gymdeithasau Tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Tai a Chymunedau ac fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

5.12 **Cronfeydd wedi'u cyfuno**

Cyfranddaliadau mewn dulliau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau o fuddsoddiadau a restrwyd uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Y fantais i'r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u gwasgaru'n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael drwy dalu ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian tymor byr sy'n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac anweddolrwydd isel neu dim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar

unwaith, tra bydd cronfeydd wedi’u cyfuno y mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau’r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

Mae cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo yn cynnig gwell enillion hirdymor, ond maent yn fwy anwadal yn y tymor byr. Mae’r rhain yn caniatáu i’r Awdurdod ehangu i ddosbarthiadau o asedau heblaw am arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a’u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, maent ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Awdurdod yn cael eu monitro’n gyson.

5.13 **Cronfa Benthyciadau Lleol**

Mae’r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae’r buddsoddiadau hyn wedi’u cynnwys yn y tabl o Fuddsoddiadau Penodedig uchod, a byddant am gyfnod uchafswm o 10 mlynedd. Mae cyfanswm gwerth y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o’r fath yn £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o’r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu gan ymgynghorwyr wedi’u penodi, a’r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

5.14 **Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn derbyn ac yn monitro’r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda’r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy’n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn “*rating watch negative*” neu “*credit watch negative*”) fel y gall ddisgyn islaw’r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda’r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy’n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

5.15 **Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Awdurdod yn deall bod graddau statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfenwid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian yr Awdurdod, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.16 **Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n ddyledus i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
  - Llywodraeth y DU,
  - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
  - gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd gyda chyfradd credyd A- neu uwch.

5.17 **Buddsoddiadau Amhenodedig**

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad tramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd cyfunedig | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na [A-] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau (heblaw cronfeydd cyfunedig) mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na [AA+] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £80m |

5.18 **Cyfyngiadau Buddsoddi**

Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac arian y Gronfa Bensiwn sydd ar gael i gyfarch colledion ar fuddsoddiadau yn £56 miliwn ar 31 Mawrth 2017. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 15% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn cael eu rhoi mewn perygl pe bai un buddsoddiad sengl yn diffygdalu, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthyg i unrhyw sefydliad unigol (ar wahân i Lywodraeth y DU) fydd £8 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol er dibenion cyfyngiadau. Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar fuddsoddiadau yng nghyfrifon enwebedig broceriaid, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel a ganlyn. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfunedig a banciau datblygu amlochrog yn cyfri yn erbyn cyfyngiad i unrhyw wlad tramor unigol, gan fod y risg wedi ei amryfalu dros nifer o wledydd.

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £8m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £8m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | £20m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £40m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £20m |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £8m |
| Benthyciadau i fusnesau bach | Cyfanswm o £8m |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £40m |

5.19 **Rheoli hylifedd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

## 6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 6.1 Diogelwch

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

### 6.2 Hylifedd

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| | **Target** |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

### 6.3 Risg Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rheini lle mae'r gyfradd llog yr un fath dros y flwyddyn ariannol gyfan. Mae offerynnau sy'n aeddfedu yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu categoreiddio fel rhai cyfradd gyfnewidiol.

6.4 **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | **Uchaf** | **Isaf** |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% |
| 50 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

6.5 **Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod**

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m | £10m | £10m |

## 7. Eitemau Eraill

7.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA neu Lywodraeth Cymru.

7.2 **Polisi ar Ddefnyddio Cytundebau Deilliadau**

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â'r risg cyffredinol i'r strategaeth rheolaeth trysorlys.

7.3 **Hyfforddiant Buddsoddi**

Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA a sefydliadau priodol eraill.

7.4 **Ymgynghorwyr Buddsoddi**

Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

7.5 **Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi**

O bryd i'w gilydd, hwyrach y bydd yr Awdurdod yn benthyca arian cyn i'r angen godi, pan ddisgwylir mai hyn fydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes caiff yr arian ei wario, mae'r Awdurdod yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthyciwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol yr Awdurdod o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £195 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes gofyn i'r Awdurdod gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

## 8. Goblygiadau Ariannol

Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2017/18 yw £0.17 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £69.1 miliwn ar gyfradd llog o 0.25%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2017/18 yw £6.0 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £106.6 miliwn ar gyfradd llog o 5.62%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

**9. Ystyried Opsiynau Eraill**

Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i'w fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet Adnoddau, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnod byrrach | Bydd incwm ar y llog yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnod hirach | Bydd incwm ar y llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llôg sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn fwy sicr |
| Benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau hirdymor sefydlog | Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae'r arbediad ar lôg y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir<br><br>Gallai'r premiymau uchel am ad-dalu'r ddyled fod yn uwch nag unrhyw arbedion | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad 1**

**Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Ionawr 2017**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Mae rhagolwg y tymor canolig yn cael ei dominyddu gan y negodiadau i adael yr UE. Bydd sefyllfa tymor hir economi’r DU yn ddibynnol gan mwyaf ar y cytundebau a gellir sicrhau gyda’r UE a gwledydd eraill. Mae buddugoliaeth Donald Trump yn etholiad cyffredinol y DUA a Brexit yn arwyddol o’r anfodlonrwydd poblogaidd gyda thueddiadau globaleiddio.
- Mae’r amgylchedd byd-eang hefyd yn llawn ansicrwydd, gydag effeithiau ar anweddolrwydd y farchnad ariannol a chyfraddau llog tymor hir.
- Mae’r marchnadoedd ariannol wedi prisio twf byd eang cryfach i mewn yn dilyn ysgogiad cyllidol byd-eang arwyddocaol ac ariannol; mae’r rhagolwg tymor byr ar gyfer yr economi byd-eang yn well na dechrau 2016. Mae ysgogiad ariannol yn y DUA hefyd yn bosibilrwydd yn dilyn buddugoliaeth Trump. Beth bynnag gellir codiad mewn amddiffyniad lleihau rhagolwg twf.
- Mae dangosyddion buddsoddi busnes wedi dangos sefyllfa fwy positif ar gyfer economi'r DU yn dilyn y refferendwm na ragwelwyd oherwydd gwariant cartref cryf. Fodd bynnag, bydd y codiad mewn chwyddiant CPI oherwydd arian tramor (1.6% bob blwyddyn/blwyddyn) yn parhau a thorri’r targed yn 2017.
- Dros y blynyddoedd i ddod bydd codiad chwyddiant yn lleihau twf gwariant cartref, tra bydd ansicrwydd economaidd a gwleidyddol lleihau bwriadau buddsoddi ac annog lefelau gweithgaredd.
- Beth bynnag bydd dibrisiant sterling yn cynorthwyo’r economi i gydbwyso oddi wrth wario. Mae’r cyfraniad negyddol arferol gan dwf masnach net i dwf GDP yn debyg i leihau, yn bennaf oherwydd lleihau'r galw domestig. Bydd cyfaint allforion codi ymylol.
- Oherwydd y pwysau ar wariant teuluoedd a buddsoddiadau busnes, mae twf chwyddiant yn annhebygol i ddechrau tynhau ariannol gan Fanc Lloegr, gyda gwneuthurwyr polisïau yn edrych trwy’r sbigynnau CPI oherwydd mewnforio at yr effeithion negyddol Brexit ar weithgareddau economaidd ac yn y pen draw chwyddiant.
- Beth bynnag mae gweneuthwyr polisïau Banc Lloegr wedi amlygu na chaniateir lefelau gormodol chwyddiant am gyfnodau hir, yn benodol os yw hyn yn bwydo drwodd i godiadau cyflogau. Oherwydd y farn hon a’r rhagolwg cyfredol chwyddiant, mae’n debyg byddai datod ariannol pellach yn llai tebygol.

**Rhagolygon:**

- Yn fyd-eang mae’r rhagolwg yn ansicr ac mae risgiau yn pwyso at i lawr. Mae’r rhagolwg domestig y DU yn ansicr, ond mae’n debyg bydd o’n wannach na ddisgwyliwyd yn y tymor byr.
- Y llwybr tebyg ar gyfer y Gyfradd Banc yn tueddi at i lawr. Achos canolig Arlingclose yw bydd y Gyfradd Banc yn aros at 0.25%, ond mae posibilrwydd o 25% bydd cwymp at agos i sero, gyda siawns isel iawn o leihad o dan sero.
- Mae dychweliadau giltiau wedi codi’n gyflym, ond yn dal ar lefelau isel. Achos canolig Arlingclose yw y bydd dychweliadau yn gostwng pan mae’r llywodraeth yn sbarduno Erthygl 50.

| | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Arlingclose Central Case | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** | **0.25** |
| Downside risk | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 3-month LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.05 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.15 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Arlingclose Central Case | **0.25** | **0.25** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** | **0.30** |
| Downside risk | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.30 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 1-yr LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.10 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| Arlingclose Central Case | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.60** | **0.70** | **0.85** | **0.90** | **0.90** | **0.90** | **0.95** |
| Downside risk | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 5-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| Arlingclose Central Case | **0.60** | **0.50** | **0.45** | **0.45** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.55** | **0.60** | **0.65** | **0.70** | **0.75** | **0.80** |
| Downside risk | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 10-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| Arlingclose Central Case | **1.10** | **1.05** | **0.95** | **0.95** | **0.95** | **0.95** | **0.95** | **1.00** | **1.05** | **1.10** | **1.15** | **1.20** | **1.25** |
| Downside risk | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 20-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| Arlingclose Central Case | **1.65** | **1.55** | **1.50** | **1.50** | **1.50** | **1.50** | **1.50** | **1.55** | **1.60** | **1.65** | **1.70** | **1.75** | **1.80** |
| Downside risk | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 50-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| Arlingclose Central Case | **1.55** | **1.45** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.45** | **1.50** | **1.55** | **1.60** | **1.65** | **1.70** |
| Downside risk | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |

## Dangosyddion Darbodus 2017/18

### 1. Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith glir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

### 2. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Awdurdod fel y cynlluniwyd fel hyn.

| **Gwariant Cyfalaf a Chyllido** | **2016/17 Diwygiedig £'000** | **2017/18 Amcangyfrif £'000** | **2018/19 Amcangyfrif £'000** | **2019/20 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **31,592** | **25,509** | **10,293** | **6,675** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 515 | 1,256 | 0 | 0 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 10,540 | 6,713 | 2,525 | 2,525 |
| Refeniw | 6,151 | 8,850 | 3,499 | 0 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,136 | 4,150 | 4,150 | 4,150 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 10,250 | 4,540 | 119 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **31,592** | **25,509** | **10,293** | **6,675** |

### 3. Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **31.03.17 Diwygiedig £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** | **31.03.20 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm CFR** | 178,281 | 179,581 | 176,390 | 172,985 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn gostwng o £5.296m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu llai na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

### 4. Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| **Dyled** | **31.03.17 Diwygiedig £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** | **31.03.20 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 107,497 | 106,790 | 106,790 | 106,083 |
| Lesoedd cyllid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau PFI | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | 107,497 | 106,790 | 106,790 | 106,083 |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

### 5. Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon yr Awdurdod o wariant cyfalaf, y gofyn cyllido cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau tymor hir eraill yn cynnwys lesoedd cyllid, Menter Gyllid Preifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyca ond sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod.

| **Ffin Weithredol** | **31.03.17 Diwygiedig £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** | **31.03.20 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 180,000 | 180,000 | 190,000 | 190,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **180,000** | **180,000** | **190,000** | **190,000** |

## 6. Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol

Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Y Terfyn Awdurdodedig** | **2016/17 Diwygiedig £'000** | **2017/18 Amcangyfrif £'000** | **2018/19 Amcangyfrif £'000** | **2019/2020 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 190,000 | 190,000 | 200,000 | 200,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **190,000** | **190,000** | **200,000** | **200,000** |

## 7. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **2016/17 Diwygiedig %** | **2017/18 Amcangyfrif %** | **2018/19 Amcangyfrif %** | **2019/20 Amcangyfrif %** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | **5.95** | **5.78** | **5.81** | **6.07** |

## 8. Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch â Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw'r rhaglen gyfalaf cymeradwy presennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf** | **2017/18 Amcangyfrif £** | **2018/19 Amcangyfrif £** | **2019/20 Amcangyfrif £** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol – cynnydd mewn Treth Gyngor band D blynyddol | **0** | **0** | **0** |

## 9. Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA

Fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011.

**ATODIAD C**

**Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw Blynyddol 2017/18**

Pan fo'r Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (Canllaw 11c) a gyhoeddwyd diwethaf yn 2010.

Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol bob blwyddyn, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

> Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff yr MRP ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008.
>
> Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff yr MRP ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff MRP ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff MRP ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
>
> Ar gyfer asedau a geir trwy lesoedd cyllid neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod yr MRP yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn y rhwymedigaeth ar y fantolen.
>
> Pan wneir benthyciadau i gyrff eraill ar gyfer eu gwariant cyfalaf, ni chodir MRP. Fodd bynnag, bydd y derbyniadau cyfalaf a grëir gan yr ad-daliadau blynyddol ar y benthyciadau hynny yn cael eu rhoi o'r neilltu i ad-dalu dyledion.
>
> Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2017/18 yn destun ffi MRP hyd nes 2018/19.

Yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2017, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i osod ar £5.47m.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **9 CHWEFROR, 2017** |
| **PWNC** | **ADOLYGIAD O'R DREFN CRAFFU** |
| **AWDUR(ON)** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Dirprwy Arweinydd) ac Arwel E Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol)** |
| **PWRPAS** | **Llunio argymhellion i'r Cyngor llawn, yn ei gyfarfod nesaf, ar fodel craffu newydd ar gyfer Mai, 2017** |

1. Yn dilyn beirniadaeth am drefniadau Craffu'r Cyngor gan yr Archwiliwr Dosbarth, penderfynodd y pwyllgor hwn, yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr, 2016, i gymeradwyo'r bwriad i sefydlu Is-grwp bychan o Aelodau Archwilio, Craffu a Cabinet a fyddai yn:-
   a) edrych ar lwyth gwaith y pwyllgorau ac ymchwilio i fodelau craffu eraill yn cynnwys trefniadau cefnogi
   b) cyfweld eraill am y modelau posib
   c) cyflwyno trefn syml o gofnodi faint o graffu ymlaen llaw (cyn gwneud penderfyniadau) sy'n digwydd

   Y bwriad oedd i'r is-grwp lunio argymhellion i'w hystyried cyn i'r Cyngor gychwyn ar ei dymor newydd ym Mai, 2017

2. Cyfarfu'r grwp ar sawl achlysur yn y flwyddyn diwethaf, bu'n ceisio dysgu o ymarfer da o gynghorau eraill, cyngor Swyddfa Archwilio Cymru ac yn trafod gyda chynghorau eraill yng Nghymru am eu trefniadau hwy.

3. Arweiniodd hynny at gynigion cychwynnol a fu'n destun trafod mewn dau weithdy ffurfiol ac mewn trafodaethau anffurfiol yn dilyn cyfarfodydd mwyaf diweddar y Fforymau Ardal. Yn y cyfarfodydd amrywiol hynny, ac yng ngwaith yr Is-grwp, cafwyd cyfle i drafod y cynigion posib gyda 40 o aelodau o'r 75 a gafodd eu gwahodd.

4. Arweiniodd hyn at lunio dau fodel tebygol y gallai'r Cyngor ei ystyried, sef Model A sydd yn addasiad o'r trefniadau presennol gyda thri pwyllgor craffu (Addysg ac Economi, Gofal a Cymunedau) a'r materion corfforaethol yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Model B, model sydd yn sefydlu un Prif Bwyllgor Craffu ond mwy o ymchwiliadau (hyd at 8 ohonynt ar unrhyw adeg o'I gymharu a thri o dan Model A).

5. Cafodd y ddau fodel eu trafod gan yr Is-grwp ond roedd y farn yn rhanedig. O ran yr aelodau o'r Is-grwp sydd wedi mynegi barn, mae'r Cynghorwyr Beth Lawton, John Pughe Roberts ac Angela Russell yn ffafrio Model A gan ei fod yn debycach i'r model presennol ac o'r farn y byddai symud i Fodel B yn symudiad rhy radical ond am bwysleisio y dylai rhaglenni'r pwyllgorau gael eu rheoli gan y Fforwm Craffu fyddai'n cyfarfod yn amlach, yn cynnwys cyfarfodydd ar y cyd a'r Cabinet. Mae'r Cynghorwyr Dyfrig Siencyn a John Wyn Williams o blaid Model B gan mai dyma'r model sydd yn gwneud y mwyaf i fynd i'r afael a'r gwendidau a gafodd eu nodi ar ddechrau'r adolygiad ac sydd yn cynnig y cyfle gorau bod craffu yn ychwanegu gwerth.

6. Dylai'r Pwyllgor Archwilio gofio, wrth bwyso a mesur hyn, mai'r amcan o roddwyd ar ddechrau'r gwaith oedd ymateb i adroddiad allanol a hunan-asesiad beirniadol am ein gwaith craffu a chyfarch pedwar gwendid sylfaenol yn nhrefniadau craffu'r Cyngor a gafodd eu hadnabod gan yr Is-grwp ei hun, ar ddechrau'r gwaith, sef:-

- Angen cryfhau'r cysylltiad â deialog rhwng Craffu a'r Cabinet gan wneud mwy o waith datblygu polisi ar y cyd (y Craffwyr â'r Cabinet)
- Angen eglurder ar pam bod angen craffu mater a sicrhau adnoddau a sgiliau addas i gyflawni'r gwaith
- Pwysau gwaith anghyson rhwng pwyllgorau a'r ffiniau gwaith yn rhy sanctaidd
- Arafwch cyflawni gwaith a rhwystredigaeth am amlder cyfarfodydd

DS Wrth ystyried y ddau fodel, mae'n bwysig pwyso a mesur eu manteision a'u hanfanteision yn erbyn y pedwar pwynt yma.

7. Pwynt pwysig i'w gofio, wrth gwrs, yw mai sut y gweithredir y modelau sydd yn allweddol. O gael y sgiliau a'r ymagwedd iawn ymysg y bobl sydd yn ei weithredu (yn aelodau a swyddogion), mae modd gwneud i ba fodel bynnag sydd gennym weithio'n well na'n trefniadau presennol. Fodd bynnag, mae pa fodel sydd yn ei le yn creu'r amgylchedd ar gyfer craffu ac yn gosod yr hinsawdd ar gyfer llwyddo neu fethu. Rhaid gofalu felly nad ydym, wrth fabwysiadu model, yn creu amgylchedd sydd yn gwneud craffu da ac effeithiol yn fwy anodd nag sydd yn rhaid iddo fod.

8. Yn y ddau atodiad sydd ynghlwm, mae disgrifiad llawnach o'r modelau, asesiad o'u manteision ac anfanteision a'u gallu i gyfarch y gwendidau a nodwyd yn 6 uchod.

9. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y gweithdai a gafwyd gyda'r aelodau, pa fodel bynnag fydd yn cael ei fabwysiadu, bydd rhai pethau y bydd yn rhaid eu newid prun bynnag a nodir rheini yn y pwyntiau isod. Mae'r Is-grwp felly yn argymell cyfres o awgrymiadau isod y dylid eu gweithredu, pa fodel bynnag a fydd yn cael ei ddewis:-

9.1 Cryfhau'r deialog rhwng y Cabinet â gweddill y Cyngor a gwella trefniadau trafod a briffio – Mae trefniadau ffurfiol y ddau fodel ar gyfer hyn yn wahanol. Fodd bynnag, **<u>awgrym (a)</u> yw ein bod yn sefydlu trefn o sesiynau trafod rheolaidd.** Un posibilrwydd, yn amodol ar ofynion y rhaglen o bynciau sydd angen sylw, fyddai pennu dyddiadau yn y calendr i gynnal sesiwn trafod i holl aelodau'r Cyngor ar bynciau unigol. Gall hynny olygu gweithdai, fel a gynhaliwyd adeg Her Gwynedd, neu sesiwn drafod llai ffurfiol. Byddai'r rhaglen o bynciau yn cael ei bennu wedi edrych ar y materion tymor hwy y byddai'n fuddiol cael trafodaeth ehangach yn eu cylch. Bwriedir hefyd ceisio ffilmio'r sesiynau hynny fel bod aelodau sydd yn methu â bod yn bresennol yn medru cael blas o'r hyn a drafodir. Posibilrwydd arall fyddai datblygu ymhellach ar y trefniadau ardal yr ydym wedi bod yn eu gweithredu ers oddeutu dwy neu dair blynedd a defnyddio'r cerbydau hynny i gyflawni'r gwaith briffio a thrafod.

9.2 Mwy o waith datblygu polisi ar y cyd (craffu ymlaen-llaw) - Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r rhaglenni craffu wedi bod yn cynnwys mwy o graffu ymlaen llaw a datblygu polisi ar y cyd. Mae'r ddau fodel yn cynnig dulliau gwahanol ar gyfer gwneud hynny. Pa fodel bynnag fydd yn cael ei ddewis, **awgrym (b) yw bod y rhaglen waith am y flwyddyn yn cynnwys cyfran uwch eto o faterion sydd yn cael eu craffu ymlaen llaw** gyda'r materion hynny yn cael eu hadnabod a'u cofnodi fel materion craffu ymlaen llaw. Awgrymir hefyd yn **<u>awgrym (c)</u> yw y dylid cael trefn lle mae Aelodau Cabinet yn gwahodd aelodau craffu atynt i wneud gwaith penodol ar ddatblygu polisiau** mewn

meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. **<u>Awgrym (ch)</u> yw mai'r prif fodd o wneud hyn fydd bod y Tim Arweinyddiaeth yn edrych yn rheolaidd gyda'r craffwyr ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor** a materion datblygu polisi ac achosion o bryder am berfformiad neu ddarparu gwasanaeth er mwyn adnabod pynciau sydd angen sylw yn ddigon pell ymlaen llaw, allai arwain at sesiwn briffio / trafod, eitem ar raglen pwyllgor craffu neu ymchwiliad.

9.3 Mwy o eglurder ar pam bod angen craffu a deialog am y rhaglenni gwaith – Cafwyd beirniadaeth am y rhaglen waith craffu a'r sail ar gyfer cynnwys rhai eitemau ac mae'r ddau fodel yn cynnig ffurfiau gwahanol ar gael deialog gyda'r Cabinet am y rhaglen waith. Fodd bynnag, beth bynnag a ddaw o ran hynny, **<u>awgrym (d)</u> yw bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gyfiawnhau pam bod mater yn cael ei graffu** gan wneud hynny trwy ganolbwyntio ar beth y mae Craffu yn ceisio ei wella gyda hynny'n cael ei nodi cyn dechrau ar unrhyw waith neu herio. Gall hwn fod yn anodd weithiau gan nad yw bob amser yn amlwg ar y cychwyn os yw mater yn teilyngu cael ei graffu neu beidio. **<u>Awgrym (dd)</u> felly yw cyflwyno syniad newydd o drefn "Gwyntyllu"** sef bod unrhyw fater newydd, lle y mae aelod wedi ceisio cael y maen i'r wal gyda'r adran eisoes, sydd yn cael ei godi yn mynd trwy'r drefn. Diben y drefn hynny, a fyddai'n cael ei logio, fyddai ffurfioli trafod gydag Aelodau Cabinet ac adrannau i weld a oes tystiolaeth bod mater yn teilyngu craffu ffurfiol, naill ai mewn Pwyllgor neu ymchwiliad. Byddai hynny'n golygu bod eitemau yn y drefn "Gwyntyllu" nes y mae modd gweld a ydynt yn briodol i'w craffu.

9.4 Gwell gafael ar graffu perfformiad – Mae'n ymddangos bod y peilot o aelodau craffu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad yr Aelodau Cabinet wedi bod yn llwyddiannus gyda'r aelodau o'r ddwy ochr yn gweld budd a'r penaethiaid hefyd yn ei weld fel gwelliant ar drefniadau blaenorol. **<u>Awgrym (e)</u> felly yw bod y peilot craffu perfformiad yn dod yn rhan o drefniadau rheolaidd y Cyngor** ond gyda'r mân newidiadau a ganlyn. Yn gyntaf, dylai'r un aelodau craffu fynychu pob cyfarfod adrannol am tua blwyddyn neu ddwy er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o faes gyda'r aelodaeth hynny yn newid wedyn er mwyn ymestyn hynny i fwy o aelodau dros amser. Yn ail, bydd angen rhoi arweiniad cliriach ar rolau yr aelodau craffu yn y cyfarfodydd a disgwyliad clir ar yr aelodau hynny i adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau.

9.5 Gweithio'n well gyda diddordebau aelodau – Mae'n amlwg bod aelodau yn gweithio'n well mewn meysydd lle y mae ganddynt ddiddordeb a / neu sgiliau arbennig. Gwaetha'r modd, mae'r drefn cydbwysedd gwleidyddol yn cyfyngu rhyw gymaint ar allu'r Cyngor i osod aelodau ar bwyllgorau yn ôl eu diddordebau a'u sgiliau. Beth bynnag yw'r model a ddewisir, **<u>awgrym (f)</u> yw bod y Cyngor yn canfod yn fuan beth yw meysydd diddordeb a sgiliau aelodau unigol**. Bydd hyn yn medru rhoi gwybodaeth i grwpiau gwleidyddol ynglyn â pha aelodau fyddai'n addas i'w henwebu i bwyllgorau unigol o dan Model A. Yn Model B, byddai modd defnyddio'r wybodaeth i fedru gosod aelodau ar ymchwiliadau a gweithgorau craffu yn llwyr yn ôl eu diddordebau a'u sgiliau, heb ddibynnu ar drefniadau cydbwysedd gwleidyddol.


10. Gwahoddir y Pwyllgor i:-

a) **Ystyried a oes un model yn rhagori dros y llall o ran ei allu i wella craffu gan wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.**

**b) Argymell <u>awgrymiadau (a) i (f)</u> ym mharagraffau 9.1 i 9.5 uchod, pa fodel ffurfiol bynnag a ddewisir.**

**c) Gofyn i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol ddrafftio'r newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ar gyfer gweithredu'r drefn a argymehellir a'u argymell i'r Cyngor llawn.**

**MODEL A – MODEL TRI PHWYLLGOR CRAFFU**




| **CORFF / CYFARFOD** | **DISGRIFIAD** |
|---|---|
| **Pwyllgorau Craffu** | Tri Phwyllgor Craffu o 18 aelod ar gyfer y meysydd llafur Gofal, Addysg a Chymunedau yn cyfarfod 5 gwaith y flwyddyn. Noder, o dan y model hwn, byddai'r Pwyllgor Archwilio yn mynd yn gyfrifol am graffu materion corfforaethol yn ogystal â materion llywodraethu presennol. Nodir y meysydd llafur isod<br><br>**Y Gwaith**<br>Bydd 3 pwyllgor yn:-<br>a) Rheoli eu rhaglenni gwaith eu hunain trwy bennu rhaglen waith flynyddol mewn gweithdai a hwnnw wedyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn mewn cyfarfodydd paratoi. Y 3 pwyllgor yn ymgymryd ag un ymchwiliad craffu yr un ar unrhyw adeg<br>b) Sicrhau craffu agored cyhoeddus ar bopeth o fewn eu rhaglenni gwaith a chynnal ymchwiliadau mwy dwys yn ystod y flwyddyn ar faterion sydd angen sylw manylach (gyda'r nifer yn ddibynnol ar gyflymder yr ymchwiladau).<br><br>**Y Trefniadau**<br>a) Tri phwyllgor o 18 aelod wedi eu dewis ar sail cydbwysedd gwleidyddol.<br>b) Deialog gyda'r Cabinet yn digwydd drwy'r Fforwm Craffu wrth lunio rhaglenni gwaith blynyddol y pwyllgorau ac i gytuno ar feysydd lle y gallai ymchwiliadau ychwanegu gwerth. Byddai hyn yn digwydd trwy dau gyfarfod bob blwyddyn ond byddai hefyd trafodaeth anffurfiol ar y materion sy'n rhan o'r drefn "Gwyntyllu" newydd (gweler 9.3 uchod)<br>c) Trefn cyfarfodydd paratoi yn parhau i sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ac i baratoi ar gyfer y craffu cyhoeddus sy'n digwydd yn y pwyllgorau eu hunain, yn cynnwys adroddiadau o'r drefn craffu monitro perfformiad |

| Ymchwiliadau Craffu | **Y Gwaith**<br>Hyd at dri Ymchwiliad Craffu ar waith ar unrhyw adeg yn ymchwilio i feysydd sydd wedi eu hadnabod gan y pwyllgorau craffu unigol, yn faterion datblygu polisi, yn codi o'r Gofrestr Risg neu achosion o bryder am berfformiad neu ddarparu gwasanaeth<br><br>**Y Trefniadau**<br>a) Pob ymchwiliad yn cael ei arwain gan aelod o'r Pwyllgor Craffu perthnasol a swyddog sy'n annibynnol o'r gwasanaeth yn gweithredu fel rheolwr prosiect ar yr ymchwiliad<br>b) Gyda hyd at dri ymchwiliad yn digwydd ar unwaith, bydd modd i hyd at 18 / 20 aelod sydd ddim ar y Cabinet fod yn rhan o un ymchwiliad craffu ar unrhyw adeg. Bydd yr Aelodau hyn yn dod o blith aelodau'r pwyllgor perthnasol a fydd, gobeithio, wedi eu gosod gan y grwpiau gwleidyddol ar bwyllgorau sy'n gyson â'u diddordebau<br>c) Gellir adnabod cyfarwyddwr i fentora a chynghori ar bob ymchwiliad – Byddai'r rôl mentora hynny yn golygu cynghori ar y brîff, gweithredu fel "sounding board" yn ôl yr angen yn ystod yr Ymchwiliad, camu i fewn, os oes angen, i ddatrys problemau a hefyd i sicrhau ansawdd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu<br>ch) Unwaith y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Craffu unigol, dylai'r Aelod Cabinet adrodd yn gyhoeddus yn y Pwyllgor ac yn y cyfarfod Cabinet dilynol os yw yn bwriadu gweithredu ar yr argymhellion neu beidio. Dylid cael trefn penodol hefyd mewn adrannau i weithredu ac adrodd yn ôl ar yr argymhellion. Bydd modd cadw log cyhoeddus o hynny y bydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau gweithrediad |
|---|---|

DS Gan bod cymaint o wahaniaeth yn medru bod yn nwyster a hyd ymchwiliadau, awgrymir bellach y dylid cydnabod bod dau fath o ymchwiliad, un llawn all gymryd rhai misoedd a llawer o waith ymgysylltu, ymchwil a thrafod a rhai llai dwys (a elwir yn Weithgorau Craffu) lle y rhagwelir y gellir gweithio fel grwp tasg a gorffen mewn rhyw ddau neu dri chyfarfod

**Meysydd Llafur y Pwyllgorau Craffu**

<u>Pwyllgor Craffu Gofal</u> - Craffu ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau gofal megis Pobl hyn ac Oedolion, Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc a Iechyd
<u>Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (a fyddai'n cynnwys yr holl aelodau cyfetholedig Addysg)</u> - Craffu ar faterion yn ymwneud ag Addysg ac Economi megis Addysg a Llwybr i Gyflogaeth, Adfywio ac Economi
<u>Pwyllgor Craffu Cymunedau</u> - Craffu ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis, Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol, Gwastraff ac Ail-gylchu, Tai, Lleihau ôl-troed Carbon a'r Cynllun Datblygu Lleol
(DS Awgrymir gadael craffu gwaith y Cyngor ynglyn â'r Iaith Gymraeg i'r Pwyllgor Iaith)
<u>Pwyllgor Archwilio</u> – Cyflawni holl swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis Strategaethau Corfforaethol, Partneriaethau, Ymgysylltu, Trawsnewid Busnes, Effeithlonrwydd a'r Gweithlu


| PRIF FANTEISION AC ANFANTEISION |
| --- |
| Prif Fanteision<br>• Llwyth gwaith mwy cytbwys ar draws y 3 phwyllgor<br>• Cyfle i ddatblygu arbenigedd aelodau fesul pwyllgor; aelodau yn cael adnabod eu meysydd diddordeb.<br>• Cyfle i nifer o aelodau fod yn rhan o bwyllgor craffu (54 sedd ar y tri phwyllgor)<br>• Patrwm yr ymchwiliadau presennol sydd wedi gweithio'n dda ar y cyfan yn parhau<br>• Model mwy cyfarwydd i'r aelodau fydd wedi bod yn aelodau o'r hen gyngor |
| Prif Anfanteision<br>• Diffyg trosolwg o'r gwahanol feysydd / pwyllgorau ar hyn o bryd a gwendid yn y rheolaeth o'r rhaglen craffu gyfan – materion yn gallu disgyn rhwng dwy stôl<br>• Llwyth gwaith craffu yn disgyn ar Addysg ac Oedolion gan dynnu adnoddau o'r meysydd hynny i fwydo "craffu" yn hytrach na chyflwyno gwasanaethau i drigolion<br>• Diffyg trosolwg effeithiol yn medru arwain at beryg o fethu â chraffu maes blaenoriaeth mewn un pwyllgor tra'n rhoi sylw i rhywbeth llai pwysig mewn pwyllgor arall<br>• Ffiniau yn parhau ym meysydd gwaith y 3 pwyllgor<br>• Ansicrwydd a oes digon o sgiliau a chapasiti craffu cadarn ymysg yr aelodau a'r swyddogion<br>• Dim ond yn bosib cefnogi 3 ymchwiliad ar y tro a llai o feysydd yn cael sylw manwl yn sgil hynny<br>• Beirniadaeth allanol posib am ddiffyg ymateb i'r sylwadau negyddol ar y drefn bresennol ee - rheolaeth o'r rhaglen craffu ac arafwch yn ymateb<br>• Peryg o fod yn ddibynnol ar yr un aelodau dro ar ôl tro, fel yr ydym ar hyn o bryd |

**ASESIAD YN ERBYN Y GWENDIDAU**

- Cryfhau'r deialog rhwng Cabinet a Chraffu – Mae'r model hwn yn cyfarch yr angen yn rhannol gyda llwyddiant hynny'n dibynnu ar waith y Fforwm Craffu. Mae'r model hefyd yn cyfarch yr angen i wneud mwy o waith datblygu polisi a chraffu ymlaen llaw yn rhannol ond yn dal i ganiatáu rhaglenni gwaith y pwyllgorau unigol i fod yn hyblyg ac ymatebol. Fodd bynnag, nid yw'r model yn caniatáu unrhyw gynnydd yn y capasiti i wneud mwy o ymchwiliadau manwl
- Mireinio a rheoli'r rhaglen craffu - Mae'r model hwn yn cyfarch yr angen yn rhannol gan ddibynnu ar y Fforwm Craffu i wneud hynny ond mae'r pwyllgorau unigol yn dal â'r hawl i alw materion unigol i fewn, beth bynnag eu blaenoriaeth – perygl y bydd y gwaith mewn rhai meysydd yn cynyddu achos bod pwyllgor ar eu cyfer
- Pwysau gwaith anghyson a ffiniau pwyllgorau yn rhy sanctaidd - Mae'r model hwn yn cyfarch y broblem o ran diffyg cydbwysedd presennol yn llwyth gwaith y pwyllgorau ond mae ffiniau penodol yn parhau i'r pwyllgorau newydd
- Arafwch cyflawni gwaith a rhwystredigaeth am amlder cyfarfodydd - Nid yw'r model hwn yn rhyddhau capasiti ychwanegol er mwyn i ymchwiliadau fedru gweithredu'n gynt nac yn cyfarch y mater o arafwch ymateb gan na fydd yn bosib cynnal cyfarfodydd yn amlach o dan y model hwn

ATODIAD 2

**MODEL B – MODEL UN PRIF BWYLLGOR CRAFFU**




| **CORFF / CYFARFOD** | **DISGRIFIAD** |
|---|---|
| **Prif Bwyllgor Craffu** | Un Prif Bwyllgor Craffu o 15 aelod yn cyfarfod bob chwe wythnos gyda chyfarfodydd wedi eu halinio gyda chyfarfodydd Cabinet. Yn ogystal, byddai'r pwyllgor yn cynnwys yr holl aelodau cyfetholedig Addysg pan yn trafod materion Addysg. Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn parhau yn gyfrifol am faterion llywodraethu. Nodir y maes llafur isod<br><br>**Y Gwaith**<br>Bydd y pwyllgor yn:-<br>a) Sefydlu ei raglen flynyddol ei hun mewn gweithdy ac yn comisiynu rhaglen gynhwysfawr o hyd at 8 ymchwiliad ar y tro gan osod amserlen adrodd yn ôl a chyfrifoldebau penodol ar yr ymchwiliadau hynny<br>b) Gweithredu fel corff sy'n cyfarfod bob chwe wythnos i graffu'n annibynnol ar faterion o bryder sydd ddim angen ymchwiliad penodol i ddal y Cabinet a'r adrannau yn atebol yn gyhoeddus (all godi o ran perfformiad neu feysydd eraill)<br>c) Trafod rhai materion, ond nid pob un, sydd yn neu wedi codi o gyfarfodydd mwyaf diweddar a chyfarfodydd nesaf y Cabinet<br><br>**Y Trefniadau**<br>a) Pwyllgor cymharol fychan o 15 aelod wedi ei ddewis ar sail cydbwysedd gwleidyddol ond gan gyfeirio'n benodol at sgiliau craffu. Byddai'r aelodau yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac aelodau eraill allai gysgodi meysydd penodol a fydd yn gyfrifol am arwain ar ymchwiliadau unigol a fyddai hefyd yn cynnwys aelodau rheng flaen (yn ôl eu diddordebau)<br>b) Deialog cyson rhwng y Prif Bwyllgor a'r Cabinet i adolygu'r rhaglen flynyddol ac i gytuno ar feysydd lle y gallai ymchwiliadau ychwanegu gwerth trwy gyfarfod ar y cyd o'r ddau gorff unwaith bob chwe mis i ystyried y Gofrestr Risg, materion polisi a perfformiad neu ddarparu gwasanaeth er mwyn ystyried cynnydd yr ymchwiliadau sydd ar y gweill ac i gyd-gynllunio'r rhai nesaf. Byddai hefyd trafodaeth anffurfiol ar y materion sy'n rhan o'r drefn "Gwyntyllu" newydd (para 6.3 uchod)<br>c) Ni fydd trefn cyfarfodydd paratoi yn rhan o'r patrwm hwn. Ar derfyn pob cyfarfod pwyllgor ffurfiol, bydd cyfarfod anffurfiol yn trafod y |

| | |
|---|---|
| | rhaglen ar gyfer y cyfarfod neu ddau nesaf o'r Prif Bwyllgor Craffu a hefyd adroddiadau o'r drefn craffu monitro perfformiad<br>ch) Trefn i adolygu negeseuon o waith ymgysylltu'r Cyngor i adnabod materion o gonsyrn i drigolion |
| **Ymchwiliadau Craffu** | **Y Gwaith**<br>Hyd at 8 Ymchwiliad Craffu ar waith ar unrhyw adeg yn ymchwilio i feysydd sydd wedi eu hadnabod gan y Prif Bwyllgor Craffu, yn faterion datblygu polisi neu achosion o bryder am berfformiad neu ddarparu gwasanaeth<br><br>**Y Trefniadau**<br>a) Byddai pob ymchwiliad yn cael ei arwain gan aelod o'r Pwyllgor Craffu a swyddog sy'n annibynnol o'r gwasanaeth yn gweithredu fel rheolwr prosiect ar yr ymchwiliad<br>b) Gyda hyd at wyth Ymchwiliad yn mynd yn ei flaen ar unwaith, bydd modd i hyd at 48 / 50 o aelodau sydd ddim ar y Cabinet (sydd yn Aelodau o'r pwyllgor neu beidio) fod yn rhan o un ymchwiliad craffu ar unrhyw adeg ond bydd angen trefn i adnabod diddordebau aelodau unigol fel bod modd adnabod y meysydd hynny lle y gallai cyfraniad aelodau ychwanegu gwerth at waith ymchwiliadau mewn meysydd arbennig<br>c) Gellir adnabod cyfarwyddwr i fentora a chynghori ar bob ymchwiliad – Byddai'r rôl mentora hynny yn golygu cynghori ar y brîff, gweithredu fel "sounding board" yn ôl yr angen yn ystod yr Ymchwiliad, camu i fewn, os oes angen i ddatrys problemau a hefyd i sicrhau ansawdd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu<br>ch) Unwaith y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'w mabwysiadu gan y Prif Bwyllgor Craffu, bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd yn gyhoeddus yn y Pwyllgor ac yn y cyfarfod Cabinet dilynol os yw yn bwriadu gweithredu ar yr argymhellion neu beidio. Dylid cael trefn penodol hefyd mewn adrannau i weithredu ac adrodd yn ôl ar yr argymhellion. Bydd modd cadw log cyhoeddus o hynny y bydd y Prif Bwyllgor Craffu yn ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau gweithrediad |

DS Gan bod cymaint o wahaniaeth yn medru bod yn nwyster a hyd ymchwiliadau, awgrymir y dylid cydnabod bod dau fath o ymchwiliad, un llawn all gymryd rhai misoedd a llawer o waith ymgysylltu, ymchwil a thrafod a rhai llai dwys (a elwir yn Weithgorau Craffu) lle y rhagwelir y gellir cyflawni'r gwaith fel grwp tasg a gorffen mewn rhyw ddau neu dri chyfarfod.

**Maes Llafur y Pwyllgor**

<u>Prif Bwyllgor Craffu (a fyddai'n cynnwys yr holl aelodau cyfetholedig Addysg pan yn trafod materion Addysg)</u> – Craffu yr elfennau pwysicaf o waith y Weithrediaeth (Cabinet a swyddogion) ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, rheoli holl waith craffu'r Cyngor a comisiynu a chydlynu cyfres o Ymchwiliadau Craffu a Gweithgorau Craffu a fydd yn edrych

ar bynciau mewn manylder ac yn llunio argymhellion gwella a'u cynnig i'r Aelodau Cabinet perthnasol

| **PRIF FANTEISION AC ANFANTEISION** |
|---|
| Prif Fanteision<br>• Gwell rheolaeth ar y rhaglen waith craffu fel nad yw strwythur y pwyllgorau yn gyrru'r materion sydd angen sylw<br>• Capasiti i gefnogi mwy o ymchwiliadau blaen graffu'n cael eu cefnogi gan gyfarwyddwyr a swyddogion eraill gyda threfn sicrhau ansawdd<br>• Cyfarfodydd pwyllgor craffu'n fwy aml – yn gallu gweithredu'n gynt a mwy hyblyg<br>• Posib cysylltu diddordebau aelodau gyda meysydd ymchwiliadau<br>• Canolbwyntio sylw'r aelodau â sgiliau craffu cadarn ar un pwyllgor er mwyn gwella ansawdd craffu<br>• Aelodau eraill yn cael profiad llai cyhoeddus o arwain ymchwiliadau i feithrin a datblygu eu sgiliau cadeirio ac arwain<br>• Hyd at 50 o aelodau yn medru bod yn rhan o ymchwiliad manwl ar unrhyw adeg |
| Prif Anfanteision<br>• Peth pryder am y llwyth gwaith ar rai aelodau, yn arbennig y rhai ar y Prif Bwyllgor newydd<br>• Peryg y gallai gwaith y pwyllgor ei hun fod yn rhy arwynebol oherwydd bod y meysydd mor eang<br>• Ansicrwydd am ei effaith ar rymuso aelodau rheng flaen<br>• Creu 2 haen o gynghorydd o ran statws aelodau y tu allan i'r Cabinet<br>• Llai o graffu cyhoeddus gan bod mwy o'r gwaith craffu manwl yn digwydd mewn ymchwiliadau a gweithgorau<br>• Tebygrwydd y bydd y nifer fwy o ymchwiliadau yn gwneud mwy o alwadau ar y gwasanaethau na'r nifer o ymchwiliadau presennol<br>• Llai o gyfleon i aelodau ddatblygu trwy gymryd cadeiriau pwyllgorau<br>• Peth peryg o gael anhawster llenwi rhaglen cyfarfod pwyllgor bob chwe wythnos<br>• Peryg y gallai aelodau sydd ddim ar y pwyllgor fod yn amharod i gymryd rhan mewn ymchwiliadau gan arwain at berygl o fod yn ddibynnol ar yr un aelodau dro ar ôl tro, fel yr ydym ar hyn o bryd |

**ASESIAD YN ERBYN Y GWENDIDAU**

- Cryfhau'r deialog rhwng Cabinet a Chraffu – Mae'r model yn cyfarch yr angen gan alinio cyfarfodydd y Cabinet a Chraffu a gorfodi cytundeb rhwng y Cabinet a Chraffu ar y rhaglen o ymchwiliadau. Galluogi gwneud mwy o waith datblygu polisi a chraffu ymlaen llaw trwy gynyddu'r capasiti i wneud mwy o ymchwiliadau manwl
- Mireinio a rheoli'r rhaglen craffu - Mae'r model yn cyfarch yr angen gan mai un rhaglen waith fydd yn ei le
- Pwysau gwaith anghyson a ffiniau pwyllgorau yn rhy sanctaidd - Mae'r model yn cyfarch y broblem o ran diffyg cydbwysedd presennol yn llwyth gwaith y pwyllgorau trwy gael un pwyllgor yn unig gan flaenoriaethu sylw i feysydd mewn ymchwiliadau
- Arafwch cyflawni gwaith a rhwystredigaeth am amlder cyfarfodydd - Mae'r model yn cyfarch y mater wrth greu mwy o gapasiti ar gyfer cyflawni ymchwiliadau a hefyd bod y Prif Bwyllgor Craffu yn cyfarfod bob 6 wythnos

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr D Williams,
Prif Weithredwr,
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon.
LL55 1SH

**Cyfeirnod:** 687A2016
**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2016

Annwyl Dilwyn,

## Rheoli Risg

Fel y byddwch yn ymwybodol ohono, rydym yn cynnal asesiad risg o drefniadau corfforaethol y Cyngor o fewn ein rhaglen archwilio ar gyfer 2016-17. Yn rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi adolygu eich trefniadau rheoli risg. Mae adnabod a lleihau risgiau mewn modd effeithiol yn agwedd bwysig ar lywodraethu corfforaethol. Mae trefniadau rheoli risg effeithiol yn hanfodol wrth gyflawni gwasanaethau a phrosiectau gweddnewid corfforaethol. Mae llawer o brosiectau o'r fath ar waith yn y Cyngor, yn anad dim, ei raglen newid diwylliannol, Ffordd Gwynedd.

Cynhaliwyd ein hadolygiad o reoli risg ar adeg pan oedd y Cyngor yn adnewyddu ac yn cryfhau ei drefniadau adnabod, cofnodi a rheoli risg. Gan fod y gwaith adnewyddu yn cael ei lywio gan uwch-reolwyr, mae'r sbardunau ar gyfer newid yn cynnwys agenda moderneiddio'r Cyngor sy'n adlewyrchu'r Rhaglen Newid Diwylliannol, 'Ffordd Gwynedd', ac awydd i integreiddio'n well y gwaith o reoli risg gyda chynllunio strategol.

Fel y gwyddoch, cyflwynodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2015 a oedd yn nodi trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg. Mae'r adroddiad hwn, ynghyd â nifer o bapurau eraill, yn nodi sut bydd gwelliannau yn cael eu diogelu a'r trefniadau o fewn y Cyngor yn cael eu cryfhau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf. Yn benodol, bydd cynnwys y Gofrestr Risg

Gorfforaethol yn cael ei ailwampio a bydd yn cyd-fynd yn well â'r cynllun strategol a gwaith y Pwyllgor Archwilio.

Yn hytrach na beirniadu'r trefniadau presennol, rydym wedi ceisio deall y fframwaith rheoli risg cyffredinol a chanolbwyntio ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau gwelliant. Rydym wedi ystyried pa mor debygol yw'r camau hyn o fod yn effeithiol, a daethom i'r casgliad hwn:

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei drefniadau rheoli risg, sy'n galluogi iddo gefnogi proses benderfynu gadarn ac effeithiol yn well**

Yn ogystal â hyn, rydym wedi nodi rhai cyfleoedd gwella y gallai'r Cyngor ddewis eu hystyried fel rhan o'i fentrau presennol i wella'r gwaith rheoli risg ymhellach. Nodir y rhain isod a chawsant eu trafod â swyddogion y Cyngor yn ystod yr adolygiad hwn. Byddai trefniadau rheoli risg y Cyngor yn elwa o:

- ddatblygu dogfen crynhoi risgiau neu olrhain risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- cyflwyno mwy o gysondeb o ran nodi a rheoli risg mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i Aelodau;
- rhoi mwy o ystyriaeth i'r cysyniad o 'ysfa risg' yn ei ddull o reoli risg;
- cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau newydd y Cyngor; a
- hyfforddi swyddogion ac Aelodau ar reoli risg fel rhan o fenter ehangach o godi ymwybyddiaeth.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol ac yn adeiladol i chi gefnogi eich gwaith eich hun ar gryfhau trefniadau rheoli risg y Cyngor.

Yr eiddoch yn gywir



Jeremy Evans

Rheolwr Archwilio Perfformiad

Cc Ian Hughes – Arbenigwr Archwilio Perfformiad

Nigel Griffiths – Arweinydd Archwilio Perfformiad

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL | **TREFNIADAU RHEOLI RISG** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM DREFNIADAU RHEOLI RISG Y CYNGOR, AC YMATEB I LYTHYR SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU I'R TREFNIADAU RHEOLI RISG, Y CAMAU GWEITHREDU NESAF, AC YSTYRIED OS YW'R YMATEB YN MYND I'R AFAEL Â'R MATERION A GODWYD YN LLYTHYR YR ARCHWILIWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81(1)(c) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

1.2 Fel rhan o waith ehangach i adolygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio trefniadau rheoli risg y Cyngor, ac yn benodol y ffordd y mae datblygiadau diweddar yn ychwanegu gwerth i weithredoedd yr Awdurdod. Mae'r adroddiad yma ffurfio ymateb y Cyngor i lythyr y Rheolwr Archwilio Perfformiad (SAC) i'r Prif Weithredwr.

**1.3 Prif ganlyniad yr archwiliad yw fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei drefniadau rheoli risg, sy'n galluogi iddo gefnogi proses benderfynu gadarn ac effeithiol yn well.**

## 2. AWGRYMIADAU'R ARCHWILIWR

2.1 Nid yw'r archwiliwr wedi gweld yr angen i ryddhau adroddiad ffurfiol am ganlyniadau'r gwaith, nac ychwaith wedi cyflwyno argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r llythyr yn nodi 5 cyfle i wella, sef:

- Datblygu dogfen crynhoi risgiau neu olrhain risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- Cyflwyno mwy o gysondeb o ran nodi a rheoli risg mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i Aelodau;
- Rhoi mwy o ystyriaeth i'r cysyniad o 'ysfa risg' yn ei ddull o reoli risg;
- Cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau newydd y Cyngor; a
- Hyfforddi swyddogion ac Aelodau ar reoli risg fel rhan o fenter ehangach o godi ymwybyddiaeth.

2.2 Mae gweddill y rhan yma o'r adroddiad yn amlinellu ymateb y Cyngor i'r cyfleon gwella yma.

**2.3 Datblygu Dogfen Crynhoi Risgiau Neu Olrhain Risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol**

2.3.1. Cyflwynwyd adroddiad manwl i'r Pwyllgor yn Rhagfyr 2015 yn amlinellu trefniadau Rheoli Risg y Cyngor:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s2917/Trefniadau%20Rheoli%20Risg.pdf?LLL=1

2.3.2. Roedd yr adroddiad yma yn rhoi darlun manwl o'r trefniadau rheoli risg ar y pryd.

2.3.3. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi y byddai grŵp tasg o swyddogion, gan gynnwys yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg, yn ystyried y trefniadau rheoli risg yn ystod 2016 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas o fewn y diwylliant newydd y mae'r Cyngor am ei feithrin. Yn benodol, roedd bwriad ystyried sut y byddai'r gyfundrefn yn plethu gyda'r ymarferiad o adnabod rhwystrau rhag cyflawni pwrpas unedau a rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

2.3.4. Mewn ymateb, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi sefydlu Is-Grŵp (sydd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant) er mwyn adolygu'r trefniadau rheoli risg ymhellach.

2.3.5. Canlyniad gwaith yr Is-Grŵp Risg fydd ail-lunio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar ffurf newydd fydd yn haws ei dilyn ac yn rhoi mwy o berchnogaeth i adrannau. Anelir i gyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol addasedig i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin / Gorffennaf 2017.

2.3.6. Awgrym yr archwiliwr yw fod y Pwyllgor Archwilio – ar ôl iddo dderbyn y gofrestr llawn y tro cyntaf – wedyn yn derbyn adroddiad sydd yn crynhoi'r newidiadau i'r gofrestr dros amser. Byddai hyn yn hwyluso gallu'r Pwyllgor Archwilio i adolygu'r trefniadau, a rydym yn cytuno fod hyn yn ffordd resymol, effeithiol ac effeithlon i weithredu.

**2.4 Cyflwyno mwy o gysondeb o ran nodi a rheoli risg mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i Aelodau**

2.4.1. Mae nifer o adroddiadau y mae Aelodau yn eu derbyn – yn arbennig felly adroddiadau i'r Cyngor Llawn neu'r Cabinet ar gyfer penderfyniadau ffurfiol – eisoes yn cynnwys amlinelliad o'r risgiau perthnasol. Mae sylwadau'r swyddogion statudol, sydd yn ofynnol ar adroddiad o'r fath, yn fodd o sicrhau fod risgiau mewn meysydd penodol yn derbyn sylw haeddiannol.

2.4.2. Yn gyffredinol, mae meddylfryd Ffordd Gwynedd yn awgrymu symud i ffwrdd oddi wrth bod yn ragnodol wrth baratoi adroddiadau, er mwyn sicrhau bod ffurf unrhyw adroddiad yn addas i bwrpas yr adroddiad hwnnw.

2.4.3. Fodd bynnag, pryder yr archwiliwr yw nad yw bob amser yn amlwg os yw'r risgiau gweddilliol (h.y. maint y risg sydd yn weddill ar ôl cymryd camau i'w liniaru) yn dderbyniol.

2.4.4. Un o'r egwyddorion sylfaenol y mae'r Is-Grŵp Risg wedi edrych arno yn ddiweddar yw ***a ydym fel Cyngor mewn gwirionedd yn gweithredu cyfundrefn "ticio-bocs" yn hytrach na defnyddio'r cofrestri fel dull o reoli'r hyn sydd angen ei wneud?***

2.4.5. Mae'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant yn ymweld yn rheolaidd â perchnogion y risgiau sydd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol er mwyn cael diweddariad am unrhyw newidiadau. Yr ymdeimlad cryf ar hyn o bryd yw fod y gofrestr risg yn gofnod o risgiau yn hytrach nag yn ddull o adnabod yr hyn sydd wirioneddol angen ei wneud.

2.4.6. Y cam nesaf yn esblygiad y drefn, felly, fydd defnydd parhaus o'r cofrestrau risg fel ffordd o adnabod y pethau sydd wirioneddol angen eu blaenoriaethu. O gael hyn yn iawn, bydd rhaid i unrhyw adroddiad sydd yn cael ei gyflwyno am benderfyniad yn egluro'n echblyg pa risgiau mae'r gweithrediad yma am ei ateb, a bydd y cyfle gwella yma yn cael ei weithredu yn naturiol o hynny.

**2.5 Rhoi mwy o ystyriaeth i'r cysyniad o 'ysfa risg' yn ei ddull o reoli risg**

2.5.1. 'Ysfa risg' ("*risk appetite*") yw faint o risg y mae'r Cyngor yn barod i'w gymryd wrth iddo fynd ati i gyflawni ei amcanion. Mae gosod ysfa risg yn sicrhau bod yr adnoddau a roddir i ddeall a rheoli'r risgiau yn gymesur.

2.5.2. Mae'r archwiliwr yn cytuno gyda dadl y Cyngor na ellir fyth gael ysfa cyffredinol ar gyfer y Cyngor gyfan, gan fod cymaint o amrywiaeth mewn gwasanaethau ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cytuno fod lle i ystyried pob risg yn unigol, a nodi os ydi'r sefyllfa gyfredol yn dderbyniol neu beidio (efallai trwy gynnwys colofn megis "*Lle 'rydym yn fodlon bod?*" neu debyg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol). Bydd hyn yn cael ystyriaeth bellach wrth ail-lunio'r gofrestr, a fel nodwyd yn flaenorol, byddwn yn cyflwyno'r Gofrestr ddiwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin / Gorffennaf 2017.

**2.6 Cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau newydd y Cyngor**

2.6.1. Mae gennym beth pryder fod "Strategaeth" yn awgrymu dogfen swmpus sy'n cael ei gymeradwyo gan bwyllgor nad oes unrhyw un yn edrych arni eto.

2.6.2. Ar y llaw arall, os mai nod y Cyngor yw cael trefniadau rheoli risg lle mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ddogfen fyw ac yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu a gyrru penderfyniadau yn eu blaen, yna byddai'n synhwyrol paratoi dogfen sy'n sefydlu'r camau sydd angen eu cymryd i gyrraedd y nod hwnnw. Credir y gellir cyfleu'r neges honno mewn dogfen gryno, a caiff hon ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin / Gorffennaf 2017.

2.6.3. O safbwynt Llawlyfr Gweithrediadau, mae perygl y gallai hwn ysgogi "ticio'r blwch" yn hytrach na newid meddylfryd. Er mwyn hybu gweithrediad priodol, mae'r Is-Grŵp Risg eisoes wedi cyfrannu tudalennau ar Reoli Risg i "Lawlyfr Perfformiad" y Cyngor fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Credwn fod hyn yn gam ymlaen i fodloni'r cyfle gwella yma.

**2.7 Hyfforddi swyddogion ac Aelodau ar reoli risg fel rhan o fenter ehangach o godi ymwybyddiaeth**

2.7.1. Mae'r mater yma eisoes yn cael sylw. Am flynyddoedd bu'r Uned Yswiriant a Risg, ar y cyd â'r Uned Dysgu a Datblygu, yn paratoi cwrs "Adnabod Bygythiadau a Chyfleon" ar reoli risg busnes. Mae'r ddau uned wedi bod mewn trafodaethau yn ddiweddar er mwyn ystyried sut y gellir diweddaru'r cwrs hwnnw er mwyn cwmpasu egwyddorion Ffordd Gwynedd, ac adlewyrchu'r trefniadau rheoli risg yn well.

2.7.2. Yn ail, mae'r Uned Dysgu a Datblygu yn y broses o ddatblygu Adnodd Rheolwyr ar safle mewnrwyd staff y Cyngor. Rydym eisoes wedi sefydlu'r egwyddor y bydd canllawiau Rheoli Risg yn rhan greiddiol o'r adnodd yma.

2.7.3. Disgwylir y bydd y camau hyn yn eu lle erbyn Haf 2017.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn yr adroddiad hwn fel eglurhad manwl o'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn manteisio ar y cyfleon i wella a amlinellir yn llythyr Swyddfa Archwilio Cymru.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 27 IONAWR 2017** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 21 Tachwedd 2016 hyd at 27 Ionawr 2017.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 27 Ionawr 2017:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 5 |
| Adolygiadau Grant | 1 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae’r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o’r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 27 Ionawr 2017, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i’r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiant Disel | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | C | Atodiad 1 |
| Trefniadau Parhad Busnes-Gwasanaeth | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar draws yr Adran | B | Atodiad 2 |
| Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 3 |
| Gweithwyr Cefnogol (Derwen) | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | C | Atodiad 4 |
| Iechyd Anifeiliaid | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | B | Atodiad 5 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

**2.3 Grantiau**

2.3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu 'tystiolaeth o wariant priodol' o'r dyraniadau ar gyfer chweched dosbarth ac addysg barhaus i oedolion. Mae canllawiau Archwilio Awdurdodau Lleol ar gyfer Ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn nodi y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu'r wybodaeth ganlynol yn flynyddol i Lywodraeth Cymru:

a) rhestr o bob adroddiad archwilio mewnol sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn honno sy'n cynnwys unrhyw ddysgu mewn ysgol neu yn y gymuned lle y mae grantiau Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y costau yn gyfan-gwbl neu'n rhannol;
b) ar gyfer yr adroddiadau hynny, mae angen y farn archwilio gyffredinol yn ogystal ag unrhyw wendidau sylweddol a nodir yn ogystal â'r cynllun gweithredu / sylwadau rheoli i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny;
c) copi o adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol (neu gyfwerth);
d) copi o lythyr rheoli yr archwiliad allanol sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol benodol wedi iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor. (Bydd hyn yn y dystysgrif archwilio gan eich cyfrifon 2015-16 archwiliedig blynyddol).

2.3.2 Cyflwynwyd y wybodaeth uchod ynghyd â'r rhestrau gwirio cysylltiedig at Lywodraeth Cymru ar 11 Ionawr, 2017, o fewn y terfyn amser sef 31 Ionawr 2017.

**2.4 Archwiliadau Dilyniant**

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Arlwyaeth – Ysgol Ardudwy, Harlech | Addysg | Arlwyo | Derbyniol |
| Arlwyaeth – Ysgol y Gader, Dolgellau | Addysg | Arlwyo | Derbyniol |

2.4.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.
**Derbyniol** - y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.
**Anfoddhaol** - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.
**Annerbyniol** - y mwyafrif o'r argymhellion heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2017**

Plas y Don
Plas Hedd
Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 27 Ionawr 2017.

- Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu – Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd *(Corfforaethol)*
- Iechyd a Diogelwch – Coed *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Defnydd o Gardiau Credyd *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant (*Addysg*)
- Ystadegau a Chyfrifiadau - Uwchradd
- Ysgolion – Cyffredinol *(Addysg)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Storiel – Trefniadau Llywodraethu a Rheoli *(Economi a Chymuned)*
- Cyfrifon Clybiau Ieuenctid *(Economi a Chymuned)*
- Hafan *(Economi a Chymuned)*
- Diogelu Rhag Colli Rhyddid *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Gweithwyr Cefnogol – Oedolion *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Taliadau Uniongyrchol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Gwastraff Masnachol *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Trefniadau Recriwtio a Phenodi *(YGC)*

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 21 Tachwedd 2016 hyd at 27 Ionawr 2017, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**GWERTHIANT DISEL**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Harbyrau yn cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd megis lleoliadau angorfa cychod, lleoliadau cludo llestri i'r dŵr, gwerthiant disel coch yn ogystal â gwasanaethau eraill. Mae gan pob harbwr Harbwr Feistr, sydd yn rheoli'r harbwr o ddydd i ddydd gyda staff o dan ei reolaeth.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefn briodol ar gyfer gweinyddu a derbyn incwm o wariant disel yn Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog yn ogystal ag edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno trefn newydd i alluogi cwsmeriaid dalu am wasanaeth morwrol yn y tri harbwr drwy wneud defnydd o gardiau credyd/debyd.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod rheolaethau wedi eu sefydlu gan y Gwasanaeth Morwrol, ond bod angen tynhau ar y rheolaethau hyn gan na ellir dibynnu arnynt ar hyn o bryd. Manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

3.1.1 Gwelwyd achosion ym mhob un o'r Harbyrau lle nad oedd yr incwm a gasglwyd wedi bod yn cael ei fancio'n wythnosol yn unol â'r disgwyl. Gwelwyd oediad o dros fis yn Harbwr Abermaw ac oediad o dros 3 wythnos yn Harbwr Porthmadog.

3.1.2 Gwelwyd bod incwm gwerthiant disel coch yn yr Harbyrau sydd ar adegau yn gynwysedig o'r elfen treth ychwanegol 'additional duty' o £0.4681 yn cael ei gyfeirebu i gyd i god byr D 'Gwerthu Disel', sy'n golygu bod yr incwm treth ychwanegol yn cael ei drin fel incwm yn gynwysedig o DAW. Nid yw'r dreth ychwanegol yn cynnwys TAW. Golyga hyn bod 5% o'r incwm a gesglir mewn treth ychwanegol yn cael ei dalu drosodd i Cyllid a Thollau EM yn ddianghenriad.

3.1.3 Gwelwyd achosion yn Harbyrau Abermaw a Phorthmadog lle nad oedd y ffioedd cywir wedi cael eu codi am werthiant disel. Mae trefn yn bodoli lle mae'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon e-bost at yr Harbwr Feistri yn eu hysbysu pan fo newid ym mhrisiau'r tanwydd yn dilyn pryniant stoc newydd ac fe ddisgwylir bod yr Harbwr Feistri yn gweithredu ar hyn.

3.1.4 Gwelwyd bod trefn dda yn bodoli yn y tri Harbwr o sicrhau bod cwsmeriaid yn cwblhau datganiad o ba % o'r pryniant disel sy'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau masnachol a domestig. O'r sampl archwiliwyd gwelwyd bod datganiad yn bodoli ar gyfer pob gwerthiant fodd bynnag, gwelwyd achosion yn Harbyrau Abermaw a Phorthmadog lle nad oedd y cwsmeriaid wedi arwyddo'r datganiadau pob tro.

3.1.5 Wrth archwilio rhestr cwsmeriaid Harbwr Aberdyfi sydd yn derbyn credyd gan y Cyngor ar gyfer pryniant disel, gwelwyd bod cwsmer rhif cwsmer 016785 â dyledion costau trydan ac ad-daliad dŵr yn deillio yn ôl i 2010. Yn dilyn trafodaethau pellach ynghylch y mater gyda'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, bu iddo fynegi

bod angen trefnu i ddileu'r dyledion oherwydd amgylchiadau busnes y cwsmer bryd hynny.

3.1.6 Mae gan y Gwasanaeth Morwrol drefn dda o gofnodi manylion y disel a werthir, y stoc disel a brynir ynghyd â manylion y stoc disel sydd mewn llaw ar gyfer pob un o'r Harbyrau. Fodd bynnag, gwelwyd gwallau yn ffigyrau stoc mewn llaw ar daenlen Harbwr Porthmadog ar gyfer misoedd Mehefin 2016 a Gorffennaf 2016, bellach mae'r gwallau wedi eu cywiro.

3.1.7 Gwelwyd bod trefn gan Harbwr Feistr Abermaw o ganiatáu i gwsmeriaid gael credyd, ond yn hytrach na chodi anfoneb arnynt pob mis, caniateir iddynt gael credyd am gyfnod hirach na mis ac wedyn yn caniatáu iddynt dalu'r ddyled pan yn gyfleus. Gwelwyd bod un cwsmer wedi cael hyd at 3 mis o gredyd cyn bod y cwsmer wedi talu ei ddyledion. Fe weinyddir y drefn yma gan yr Harbwr Feistr yn unig. Mae'r drefn yma yn effeithio ar lif arian y Cyngor. Deëllir ei fod yn fwriad gan y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i derfynu'r drefn o godi anfonebau ar gwsmeriaid pan fydd y system newydd o dalu gyda chardiau wedi ei sefydlu yn y tri Harbwr.

3.1.8 Wrth archwilio taenlenni manylion gwerthiant a phryniant disel Abermaw a'r llyfrau derbynebau a bancio, daethpwyd ar draws amryw o wallau megis incwm anghywir wedi ei gasglu gan y cwsmer a rhifau derbynebau wedi eu mewnosod yn y mannau anghywir ar y taenlenni.

3.1.9 Deëllir bod y Gwasanaeth Morwrol wedi ystyried y posibilrwydd o osod peiriannau cardiau yn yr Harbyrau, ond heb wneud unrhyw waith ymchwil ar y mater hyd yma. Gall y Gwasanaeth Incwm roi'r Gwasanaeth Morwrol ar ben ffordd unwaith y bydd y Gwasanaeth Morwrol wedi adnabod pa fath o beiriannau sydd eu hangen ym mhob un o'r Harbyrau.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngwerthiant disel yn Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Bancio yn wythnosol. Bydd yr Harbwr Feistri yn cadarnhau dyddiad bancio drwy gwblhau taenlen yn wythnosol ar i-Gwynedd ble bydd y daenlen yn cael ei fonitro.
- Sefydlu cod byr ar gyfer yr elfen 'Treth Ychwanegol' (Duty.) Bydd Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn trafod gyda'r Uned Cyllid er sefydlu cod incwm priodol.
- Bydd yr Harbwr Feistri yn gwahaniaethu incwm ac yn defnyddio cod priodol ar gyfer y Tollau. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu i'r daenlen adrodd ar ddisel misol.
- Ffioedd cywir yn cael eu codi yn dilyn bod newid wedi bod yn brisiau'r tanwydd (+ neu -). Bydd taenlen yn cael ei hanfon (fel yr arfer) i'r Harbwr Feistri ar ddiwedd pob mis yn cadarnhau y ffi cywir.

- Bydd ffeil yn cael ei leoli ger y pwmp disel fel na fydd gofyn bod y prynwr disel yn gorfod ymweld â'r swyddfa er arwyddo datganiad. Bydd defnyddwyr masnachol yn arwyddo un ffurflen am y flwyddyn ariannol gyfan ac nid yn arwyddo ar bob achlysur wrth dderbyn disel coch.
- Bydd dyled cwsmer rhif cwsmer 016785 yn cael ei ddileu. Roedd yr unigolyn ar y pryd wedi mynd yn fethdalwr ac felly nid oedd yn bosibl ad-ennill y ddyled. Bydd y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu gyda'r Uned Incwm i drefnu hyn.
- Sicrhau bod y ffigyrau stoc mewn llaw ar y taenlenni adroddiadau disel yn cael eu cwblhau'n gywir a chynnal gwiriadau ar hap ar y stoc disel. Bydd Harbwr Feistri yn archwilio tanc disel ar ddiwedd pob mis er cadarnhau amcan gyfrif o stoc disel coch yn y tanc ar ddiwedd pob mis. Bydd y ffigwr hwn yn cael ei gofnodi ar y daenlen adrodd ar werthiant yn fisol.
- Sicrhau na fydd Harbwr Abermaw yn parhau i roi credyd heb godi Anfoneb gyda'r bwriad o roi diwedd ar gredyd unwaith y bydd peirannau talu wedi eu sefydlu. Ni fydd disel coch yn cael ei ddyroddi oni bai fod taliad yn cael ei dderbyn ar unwaith a hyn drwy daliad cerdyn neu arian. Bydd angen sicrhau fod peiriannau talu priodol wedi eu hadnabod ac wedi eu hawdurdodi gan yr Uned Incwm cyn y gellir gweithredu.
- Angen tynhau ar weinyddiaeth gwerthiant disel yn Abermaw - sicrhau fod yr incwm cywir yn cael ei gasglu a bod y taenlenni yn cael eu cwblhau'n gywir. Bydd rheolwyr (AFJ a BD) yn trafod hyn gyda'r Harbwr Feistr. Bydd peiriant talu drwy ddefnyddio cerdyn yn lleihau y risg.
- Cysylltu gyda'r Uned Incwm er sicrhau fod trefniant modern mewn lle cyn Gŵyl Y Pasg 2017

Atodiad 2

**TREFNIADAU PARHAD BUSNES**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1 Cefndir**

1.1 Mae cynlluniau parhad busnes yn manylu ar gynlluniau a gweithrediadau sy'n sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu gadael heb wasanaeth maent yn ddibynnol arno mewn achosion ble fydd amhariad sylweddol annisgwyl neu fethiant llwyr i ddarparu'r gwasanaeth. Wrth ystyried y gwasanaethau cymdeithasol mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ei ddarparu, mae parhad busnes yn angenrheidiol er mwyn cynnal bywydau defnyddwyr.

**2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i'r Cyngor allu parhau i gyflawni gwasanaeth i ddefnyddwyr, drwy adolygu prosesau'r Adran a'r trefniadau rhyngweithio gyda darparwyr allanol er mwyn gwirio'r rheolaeth sydd gan y Cyngor ar barhad gwasanaethau'r rheini, gan gynnwys gallu'r Cyngor i ddarganfod darparwyr eraill fyddai'n gallu diwallu'r angen mewn achos o fethiant gwasanaeth.

2.2 Er mwyn cyflawni hyn, cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion perthnasol yr Adran er mwyn adnabod lefel parodrwydd y Cyngor i weithredu petai methiant busnes. Gwiriwyd cynlluniau parhad busnes cyfredol yr Adran gan sicrhau bod y manylion angenrheidiol wedi eu cynnwys, megis materion gweithredol, polisïau a meddylfryd yr Adran. Yn ogystal, archwiliwyd cytundebau â darparwyr allanol er mwyn gwirio fod cymalau i amddiffyn gallu'r Cyngor i sicrhau fod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu.

**3 Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Darganfuwyd bod cynllunio rhagweithiol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi ei rhoi mewn sefyllfa fanteisiol petai risg i barhad gwasanaeth gan fod cynlluniau parhad busnes yn eu lle, gan gynnwys trefniadau ychwanegol sydd tu hwnt i beth sydd wedi ei ddogfennu yn y cynlluniau.

3.2 Mae egwyddorion y cynlluniau parhad busnes yn parhau'n berthnasol, ond mae'r manylion wedi dyddio a tybir ei fod yn amserol i'w hadolygu a'u diweddaru. Wrth wneud hynny, dylid ystyried y pwyntiau a godir yn yr adroddiad yma. Mae hyn hefyd yn gyfle i ennyn perchnogaeth staff o'r cynlluniau, yn enwedig y rhai sydd wedi eu penodi'n ddiweddar.

3.3 Mae'n addas i wahaniaethau fod rhwng cynlluniau Gwasanaethau, ond mae lle i rannu ymarferion da ar draws yr Adran. Roedd nifer o ychwanegiadau defnyddiol yn cael eu darparu ar wahân i'r cynlluniau unigol, ond byddai eu cynnwys yn ffurfiol fel rhan o'r trefniadau yn cryfhau effeithiolrwydd.

3.4 Nid oedd eglurder o ran rolau staff craidd yn y cynlluniau. Yn ogystal, nid oes gan yr holl staff fynediad at y cynlluniau. Os oes disgwyliadau o fewn y cynllun i staff ymateb neu weithredu, disgwylir bod ymdrech i gyfathrebu'r cynllun yma gyda nhw a bod

mynediad parhaus iddynt gan hybu ymwybyddiaeth glir ohono.

3.5 Mae manylion cyswllt staff yn allweddol i lwyddiant cyfathrebu mewn achos ble bydd angen gweithredu cynllun parhad busnes. Derbynnir fod cadw manylion cyswllt personol staff yr Adran, a'u gwarchodaeth, yn fater cynhennus a gwerthfawrogwyd fod y Gwasanaethau wedi cytuno trefniadau amrywiol ar gyfer cadw manylion cyswllt personol, er budd y cynlluniau. Gwelwyd ymarfer da ble mae manylion cyswllt, adnoddau, a sgiliau defnyddiol yn cael eu nodi ar gyfer staff a phersonau eraill all fod o gymorth mewn achos perthnasol.

3.6 Pryd cyfeiriwyd at unigolion yn y cynllun mae rhai cyfeiriadau yn amwys megis "rheolwr cofrestredig" ble nad yw'n bosib gweithio allan pwy yw'r swyddogion o'r rhestr cysylltiadau. Mewn achos ble bydd angen gweithredu'r cynllun, dylai cysylltiadau o'r fath fod yn glir i unrhyw ddarllenydd.

3.7 Wrth gynllunio ar gyfer sbarduno cychwyn ymateb, mae cyfarwyddyd i ymateb yn gorfod dod gan dîm o Uwch-swyddogion y Cyngor neu'r Heddlu, allai ohirio ymateb buan a all fod yn gritigol. Mewn gwirionedd, wrth drafod gyda'r Gwasanaethau, mae rheolwyr yn ddigon cymwys i allu gweithredu yn gychwynnol o leiaf, ac mae tystiolaeth fod hynny wedi gweithio yn y gorffennol. Mae cyhoeddiadau cenedlaethol ar y mater yn awgrymu ymarfer da o gael meini prawf ar gyfer cychwyn ymateb sydd wedi ei gymeradwyo eisoes gan Uwch-swyddogion a'i gytuno fel pwerau i arfogi a grymuso rheolwyr i weithredu.

3.8 Gwelwyd fod rhyngwyneb y cynlluniau parhad busnes â chynlluniau ehangach (megis y Cynllun Argyfwng ar gyfer Tanwydd Cenedlaethol) yn wan ac nad oes ymwybyddiaeth lawn o'r cynlluniau yma. Mae cyswllt wedi ei sefydlu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn gyfle i adnabod y cynlluniau yma, a hefyd i ystyried ymateb cydweithredol ar gyfer parhau busnes.

3.9 Mae'r fframwaith ar gyfer contractau gyda darparwyr allanol yn manylu fod yn rhaid cael cynllun parhad busnes yn ei le. Rhagwelir y bydd rhwystrau posib i sicrhau fod y rhain yn gyflawn a chadarn yn sgìl ail-strwythuro a'r lleihad adnoddau o fewn y Gwasanaeth Contractau a Monitro.

## 4 <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Cynlluniau Parhad Busnes gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Trafod a rhannu ymarfer da mewn cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Adran, a'r posibilrwydd o'u gweithredu ar draws yr adran.
- Rhoi cyfeiriadau i'r ychwanegiadau allweddol yn y cynlluniau gan hefyd ystyried mynediad atynt ar system gyfrifiadurol y Cyngor yn ogystal â ffurfiau eraill mewn argyfwng.
- Sicrhau pan fydd newid i'r cynlluniau parhad busnes, fod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda staff ar bob lefel mewn cyfarfodydd rheolaidd.

- Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun yn y newyddlen adran a monitro llwyddiant y cyfathrebiad.
- Cyfeirio at fynediad i fanylion cyswllt swyddogion yr Adran yn y cynllun parhad busnes.
- Nodi yn glir teitlau swydd swyddogion sy'n gweithredu mewn argyfwng.
- Nodi yn y cynlluniau parhad busnes fod cynlluniau unigol ar gyfer sefydliadau cofrestredig, a bod y rhain yn gallu cael eu gweithredu ar gyfer ymateb blaengar.
- Trafod y posibilrwydd o rymuso staff i allu ymateb yn flaengar i osgoi sefyllfaoedd droi yn argyfwng yng nghyfarfod Tîm Rheoli'r adran.
- Cynnwys cynlluniau argyfwng tu allan i'r adran (megis tanwydd) a chynllun yr adran mewn perthynas, yn y cynlluniau parhad busnes.
- Cynnal trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol er mwyn ychwanegu unrhyw gynlluniau perthnasol i'r cynlluniau parhad busnes.

Atodiad 3

**BRYN BLODAU, LLAN FFESTINIOG**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Lleolir cartref preswyl Bryn Blodau ym mhentref Llan Ffestiniog. Mae'r cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 41 o bobl gan gynnwys 8 unigolyn gyda dementia/gwendid meddyliol. Mae'r cartref hefyd yn cynnig gofal dydd i unigolion sydd am wneud defnydd o'r gwasanaeth ond sydd ddim yn preswylio yno.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Bryn Blodau yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghartref Bryn Blodau, ond bod angen tynhau ar rai agweddau yn bennaf ar hyfforddiant staff. Manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

3.1.1 Dim ond dwy anfoneb yn y sampl o 12 archwiliwyd oedd â stamp dyddiad derbyn arnynt, roedd gan y gartref hen stamp, ond deellir bod y Rheolwr eisiau cael un newydd. Mae'n bwysig nodi dyddiad y derbynnir yr anfoneb ar yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw y dylai'r Clerc ei ddefnyddio i gofnodi yn y blwch 'Pwynt Treth' ar y slip cyfeirebu TR252.

3.1.2 Mae drws blaen y Cartref yn cael ei gadw ar gau ac mae angen canu cloch i gael mynediad i'r Cartref a phwyso botwm i ymadael â'r Cartref. Nid oedd y drws wedi ei gloi yn ystod y dydd ar ddiwrnod yr ymweliad. Fodd bynnag, eglurodd y Rheolwr bod Gofalwr wedi dod a defnyddiwr gwasanaeth mewn cadair olwyn i mewn i'r Cartref am ofal dydd ac wedi gadael heb dynnu'r drws oddi ar y 'latch'.

3.1.3 Roedd 3 aelod o staff heb dderbyn hyfforddiant meddyginiaeth ers 2013 ac un heb gael ers 2009. Yn unol â'r polisi meddyginiaeth, mae'n ddisgwyliad i geisio diweddaru'r hyfforddiant yma pob 2-3 blynedd, *"Training will be updated, the target being to update every 2-3 years."* (tud. 21). Gwiriwyd cofnodion profion cymhwysedd meddyginiaeth 3 aelod o staff a dyddiad y rhai diweddaraf oedd 2014 er bod y rhain angen eu cynnal yn flynyddol.

3.1.4 Gwelwyd bod 2 aelod o staff yn gweinyddu meddyginiaeth ond nid ydynt wedi arwyddo'r ffurflen bwrpasol i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y Polisi Feddyginiaeth ar gyfer y flwyddyn 2016. Fodd bynnag, dywedodd Rheolwr y Cartref ei fod yn siŵr bod yr aelodau yma o staff wedi ei ddarllen ond wedi anghofio arwyddo'r daflen gan ei fod wedi cwblhau profion cymhwysedd gyda'r ddwy.

Dywedodd y byddai'n sicrhau eu bod yn arwyddo'r daflen i gadarnhau hyn.

3.1.5 Fe dderbyniodd Cartref Bryn Blodau 'Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio' gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mai 2016 oherwydd diffyg hyfforddiant staff. Amlygwyd bod llawer o hyfforddiant gorfodol heb ei adnewyddu ers sawl blwyddyn ac felly nid oes sicrwydd bod y staff yma yn gymwys. Mae llawer o gyrsiau hyfforddiant wedi eu cynnal ers cyhoeddi'r adroddiad yma. Wrth wirio cofnodion hyfforddi'r Cartref gwelir bod llawer o staff yn parhau i fod angen adnewyddu eu hyfforddiant a mynychu cyrsiau. Mae Rheolwr y Cartref yn ymwybodol o'r angen i barhau i adnewyddu hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r gofynion ac eglurodd bod cyrsiau wedi eu trefnu ar gyfer y dyfodol agos.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Cartref Preswyl Bryn Blodau, Llan Ffestiniog gan fod rheolaethau wedi eu sefydlu, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Rheolwr i gael stamp derbyn newydd neu lofnodi a dyddio'r anfonebau pan maent yn cyrraedd y cartref i gadarnhau'r dyddiad maent wedi cael eu derbyn.
- Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n darparu meddyginiaeth yn arwyddo i ddatgan eu bod wedi darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth.
- Parhau i weithio ar adnewyddu hyfforddiant staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn gymwys ac wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf.

Atodiad 4

**GWEITHWYR CEFNOGOL**
**PLANT A THEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Tîm Integredig Derwen yn darparu cymorth i bobl ifanc ag anableddau. Mae Gweithwyr Cefnogol Derwen yn helpu'r bobl ifanc i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol gan gynyddu eu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Gall Derwen hefyd ddarparu cyfnodau o ofal seibiant dros nos yn y cartref i deuluoedd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.2 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle ar gyfer diwallu anghenion defnyddwyr fel yr amlinellir yn eu Cynlluniau Gofal. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu sicrhau bod trefniadau recriwtio Gweithwyr Cefnogol, hyfforddiant, monitro gweithgareddau a gweinyddu cyflogaeth ac ad-daliadau costau yn briodol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Cyhoeddwyd adroddiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar 30/11/16 yn dilyn ymweliad byr rybudd â Derwen ar 26/07/16. Bwriad yr arolwg oedd ystyried ansawdd a bywyd y bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth. Er bod cwmpas yr archwiliad yma yn gorgyffwrdd ag arolygiad yr AGGCC, ni chwtogwyd ar y profion archwilio er mwyn gwirio'r cynnydd ers yr arolygiad. Adroddwyd gan yr AGGCC na ddarganfuwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio, ond cynigwyd argymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mewn ymateb i'r adroddiad, lluniodd Derwen gynllun gweithredu i gwrdd â'r argymhellion.

3.2 Mae Manylion Person swydd Gweithiwr Cefnogol yn mynegi ei fod yn 'hanfodol' bod gweithwyr yn meddu ar 'NVQ Lefel 3 Gofal Iechyd a Chymdeithasol - Llwybr Gofal Plant' neu yn barod i weithio tuag ato. Gwiriwyd y bas-data hyfforddiant a thaenlen bwrpasol y Gwasanaeth ar gyfer sampl o weithwyr a gwelwyd amrywiaeth o gymwysterau gwahanol, rhai gyda nifer a rhai heb lawer. Gwelwyd esiampl o Weithiwr Cefnogol yn darparu gwasanaeth i gleient ble nad oedd tystiolaeth bod hyfforddiant 'Respect' wedi ei dderbyn, yn unol â'r asesiad risg. Darganfuwyd nad oedd llawer o weithwyr yn gymwysedig yn NVQ Lefel 3. Mae angen i'r gweithwyr weithio isafswm o oriau fel rhan o'r cymhwyster sy'n ei wneud yn anodd i weithwyr achlysurol gymhwyso. Nid oes ychwaith gymaint o gymorth ariannol i weithwyr dros 25 oed i hyfforddi i lefel NVQ. Yn ogystal, mynegwyd bod gweithwyr cymwysedig yn dueddol i gamu ymlaen i swyddi eraill wedi iddynt gymhwyso sy'n ei gwneud yn anodd penodi a chadw gweithwyr cymwysedig yn NVQ Lefel 3.

3.3 Gwelwyd bod amryw o hyfforddiant ar gael i'r gweithwyr petaent yn dymuno eu mynychu. Fodd bynnag, nid oes gan weithwyr di-swyddfa megis Gweithwyr Cefnogol fynediad at E-Gwynedd a'r Ganolfan Bolisi ar hyn o bryd, ond disgwylir i hyn newid

unwaith mae System Integredig Dysgu a Datblygu mewn lle (Haf 2017), sy’n caniatáu i pob gweithiwr gael mynediad at systemau Dysgu a Datblygu ar unrhyw amser drwy ddyfeisiadau personol.

3.4 Disgwylir bod Gweithwyr Cefnogol gyda thrwydded yrru lawn a defnydd o gar. Wrth benodi, gofynna Derwen am gopi o drwydded yrru, tystysgrifau MOT ac yswiriant i’w cadw ar ffeil a nodi’r manylion ar daenlen. Fodd bynnag, nid oedd y daenlen yn gyflawn a chyfredol. Yn ogystal, nid oes trefn barhaus o sicrhau bod trwyddedau gweithwyr heb gronni pwyntiau cosb, a all gynyddu risg i gleientiaid.

3.5 Mae’r Gwasanaeth wedi bod yn ddibynnol ar y Gwasanaeth Cefnogol (Cefnogaeth Gorfforaethol) i hysbysu Gweithwyr Cefnogol pryd y dylid adnewyddu eu tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Wrth wirio’r system swyddi, gwelwyd bod oediadau rhwng dyddiadau darfod ac adnewyddu. Mae adroddiad AGGCC yn atgyfnerthu hyn drwy argymell i Derwen fod yn fwy rhagweithiol a dyfeisio system gadarn o roi rhybudd cynnar i weithwyr.

3.6 Gwiriwyd costau teithio sampl o weithwyr, gan eu dilyn yn ôl i’w taflenni amser, adroddiad sesiwn a chynllun gofal y cleient. Ymddengys bod y costau teithio’n briodol, ac nad oedd siwrneiau afresymol wedi eu hawlio, boed yn leoliad neu bellter. Fodd bynnag, gwelwyd anghysondeb mewn perthynas â hawlio costau, megis lluniaeth. Gall Gweithwyr Cefnogol hawlio hyd at symiau penodol tuag at costau lluniaeth eu hunain yn ddibynnol ar yr amser o’r dydd, ond gwelir ceisiadau yn uchafu’r trothwy yma.

3.7 O’r sampl o daflenni amser a wiriwyd, gwelwyd rhan amlaf nad oedd llofnod y cleient/Rheolwr Achos arnynt, er bod gofyniad iddynt ei arwyddo ar ôl pob sesiwn.

3.8 Ar gyfer sampl o Weithwyr Cefnogol, gwiriwyd y ffurflenni costau teithio a’r amserlenni gwaith er mwyn dethol cleient, gan ddilyn yr adroddiad sesiwn yn ôl i’r Cynllun Gofal i weld os ydynt yn cyd-fynd. Yn gyffredinol, gwelwyd bod yr adroddiadau sesiwn yn unol â’r Cynllun Gofal, megis mynd i nofio, mynd i gerdded ayyb. Fodd bynnag, gwelwyd enghraifft o gleient yn ymweld â chaffis, er bod y Cynllun Gofal yn dweud yn benodol na chaiff y cleient fwyta dim tra gyda Gweithwyr Cefnogol. O’r sampl o Weithwyr Cefnogol a wiriwyd, gwelwyd nad oeddynt wedi arwyddo Cynllun Gofal eu cleient, felly nid oes prawf bod eu cynnwys yn wybodus i’r Gweithwyr.

3.9 O’r hyn a ellir ei weld o’r adroddiadau sesiwn, ymddengys fod y Gweithwyr Cefnogol yn cyflawni gofynion ac anghenion y cleient. Fodd bynnag, rhaid cymryd i ystyriaeth y ffaith nad yw’r adroddiad sesiwn yn dangos y darlun cyfan, ac nad oes modd i’r archwiliad gwmpasu sgiliau meddal y Gweithwyr Cefnogol sy’n allweddol i gyflawni anghenion y cleient.

3.10 Wrth wirio’r Cynlluniau Gofal ac asesiadau risg, gwelwyd bod nifer ohonynt bellach wedi dyddio. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynegi’r angen i adolygu’r cynlluniau yn gyson. Yn ogystal, gwelwyd un Cynllun yn cyfeirio at gleient droeon gydag enw anghywir, gall awgrymu nad yw’r Cynlluniau yn cael eu darllen yn aml neu y defnyddir “cut & paste” o gynllun arall. Fel rhan o gynllun gweithredu archwiliad y AGGCC, cytunodd Derwen i adolygu a diweddaru’r Cynlluniau Gofal, proffil y cleient ac asesiadau risg.

3.11 Disgwylir i'r Gweithwyr Cefnogol dderbyn 4 sesiwn goruchwyliaeth yn flynyddol. Fodd bynnag, amlygodd archwiliad AGGCC nad yw'r sesiynau wedi eu gwasgaru drwy'r flwyddyn, fel y disgwyl. Erbyn hyn, mae taenlen mewn lle yn monitro'r dyddiadau. Fodd bynnag, mae'n gynamserol i weld pa mor gadarn yw'r trefniadau newydd ar amser yr archwiliad yma.

**4. Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Gweithwyr Cefnogol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau bod Gweithwyr Cefnogol wedi derbyn hyfforddiant arbenigol sy'n cyd-fynd a gofynion asesiadau risg y cleient.
- Ystyried trefniant o gynnal gwiriadau amserol ar drwyddedau.
- Parhau gyda'r drefn o ddyfeisio system i roi rhybudd cynnar am adnewyddu tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â'r cynllun gweithredu sydd eisoes mewn lle.
- Atgoffa Gweithwyr Cefnogol o'r rheolau mewn perthynas â hawlio costau.
- Ail anfon llythyr i atgoffa Gweithwyr Cefnogol o'r angen i lofnodi amserlenni, gan nodi'r bwriad o anfon unrhyw amserlen sydd heb lofnod yn ôl.
- Cadw copi o Gynlluniau Gofal, proffiliau ac asesiadau risg wedi'i harwyddo gan bawb sydd ynghlwm i'r cleient, gan gynnwys y Gweithwyr Cefnogol.
- Mabwysiadu trefn o ddiweddaru Cynlluniau Gofal, proffiliau a asesiadau risg yn reolaidd.
- Parhau gyda'r drefn o gynnal goruchwyliaeth pob chwarter blwyddyn.

Atodiad 5

**IECHYD ANIFEILIAID**
**RHEOLEIDDIO**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r uned Safonau Masnach yn rhan o'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, sydd o fewn yr Adran Rheoleiddio. Un o ddyletswyddau Safonau Masnach yw rhoi sylw i iechyd a lles anifeiliaid o fewn sefydliadau amaethyddol megis ffermydd, marchnadoedd a chanolfannau casglu. Mae grant gan Lywodraeth Cymru wedi bod ar gael yn y gorffennol, a fu'n cyfrannu at gyllido'r gwasanaeth a ddarperir o ran Iechyd Anifeiliaid, ond y bu iddo ddiweddu yn ystod 2015/16. Mae'r ddarpariaeth bellach yn cael ei ariannu'n llawn o gyllideb yr uned Safonau Masnach.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.3 Bwriad yr archwiliad oedd asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn y maes iechyd a lles anifeiliaid, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i lwyddo i gyflawni ei amcanion yn dilyn diweddiad y grant.

2.4 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau o ran cynllunio, cynnal y gwaith, monitro a'r defnydd o adnoddau, er mwyn sicrhau fod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid 2015-2017.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae 6 swyddog yn gweithio yn y maes Iechyd a Lles Anifeiliaid. Fodd bynnag, nid yw dyletswyddau'r swyddogion yn gyfyngedig i'r maes yma'n unig, gan eu bod hefyd yn ymgymryd â gwaith mewn meysydd megis amaethyddiaeth a bwydydd anifeiliaid, hylendid bwyd - cynhyrchu sylfaenol a masnachu teg.

3.2 Gwelwyd fod cydweithio'n mynd rhagddo o fewn y maes, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a bod cynlluniau ar y cyd wedi eu sefydlu sydd yn cyfrannu at sicrhau effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Mae hyn yn hanfodol mewn hinsawdd ble mae gostyngiad anochel i'w weld mewn adnoddau. Er enghraifft, mae grant Llywodraeth Cymru wedi lleihau dros y blynyddoedd (o fod yn oddeutu £83,000 yn 2011/12), ac mae bellach wedi dod i ben yn gyfan gwbl.

3.3 Mae gofyn i'r gwasanaeth flaenoriaethu ymweliadau yn seiliedig ar risg y sefydliad amaethyddol (isel, cymedrol neu uchel), sy'n cael ei asesu'n unol â'r Cynllun Asesu Risg Cenedlaethol. Yn yr amserlen waith ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae oddeutu 730 sefydliad i'w ymweld â nhw; tua 30 sefydliad risg uchel, 510 cymedrol, a 190 isel.

3.4 Yn ogystal â chynnal ymweliadau arferol, mae gofyn i'r swyddogion gynnal gwaith ymatebol, delio gyda chwynion a cheisiadau am wasanaeth. Maent hefyd yn cynnig gwasanaeth 'tu hwnt i oriau' ar gyfer achosion o argyfwng. Gallai hyn olygu llithriad yn y rhaglen archwilio ar gyfer sefydliadau sydd â risg isel iddynt yn sgil diffyg adnoddau.

3.5 Gyda dros 2,000 o sefydliadau amaethyddol yng Ngwynedd, ynghyd â gostyngiad mewn adnoddau fel y soniwyd eisoes, mae'n hanfodol felly bod y swyddogion yn defnyddio'u gwybodaeth a'u deallusrwydd wrth ymdrin â'u gwaith o ddydd i ddydd.

3.6 Cofnodir canlyniadau ymweliadau mewn system gyfrifiadurol, Civica Flare, ond nid oes ffurflen ymweld o reidrwydd yn cael ei atodi i'r system ar gyfer y sefydliadau sy'n cydymffurfio'n llawn. Nid oedd amheuaeth wedi codi yng nghwrs yr archwiliad nad yw swyddogion yn cadw cofnodion llawn ar gyfer ymweliadau ble mae trosedd neu dor-rheolau wedi eu darganfod. Fodd bynnag, wedi trafod gyda'r Rheolwr, ystyrir y byddai'n arfer dda i gadw cofnod electroneg lawn o bob ymweliad.

3.7 Nid yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r mesur perfformiad o ran nifer ymweliadau â busnesau newydd. Fodd bynnag, mae'r tîm yn llawn ymwybodol o hyn, ac fel y soniwyd yn y pwyntiau uchod, yn yr hinsawdd sydd ohoni mae blaenoriaethu ar sail risg yn hanfodol.

3.8 Nid yw'r uned Safonau Masnach o reidrwydd yn derbyn gwybodaeth uniongyrchol am fusnesau newydd sydd yn cael eu sefydlu. Trafodwyd felly'r posibilrwydd o dderbyn gwybodaeth gan wasanaethau eraill y Cyngor, er enghraifft y gwasanaeth Refeniw - Trethi a Budd-dal (Trethi Busnes).

3.9 Derbyniwyd tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cyflawni'r mesur perfformiad o ran ymweld â 100% o sefydliadau sydd â risg uchel iddynt. Mae sylw teilwng hefyd yn cael ei roi i gwynion ac achosion o gamymddygiad mewn sefydliadau.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Iechyd Anifeiliaid gan fod rheolaethau wedi eu sefydlu, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau bod y ffurflen ymweld sy'n cael ei roi i'r sefydliad a archwilir yn cael ei atodi i'r system Civica ar gyfer pob ymweliad, boed y canlyniad yn dangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn neu beidio.
- Sefydlu trefniant o dderbyn gwybodaeth gan wasanaethau eraill y Cyngor, neu gan Lywodraeth Cymru, ynglŷn â busnesau newydd, gan adolygu'r trefniadau ar gyfer ymweliadau yn ddibynnol ar nifer a natur y busnesau hynny.

# Eitem 12

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17.

**2. CRYNODEB O'R CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2016/17 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 27 Ionawr 2017 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 4 |
| Gwaith maes ar y gweill | 17 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 49 |
| **Cyfanswm** | **72** |
| | |
| Wedi eu canslo oherwydd lleihad mewn adnoddau | 10 |
| Archwiliadau wedi eu canslo i gyflawni eraill | 8 |

2.2 Targed perfformiad 2016/17 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2017. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o’r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 27 Ionawr 2017 oedd **68.06%** - allan o’r **72** archwiliad unigol yng nghynllun 2016/17 roedd **49** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

## 3. ADDASIADAU I’R CYNLLUN

3.1 Adroddwyd i’r Pwyllgor ym mis Rhagfyr y bu i un aelod o’r Tîm adael cyflogaeth y Cyngor ddiwedd Hydref 2016 a’r tebygolrwydd uchel y bydd yn anochel canslo archwiliadau i adlewyrchu’r prinder mewn adnoddau. Erbyn hyn, mae aelod arall wedi gadael ei swydd a bydd aelod arall yn terfynu ei gyflogaeth fis Chwefror. Golyga felly bod angen addasu’r Cynllun i adlewyrchu diffyg o 120 mewn dyddiau cynhyrchiol. Mae trefniadau ar y gweill i benodi swyddogion i’r swyddi hyn.

3.2 Gweler isod yr archwiliadau a ddetholwyd i beidio eu cynnal isod ynghyd â’r rhesymeg dros hynny:

- ***Iechyd a Diogelwch – Coed*** (10 diwrnod) – Mae’r weithdrefn coed yn y broses o gael ei diweddaru ac yn dilyn hynny bydd angen cyfleu’r weithdren newydd i’r adrannau perthnasol.
- ***Trefniadau Diogelu – y Strwythur Gweithredol*** (20 diwrnod) – mae llawer o adolygiadau wedi eu cynnal gan Archwilio Mewnol yn y maes yma a comisiynwyd y Swyddog Diogelu Plant (Addysg) i gynnal adolygiad yn y maes.
- ***System Treth Cyngor – Advantage Digital Portal*** (10 diwrnod) – mae’r archwiliad wedi llithro i 2017/18 oherwydd nid yw’r datblygiad wedi ei gyflwyno hyd yma.
- ***Storiel – Cau i Lawr y Prosiect*** (5 diwrnod) – bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn chwarter 1, 2017/18.
- ***Tai Cefnogol*** (15 diwrnod) – mae’r archwiliad wedi llithro i 2017/18
- ***Prosiect Gyda’n Gilydd*** (15 diwrnod) – mae’r prosiect bellach wedi dod i derfyn, felly dim diben cynnal yr archwiliad.
- ***System Flare*** (15 diwrnod) – yn dilyn trafodaeth gyda Pennaeth Rheoleiddio, eglurwyd bod llawer wedi newid mewn trefniadau ers cafwyd y cyfarfod i drafod Cynllun Archwilio 2016/17 ym mis Ionawr 2016.
- ***Cynlluniau Cyfalaf Eiddo’r Cyngor*** (15 diwrnod) – mae cynlluniau mawr e.e. Plas Heli, Ysgol Hafod Lon, wedi derbyn archwiliad ac mae ac mae Ysgol Glancegin yn destun archwiliad yn 2017/18.
- ***Cynlluniau Prosiect YGC*** (15 diwrnod) – yn dilyn cyfarfod gyda Pennaeth YGC i drafod Cynllun Archwilo Drafft 2017/18, mynegodd nad oedd y maes hwn yn flaaenoriaeth.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2016/17, cynnig sylwadau arno, cymeradwyo’r addasiadau, a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17

Atodiad 1

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-09/2017 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **10.60** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-09/2017dep | Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-11/2017DBS | Trefniadau Diogelu - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.24** | Disgwyl Adolygiad |
| 1-CORFF-14/2017coed | Iechyd a Diogelwch - Coed | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.72** | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-19/2017/001 | Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.82** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-19/2017/002 | Trefniadau Diogelu - y Strwythur Gweithredol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-19/2017/003 | Trefniadau Diogelu- Sefydliadau | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **0.94** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2017cor | Asesiad Corfforaethol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CPGV-02/2017 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.26** | Wedi ei gynllunio |
| 2-ADN-CGC-DPA/2017 | Rheoli Gwybodaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **15.51** | Adroddiad Terfynol |
| 2-ADN-CGC-DPA/2017cy | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **1.95** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AO-ARL-01/2017 | Defnydd o Gardiau Credyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **16.27** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AO-ARL-05/2017 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 50.00 | 0.00 | **50.00** | **19.39** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2017tan | Cyflenwadau Tanwydd - Cynlluniau Rhanbarthol a Lleol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.51** | Adroddiad Terfynol |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2017GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion | 5.00 | 7.00 | **12.00** | **18.61** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2017GGA | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 20.00 | -7.00 | **13.00** | **13.34** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2017ol16 | Grant Addysg Ôl-16 | 2.00 | 0.00 | **2.00** | **2.45** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA03/2017 | Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **11.76** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2017hlon | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **18.81** | Adroddiad Terfynol |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA15/2017 | Ystadegau a Chyfrifiadau - Uwchradd | 15.00 | 20.00 | **35.00** | **6.36** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA18/2017 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgolion Cynradd | 25.00 | -25.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA18/2017/2010 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Beddgelert | 0.00 | 4.10 | **4.10** | **7.86** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/2048 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Bro Plenydd | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **8.23** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/2104 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Eifion Wyn | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **7.59** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/2210 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Talsarnau | 0.00 | 4.10 | **4.10** | **8.10** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/3029 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Tregarth | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **7.90** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/3300 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Santes Helen | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **8.47** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA35/2017 | Ysgolion - Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.48** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAYC/2017 | Diogelwch Gwybodaeth mewn Ysgolion | 25.00 | -25.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| EADDAYC/2017/2008 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Abererch | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.20** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2028 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Penybryn | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.41** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2039 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Crud y Werin | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.32** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2085 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Penisarwaen | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.37** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2089 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Bro Lleu | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.59** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2103 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Sarn Bach | 0.00 | 2.70 | **2.70** | **3.32** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2187 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Dinas Mawddwy | 0.00 | 2.70 | **2.70** | **3.40** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2192 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Edmwnd Prys | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.54** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2213 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Bro Hedd Wyn | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.24** | Adroddiad Terfynol |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | | | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| BE-POL-08/2017 | System eGaffael - Trothwyon Goddefiant | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.82** | Adroddiad Terfynol |
| **Cofrestru** | | | | | | |
| BB-YSG-05/2017 | Gwasanaeth y Crwner | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.08** | Adroddiad Terfynol |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| AW-TG-12/2017tg | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2017 | System Dyledwyr - Anfonebau gyda statws "Canslo" | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.88** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-01/2017tro | Trothwyon Gwirio | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.73** | Adroddiad Terfynol |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-09/2017 | Strwythur Codio | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **8.70** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2017dhp | Taliadau Tai Dewisol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.89** | Adroddiad Terfynol |
| AB-BD-01/2017kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **9.88** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2017dis | Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau (Pobl) | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **10.95** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2017ipo | System Treth Cyngor – Advantage Digital Portal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei ganslo |
| AC-TR-11/2017dis | Trethi Busnes - Gostyngiadau Elusennau | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **8.28** | Adroddiad Terfynol |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2017 | Cronfa'r Degwm | 5.00 | -5.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2017 | Storiel - Trefniadau Llywodraethu a Rheoli | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.53** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EDIW-MU-03/2017/002 | Storiel - Cau i Lawr y Prosiect | 0.00 | 5.00 | **5.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2017 | Canolfannau Hamdden | 40.00 | -40.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| EHAMAC6404/2017 | Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **12.46** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6405/2017 | Canolfan Hamdden Plas Silyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.56** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6422/2017 | Canolfan Hamdden Dwyfor | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **18.28** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6448/2017 | Canolfan Hamdden Bro Dysynni | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.15** | Adroddiad Terfynol |
| **Llyfrgelloedd** | | | | | | |
| EADDI01/2017 | Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.54** | Disgwyl Adolygiad |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-01/2017 | Hafan | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.29** | Wedi ei gynllunio |
| EHAMM-02/2017 | Gwerthiant Disel | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **16.72** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMT-01/2017 | Casglu Incwm Traethau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.75** | Adroddiad Terfynol |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-ARALW/2017 | Trefniadau Parhad Busnes-Gwasanaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.19** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-CYLL/2017 | Rheolaeth Gyllidebol - Darparu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.26** | Adroddiad Terfynol |
| GCC-02/2017 | Diogelu Rhag Colli Rhyddid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **19.93** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GDAPR-GC05/2017 | Gweithwyr Cefnogol - Oedolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **7.22** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes** | | | | | | |
| 5-GOF-CWYN/2017 | Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.74** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2017 | Grant Cefnogi Pobl | 0.00 | 15.00 | **15.00** | **10.42** | Adroddiad Terfynol |
| **Gofal Cymunedol** | | | | | | |
| GDAPR-GC02/2017gw | Gwyliau Gofalwyr Cymunedol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.19** | Adroddiad Terfynol |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GCC-07/2017 | Taliadau Uniongyrchol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.55** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-C01/2017 | Taliadau Annibyniaeth Bersonol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.20** | Wedi ei ganslo |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1340/2017 | Plas Pengwaith, Llanberis | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.28** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1344/2017 | Plas Gwilym, Penygroes | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.46** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1355/2017 | Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.19** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1357/2017 | Llys Cadfan, Tywyn | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **16.51** | Adroddiad Terfynol |
| GDARP-D07/2017 | Tai Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.08** | Wedi ei ganslo |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2017 | Grantiau | 24.00 | -24.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 5-GOF-X-PL/2017CI | Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **16.42** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-PL/2017DD | Grant Refeniw Dechrau'n Deg | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **17.20** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-PL/2017pgg | Prosiect Gyda'n Gilydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.34** | Wedi ei ganslo |
| GGWAS-P03/2017 | Gweithwyr Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.77** | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-PLANT4/2017 | Mabwysiadu | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **2.94** | Wedi ei ganslo |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2017 | Ffioedd MOT | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.70** | Adroddiad Terfynol |
| PPR-GW03/2017 | Rheolaeth Fflyd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **4.34** | Wedi ei gynllunio |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-05/2017 | Gwastraff Masnachol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **7.24** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2017fl | System Flare | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |
| 2ADN-GGYC-GYC/2017ia | Iechyd Anifeiliaid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **13.57** | Adroddiad Terfynol |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-05/2017 | Cynlluniau Cyfalaf Eiddo'r Cyngor | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2017 | Trefniadau Recriwtio a Phenodi | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.20** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| PYMG-CON/2017gor | Goramser | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.69** | Adroddiad Terfynol |
| PYMG-CON/2017pp | Cynlluniau Prosiect | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 CHWEFROR 2017** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2017/18** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2017 – 31 MAWRTH 2018** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2017/18 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio***

2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith yma, felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.

2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned; adnodd staffio'r Uned yw 7 swydd amser llawn. Mae hyn yn ei wneud yn gynyddol bwysig fod y gwasanaeth yn cyfeirio ei adnoddau i'r llefydd cywir.

2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, yn gyntaf rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ogystal â chofrestrau risg pob adran. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw. Yn hynny o beth, rydym wedi cydweithio'n agos â'r Uned Yswiriant a Risg, sydd fel rhan o'u rôl yn sicrhau fod y cofrestrau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, sydd wedi cael ei drafod gyda pob Pennaeth adran (neu dîm rheoli adrannol mewn rhai achosion). Roedd hyn yn gyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

2.6 Yn ystod 2017/18, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Sicrhau fod y gwasanaeth yn cyfrannu i adolygiadau Ffordd Gwynedd, fel mae'r angen yn codi, er mwyn sicrhau llwyddiant i newid diwylliant y Cyngor.
- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y cynllun.

## 3. ADNODDAU SYDD AR GAEL

3.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 880 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2017/18. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd ac ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb | 55 diwrnod | 55 diwrnod |
| Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol | 30 diwrnod | 65 diwrnod |
| Darpariaeth ar gyfer dilyniant | 80 diwrnod | 45 diwrnod |

3.2 Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer gwaith dilyniant yn sicrhau bod pob gweithrediad cytunedig yn derbyn sylw yn hytrach na gweithrediadau cytunedig adroddiadau a dderbyniodd farn 'C' yn unig.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2017/18

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | Cynnig cyngor a chefnogaeth i staff a rheolwyr ar faterion risg a rheolaeth fewnol. (Cymerir agwedd Ffordd Gwynedd at holl waith Archwilio Mewnol) | 20 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth. | 20 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y fenter hwn sy'n cael ei redeg gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 40 |
| Diogelwch Systemau TG | Bwriedir cynnal archwiliadau ar faterion penodol yn y maes Technoleg Gwybodaeth. | 30 |
| Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | Comisiynwyd y darn yma o waith gan y Panel Gweithredol Diogelu. Yn wreiddiol, roedd yr archwiliad wedi ei chynllunio ar gyfer 2016/17 ond gwnaethpwyd cais i gynnal adolygiad o weithwyr â chyfeiriad e-bost gan y Panel yn 2016/17 fel y gellir cymharu ymatebion dros dair blynedd. | 35 |
| Derbyn Tystlythyrau | Mae Diogelu yn risg uchel ar y gofrestr risg corfforaethol ac mae'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ynghyd â Pholisi Recriwtio a Phenodi yn mynegi'r angen am ddau dystlythyr ar bob achlysur. Ni fydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio tystlythyrau ar gyfer Ysgolion. | 15 |
| Trefniadau Diogelu – Sefydliadau | Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ar "Ddiogelu" wrth ymweld â sefydliadau. | 4 |
| Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol – Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr | Mae diogelwch gwybodaeth ar gofrestr risg corfforaethol y Cyngor ac mae'r prosiect Llywodraethu Gwybodaeth yn y Cynllun Strategol. | 10 |
| Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau | Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau yn y maes Rheoli Gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau. | 6 |
| Diwylliant ac Ymddygiad | Adolygiad i ganfod os yw'r gweithlu yn arddangos dealltwriaeth o werthoedd craidd a disgwyliadau'r sefydliad. | 15 |

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | Bydd y canlyniadau yn dynodi diwylliant y Cyngor. | 15 |
| Prosiect i-Gwynedd | Adolygiad i sicrhau bod y buddsoddiad yn rhoi gwerth am arian. | 10 |
| Gweinyddu Costau Teithio Hunan-wasanaeth | Adolygu pa wiriadau a wneir ar gostau a delir drwy hunanwasanaeth. | 5 |
| **ADDYSG** | | |
| ***Adnoddau*** | | |
| Grant Addysg Ôl-16 | Disgwyliad yn yr amodau ariannol. | 3 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | Nid yw'r GAD wedi ei ymgorffori yn y Grant Gwella Addysg, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân. | 10 |
| Grant Gwella Addysg | Mae'r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. | 15 |
| ***GwE*** | | |
| Trefniadau Busnes | Mae'r archwiliad wedi ei gynnwys ar gais y Rheolwr Gyfarwyddwr (Dros Dro). | 20 |
| ***Ysgolion*** | | |
| Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Cynradd ac Uwchradd | Nid yw polisi'r Cyngor yn cwmpasu ysgolion. | 25 |
| Ysgolion Cyffredinol | Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori. | 10 |
| Incwm Cinio Ysgol | Mae prosiect ar y gweill i gyflwyno trefniant newydd o dalu am ginio ysgol – bydd y dull newydd yn weithredol o fis Medi 2017. | 20 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgolion Cynradd | Mae iechyd a diogelwch wedi cael ei adnabod fel risg yn y gofrestr risg adrannol. | 25 |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| Iechyd a Diogelwch | Cynnal adolygiad i sicrhau y cynhelir gwiriadau priodol. | 25 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| ***Democratiaeth*** | | |
| Hyfforddi Aelodau Newydd | Bydd etholiadau yn cael eu cynnal ym mis Mai 2017, a disgwylir y bydd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr wedi ei sefydlu ar eu cyfer. | 10 |

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| ***Hyfforddiant*** | | |
| System Integredig Dysgu a Datblygu | Datblygiad newydd. | 10 |
| **CYLLID** | | |
| ***Ariannol*** | | |
| Trefniadau Adennill Dyledion a Gweithrediad Cyfreithlon | Nid yw'r maes yma wedi derbyn sylw ers cryn amser. | 15 |
| ***Cyfrifeg*** | | |
| Praeseptau | Nid oes archwiliad wedi ei gynnal ers 2009/10. | 5 |
| ***Refeniw*** | | |
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Disgwylir y bydd cynnal adolygiad o gymorth i'r archwilwyr allanol wrth gynnal eu hadolygiad o'r Cais Sybsidi Budd-dal. | 12 |
| System Treth Cyngor - Advantage Digital Portal | Datblygiad newydd – disgwylir ei gyflwyno yn 2017/18. | 10 |
| ***Pensiynau a Chyflogau*** | | |
| Grantiau Marwolaeth | Nid yw'r maes yma wedi derbyn sylw ers 2009/10. | 15 |
| Cronfa Bensiwn | Darpariaeth gyffredinol. | 15 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| ***Adfywio Cymunedol*** | | |
| Cronfa'r Degwm | Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000. | 5 |
| ***Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau*** | | |
| Storiel – Cau i Lawr y Prosiect | Wedi llithro o Gynllun 2016/17 oherwydd diffyg adnoddau. | 5 |
| Storiel - Ymweliad Dirybudd | Ymweliad dirybudd i gynnal cysoniad incwm. | 1 |
| ***Hamdden*** | | |
| Canolfannau Hamdden | Adolygiad o drefniadau gweinyddol ac ariannol canolfannau penodol. | 40 |
| Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth | Adolygiad o'r trefniadau i sicrhau nad oes colled incwm. | 10 |
| ***Morwrol a Pharciau Gweledig*** | | |
| Doc Fictoria | Nid oes archwiliad wedi ei gynnal ers 2009/10. | 10 |

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| ***Prosiectau Sylweddol*** | | |
| Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu | Menter a gaiff ei harwain gan Gyngor Gwynedd a'i gwireddu drwy bartneriaeth aml-asiantaeth gan gynnwys Cadw, Cyngor Celfyddydau Cymru, Antur Waunfawr, Gisda, Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru, Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon a Galeri Caernarfon. | 15 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| ***Ar draws yr Adran*** | | |
| Trefniadau Comisiynu | Adolygiad o'r trefniadau comisiynu gan gynnwys cyd-gomisiynu. | 30 |
| ***Cefnogi Pobl*** | | |
| Grant Cefnogi Pobl | Disgwyliad yn amodau'r grant. | 15 |
| ***Oedolion*** | | |
| Teleofal | Bydd trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2017/18. | 10 |
| ***Preswyl a Dydd*** | | |
| Cynllun Lleoli Oedolion – Cysylltu Bywydau Gwynedd | Yn amserol i gynnal archwiliad yn y maes hwn. | 15 |
| Plas Ogwen, Bethesda | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2017/18 yw'r flwyddyn gyntaf o dair). | 12 |
| Plas Maesincla, Caernarfon | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2017/18 yw'r flwyddyn gyntaf o dair). | 12 |
| Plas Hafan, Nefyn | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2017/18 yw'r flwyddyn gyntaf o dair). | 12 |
| Hosteli Anableddau Dysgu | Model newydd o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion. | 20 |
| Tai Cefnogol | Wedi llithro o Gynllun 2016/17 oherwydd diffyg adnoddau. | 15 |
| ***Rheolaeth Tai*** | | |
| Rhestr Aros Tai | Nid yw'r maes hwn wedi derbyn archwiliad ers cryn amser. | 12 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| ***Plant a Theuluoedd*** | | |
| Grantiau | Adolygiad o grantiau penodol. | 24 |

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| Trefniadau ar gyfer Plant yn gadael gofal | Gwirio cydymffurfiad â Deddf Plant yn Gadael Gofal. | 20 |
| Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Ran 4 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Adolygiad o'r trefniadau yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Newydd. | 20 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| ***Gwaith Priffyrdd*** | | |
| Depos | Monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu sydd wedi ei ddatblygu yn sgil ymchwiliad mewnol i ddigwyddiad. | 15 |
| ***Rheoli Gwastraff a Strydoedd*** | | |
| Targedau Ailgylchu | Mae'r maes hwn wedi ei adnabod yn risg uchel (cyn fesurau rheoli) yn y gofrestr risg adrannol. | 10 |
| Casglu Gwastraff Gardd | Trefniant newydd ers Ionawr, 2017. | 15 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| ***Gwarchod y Cyhoedd*** | | |
| Trwyddedu | Mae'r Uned Trwyddedu wedi bod yn destun adolygiad "Ffordd Gwynedd". | 8 |
| Hylendid Bwyd | Archwiliad ar gais y Pennaeth – angen adolygiad o'r trefniadau cyfredol. | 8 |
| ***Trafnidiaeth a Gofal Stryd*** | | |
| Tocynnau Mantais Bws | Archwiliad ar gais y Pennaeth – mae hwn yn faes o risg. | 8 |
| ***Tir ac Eiddo'r Cyngor*** | | |
| Cynlluniau AdeiladuYsgolion – Ysgol Glancegin | Angen sicrwydd y cydymffurfir ag amodau'r grant ac ar weinyddiaeth gyffredinol y cynllun. | 10 |
| Manddaliadau | Nid yw'r maes hwn wedi derbyn archwiliad ers 2011/12. | 8 |
| **YGC** | | |
| ***Ar draws YGC*** | | |
| Achrediadau YGC | Mae'r archwiliad wei ei gynnwys ar gais y Pennaeth. | 15 |
| Statws Cyflogaeth | Gwirio statws cyflogaeth gweithwyr YGC. | 10 |
| ***CYFANSWM DYDDIAU*** | | ***880*** |

# Eitem 14

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| **DYDDIAD** | 9fed Chwefror 2017 |
| **TEITL** | Hafan Pwllheli |
| **PWRPAS** | Cynnig diweddariad ar waith sydd wedi ei raglennu |
| **ARGYMHELLIAD** | I dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad |
| **AWDUR** | Llŷr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Mandy Williams-Davies |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 1af o Ragfyr 2016 ystyriwyd adolygiad ail chwarter cyllideb refeniw 2016/7. Bryd hynny, cafwyd trafodaeth ar Hafan Pwllheli a phenderfynwyd gofyn i'r Adran Economi a Chymuned (gyda chefnogaeth yr Adran Gyllid) gyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor o ran yr Hafan.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw cynnig diweddariad ar waith sydd eisoes wedi ei raglennu gan yr Adran.

## 2. SEFYLLFA BRESENNOL

2.1 Datblygwyd Hafan Pwllheli ar ddechrau'r 1990au gan Gyngor Dosbarth Dwyfor cyn ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996. Cafodd ei ddatblygu gyda grantiau Ewropeaidd, a bellach yn cynnig 410 o angorfeydd pontŵn, swyddfeydd, ystafelloedd newid, cawodydd, toiledau, ardal storio cychod diogel, craen 50 tunnell, symudwr cychod a darpariaeth barcio.

2.2 Ers ei ddatblygu, mae'r Hafan wedi esblygu yn un o gyrchfannau hwylio gorau Prydain, gan fanteisio ar ddyfroedd hwylio arbennig Bae Tremadog. Serch hynny, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae sawl her wedi amlygu gallai danseilio llwyddiant yr Hafan.

2.3 Mae'r Adran Economi a Chymuned eisoes wedi adnabod yr angen i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Hafan, gan ystyried ac asesu gwahanol fathau o fodelau rheoli ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r Hafan yn cael ei reoli yn uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd bwriedir i'r adolygiad ystyried ystod o wahanol strwythurau rheoli a llywodraethu.

2.4 Mae'n amlwg hefyd fod darpariaeth marinas yn destun ffactorau allanol a fydd hefyd yn derbyn sylw. Mae ffactorau o'r fath yn cynnwys newidiadau yn yr hinsawdd economaidd, newidiadau yn yr amgylchedd ffisegol, ynghyd â newidiadau o fewn y farchnad a'r sector forwrol.

2.5 Mae'r gwaith o adolygu trefniadau'r Hafan wedi ei adnabod fel un o flaenoriaethau'r Adran Economi a Chymuned ar gyfer cyfnod 2017/8. Bydd yr Adran hefyd yn adnabod y gwaith fel testun posib i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn dilyn sefydlu'r Cyngor newydd fis Mai. Wrth gwrs, byddai modd cyflwyno manylion pellach i'r Pwyllgor Archwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn pe byddai'r Pwyllgor yn dymuno hynny.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Yn seiliedig ar yr uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio :

i) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad

ii) Gefnogi bwriad yr Adran Economi a Chymuned i adolygu trefniadau rheoli a llywodraethu Hafan Pwllheli a'r amserlen arfaethedig ar gyfer gwneud hynny.